



COMISIWN ELUSENNAU
AR GYFER CYMRU A LLOEGR

CANLLAWIAU

Archwiliad annibynnol o gyfrifon elusennau:
cyfarwyddiadau a chanllawiau i archwilwyr
(CC32)



December 2017

Cyflwyniad

1. Trosolwg cyflym o archwiliad annibynnol
2. Canllawiau a Chyfarwyddiadau'r Comisiwn
3. Arweiniad ychwanegol wrth gymhwyso'r Cyfarwyddiadau i'r archwiliad annibynnol o grwpiau elusennau llai
4. Dyletswydd statudol i adrodd materion sy'n berthnasol i'r Comisiwn
5. Yn ôl disgrisiwn yr Archwilydd i adrodd ar faterion sy'n berthnasol i'r Comisiwn

Atodiad

1. Siart rediad: gofynion cymhwyster elusen ar gyfer archwiliad annibynnol
2. Cyfrifo incwm gros
3. Darn o Reoliadau 2008
4. Enghreifftiau o adroddiadau archwiliwr annibynnol
5. Profiad/gwybodaeth berthnasol a gofynion cymhwyster proffesiynol
6. Paratoi adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr a ffeilio gyda'r Comisiwn
7. Egwyddorion cyfrifyddu cronfeydd
8. Rhestr termau
9. Ffynonellau gwybodaeth bellach

1. Cyflwyniad

1.1 Rôl a chyfraniad yr archwiliwr annibynnol

Mae'r gyfraith elusennau yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob ymddiriedolwr elusen baratoi cyfrifon ar gyfer ei elusen. Rhaid i ymddiriedolwyr elusennau cofrestredig baratoi adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr hefyd (yr adroddiad). Mae'r adroddiad a'r cyfrifon yn dweud wrth roddwyr ac eraill sydd â diddordeb yng ngwaith yr elusen ar gyfer beth y cafodd yr elusen ei sefydlu, beth y mae wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn a sut y mae wedi codi a gwario ei harian. Rôl yr archwiliwr annibynnol yw darparu archwiliad annibynnol o'r cyfrifon. Mae'r archwiliwr yn chwarae rhan wrth gynnal ffydd a hyder cyhoeddus mewn elusennau.

1.2 Am beth mae'r canllaw hwn?

Mae'r canllaw hwn yn esbonio'r Cyfarwyddiadau y mae'n rhaid i'r archwiliwr eu dilyn i gynnal archwiliad annibynnol. Mae'r Cyfarwyddiadau yn orfodol ac yn gymwys i archwiliadau o elusennau cofrestredig ac elusennau sydd wedi'u heithrio rhag cofrestru ar hyn o bryd. Mae hefyd yn esbonio dyletswydd gyfreithiol ar wahân yr archwiliwr i adrodd am unrhyw faterion sydd o arwyddocâd perthnasol i'r Comisiwn.

Mae canllaw ar wahân ar archwiliad annibynnol yn cael ei roi i ymddiriedolwyr elusen. Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am benodi archwiliwr annibynnol eu helusen. Gweler: Archwiliad annibynnol o gyfrifon elusennau: ymddiriedolwyr (CC31).

1.3 Canllawiau blaenorol

Mae'r canllaw hwn yn diweddar cyhoeddiad blaenorol y Comisiwn a gyhoeddwyd ym Mehefin 2015. Mae'n cynnwys y Cyfarwyddiadau newydd sy'n ystyried y cynnydd yn y trothwy ar gyfer cyfnodau adrodd archwiliad annibynnol (blynyddoedd ariannol) sy'n ddiweddu ar neu ar ôl 31 Mawrth 2015 a'r rhestr ddiwygiedig a gyhoeddwyd ar 13 Ebrill 2017 o faterion adroddadwy o arwyddocâd perthnasol i'r rheoleiddiwr elusennau.

Rhaid i archwilwyr annibynnol ddilyn y canllaw a'r Cyfarwyddiadau wedi'u diweddarau pan fyddant yn cynnal eu harchwiliad annibynnol. Ar gyfer adroddiadau archwiliwr annibynnol a arwyddwyd gan yr archwiliwr a'u dyddio ar neu ar ôl 1 Rhagfyr 2017 rhaid dilyn y Cyfarwyddiadau a'r canllawiau newydd ar gyfer yr archwiliad annibynnol er mwyn iddynt gael eu cwblhau'n gywir. Mae'r Cyfarwyddiadau newydd yn orfodol ar 1 Rhagfyr 2017.

Caiff archwilwyr eu hannog i ddilyn y Cyfarwyddiadau a'r canllawiau newydd yn syth a pheidio ag aros i'r dyddiad gorfodol 1 Rhagfyr ond bydd y Comisiwn yn derbyn adroddiadau archwilwyr annibynnol yn seiliedig ar yr hen Gyfarwyddiadau a chanllawiau os ydynt wedi'u harwyddo ar neu cyn 30 Tachwedd 2017. O 1 Rhagfyr os nad yw archwiliwr wedi dilyn y Cyfarwyddiadau a chanllawiau newydd yna nid ydynt wedi cyflawni eu harchwiliad annibynnol yn briodol.

1.4 Sut i ddefnyddio'r canllaw hwn

Cyn dechrau archwiliad annibynnol rhaid i'r archwiliwr ddeall cyfrifoldebau'r archwiliwr a'r ymddiriedolwyr o ran craffu, paratoi a ffeilio cyfrifon. Bydd archwiliad llwyddiannus yn dibynnu ar ddeall beth a olygir wrth archwiliad, pwy all gynnal archwiliad a chael archwiliwr sy'n meddu ar y sgiliau a'r profiad perthnasol i gynnal archwiliad cymwys.

Mae Adran 2 yn rhoi crynodeb 'ar gip' o'r hyn a olygir wrth archwiliad annibynnol. Mae'n gyflwyniad i'r rôl a'r gofynion ar gyfer cynnal archwiliad annibynnol.

Mae Adran 3 yn amlinellu Cyfarwyddiadau'r Comisiwn i archwilwyr annibynnol. Dyma'r gweithdrefnau y mae'n rhaid i'r archwiliwr eu dilyn. Ar gyfer pob Cyfarwyddyd rhoddir canllawiau sy'n nodi sut y caiff gofynion y Cyfarwyddiadau eu bodloni a'r gweithdrefnau a argymhellir a all helpu wrth gynnal yr archwiliad.

Mae Adran 4 yn amlinellu'r ddyletswydd gyfreithiol ar wahân i adrodd materion o arwyddocâd perthnasol yn uniongyrchol i'r Comisiwn ac mae'n cyfeirio'r archwiliwr i'r canllawiau ategol a gyhoeddir gan reoleiddwyr elusennau y DU.

Mae Adran 5 yn amlinellu pŵer dewisol yr archwiliwr i adrodd materion perthnasol i'r Comisiwn.

Rhoddir gwybodaeth ychwanegol yn yr atodiadau i'w cyfeirio atynt pan fydd angen, gan gynnwys adroddiadau archwilwyr enghreifftiol (gweler Atodiad 4).

1.5 Termau a ddefnyddir yn y canllaw hwn

Bydd y canllawiau a'r Cyfarwyddiadau yn defnyddio sawl term fydd yn gyfarwydd i gyfrifwyr. Dylai archwilwyr gyfeirio at y rhestr termau (Atodiad 8) pan ddefnyddir term cyfrifeg neu dechnegol anghyfarwydd. Mae'r termau perthnasol, arwyddocaol ac arwyddocâd perthnasol yn dermau pwysig i'r archwiliwr eu deall.

1.6 'Rhaid', 'dylai' ac 'argymhellir' neu 'gall': beth mae'r Comisiwn yn ei olygu

Yn y canllaw hwn:

- ystyr 'rhaid' yw rhywbeth sy'n ofyniad cyfreithiol neu reoleiddiol neu ddyletswydd y mae'n rhaid i'r archwiliwr annibynnol gydymffurfio ag ef neu ei ddilyn wrth gynnal ei archwiliad
- mae 'dylai' yn golygu canllawiau sy'n arfer da y mae'r Comisiwn yn disgwyl i'r archwiliwr annibynnol eu dilyn wrth gynnal ei archwiliad
- ystyr 'argymhellir' neu 'gall' yw argymhelliad neu arfer y cred y Comisiwn y gall archwiliwr annibynnol ei chael o gymorth wrth gynnal eu harchwiliad annibynnol. Mae disgrisiwn gan yr archwiliwr i arfer ei farn ei hun a dilyn arferion gwahanol os teimlant eu bod yn fwy addas i amgylchiadau'r elusen.

Rhaid i'r archwiliwr annibynnol gofnodi'r dull a fabwysiadir ar gyfer pob un o'r Cyfarwyddiadau ac ystyried yn ofalus ei ddyletswydd ar wahân i adrodd materion o arwyddocâd perthnasol i'r Comisiwn.

2. Cipolwg cyflym ar archwiliad annibynnol

Mae archwiliad annibynnol yn fath o graffu allanol: Mae archwiliad annibynnol yn fath o graffu allanol sy'n darparu gwiriad cyfyngedig ar faterion penodol. Mae'r ffurf gyfyngedig hon o wiriad (y cyfeirir ato weithiau fel sicrwydd negyddol) yn cyferbynnu ag archwiliad ariannol. Mae'n ofynnol i'r archwiliwr annibynnol gadarnhau yn unig a yw unrhyw faterion o bryder perthnasol wedi dod at ei sylw, ond mae'n rhaid i archwiliwr ariannol ddarparu barn ar gyfrifon elusen ac a ydynt yn darparu 'darlun gwir a theg'.

Mae'n rhaid i'r archwiliwr ariannol gynllunio ei waith i ganfod twyll perthnasol neu gynllunio i brofi rheolaethau ariannol mewnol sy'n gweithredu yn yr elusen. Mae archwiliwr ariannol yn adeiladu corff o dystiolaeth i gefnogi datganiad cadarnhaol ynghylch a yw'r cyfrifon yn dangos 'darlun gwir a theg'. Cynhelir archwiliad ariannol yn unol â safonau rhyngwladol archwiliad ariannol a'r canllawiau a gyhoeddir gan y Cyngor Adrodd Ariannol.

Felly mae archwiliad annibynnol yn fath o graffu llai trylwyr nag archwiliad ariannol. Mae'n darparu llai o sicrwydd o ran dyfnder y gwaith sydd i'w gyflawni ac mae wedi'i gyfyngu o ran y materion y mae'r archwiliwr yn adrodd arnynt.

Mae'n rhaid i'r elusen fod yn gymwys i gael archwiliad annibynnol

Er mwyn cynnal ffydd y cyhoedd yng ngwaith elusennau mae'r gyfraith elusennau yn amlinellu'r rhwymedigaethau adrodd, ffeilio a chraffu allanol sydd gan ymddiriedolwyr. Mae'r gyfraith elusennau yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r elusennau hynny sydd â throthwy incwm gros o fwy na £25,000 i gael rhyw fath o graffu allanol ar eu cyfrifon. Mae'r trothwyon yn destun newid o bryd i'w gilydd wrth i'r rheoliadau a wneir o dan Ddeddf 2011 gael eu diweddarau.

Gall yr ymddiriedolwyr ddewis gael archwiliad annibynnol ar yr amod nad yw cynnal archwiliad ariannol yn ofynnol yn ôl y gyfraith elusennau neu oherwydd rhyw reswm arall (gweler adran 3).

Mae cynnwys archwiliad annibynnol wedi'u nodi'n fanwl. Mae'r hyn y mae'n rhaid i chi ei wneud wedi'i nodi yn y Cyfarwyddiadau a wnaed gan y Comisiwn ac mae cynnwys adroddiad yr archwiliwr wedi'i nodi yn Rheoliadau 2008. Mae Rheoliadau 2008 a'r Cyfarwyddiadau yn ofodol ac yn gymwys i archwiliadau o elusennau cofrestredig ac elusennau sydd wedi'u heithrio rhag cofrestru ar hyn o bryd.

Mae archwiliad yn golygu adolygu'r cofnodion cyfrifyddu a gedwir gan yr elusen a chymharu'r cyfrifon a gyflwynir yn erbyn y cofnodion hynny. Mae hefyd yn cynnwys adolygu'r cyfrifon ac ystyried unrhyw eitemau a/neu ddatgeliadau anarferol a ddarperir. Yn ogystal mae'n rhaid i'r

Archwiliad annibynnol o gyfrifon elusennau: cyfarwyddiadau a chanllawiau i archwiliwr (CC32)

archwiliwr ystyried a yw unrhyw faterion o bryder wedi dod at sylw'r archwiliwr annibynnol o ganlyniad i'r archwiliwr annibynnol ac y dylid eu cynnwys yn ei adroddiad er mwyn cael dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon.

Rhaid i'r archwiliwr fod â'r sgiliau iawn: Gall archwiliad annibynnol gael ei gynnal gan unrhyw un sy'n annibynnol (gweler adran 3), sydd â'r wybodaeth a'r profiad angenrheidiol (gweler atodiad 5) ac ar yr amod bod incwm gros yr elusen yn £250,000 neu lai.

Os yw incwm gros yr elusen yn fwy na £250,000, dim ond unigolyn sy'n aelodau o un o'r cyrff rhestredig all gynnal yr archwiliad (gweler atodiad 5).

Mae rôl yr archwiliwr yn gofyn am ddealltwriaeth o beth yw cyfrifon, beth maent yn bwriadu ei wneud, a rhywfaint o sgiliau dadansoddol. Os yw cyfrifon elusennau yn faes newydd i'r archwiliwr, dylai ddarllen deunyddiau priodol neu gael yr addysg angenrheidiol er mwyn deall cyfrifon elusennau. Yn ogystal mae'n rhaid i'r archwiliwr ddarllen a deall y Cyfarwyddiau a'r canllawiau ar gyfer archwiliad annibynnol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn (gweler adran 3).

Mae paratoi yn hanfodol: Rhaid i'r archwiliwr gymryd amser i ddarllen y Cyfarwyddiadau (gweler adran 3) cyn dechrau ei archwiliad annibynnol.

Mae cynllunio gofalus yn allweddol i archwiliad llwyddiannus. Esbonnir y camau angenrheidiol yn y canllaw hwn. Mae'r pwyntiau allweddol i'w cofio yn cynnwys:

- darllen a dilyn y Cyfarwyddiadau a'r canllawiau cysylltiedig
- cydweithio â'r ymddiriedolwyr i sicrhau bod cofnodion cyfrifyddu ar gael
- cytuno ar gyfrifoldebau gyda'r ymddiriedolwyr, er enghraifft, pwy fydd yn paratoi'r cyfrifon ac yn eu ffeilio gyda'r Comisiwn
- cytuno ar amserlen ar gyfer yr archwiliad gyda'r ymddiriedolwyr
- sicrhau bod yr archwiliad yn digwydd ar adeg pan fydd ymddiriedolwyr a staff allweddol ar gael i ateb unrhyw gwestiynau a all godi.

Daw gwaith yr archwiliwr i ben trwy adrodd i'r ymddiriedolwyr

Ar ddiwedd yr archwiliad mae'r archwiliwr yn paratoi adroddiad ar gyfer yr ymddiriedolwyr elusen. Mae'r gyfraith elusennau yn ei gwneud hi'n ofynnol i adroddiad yr archwiliwr annibynnol gynnig sylwadau ar dri pheth penodol: y cofnodion cyfrifyddu a gedwir, a yw'r cyfrifon yn cytuno â'r cofnodion hynny, ac a yw fformat y cyfrifon yn gywir. Yn ogystal dylai'r archwiliwr gynnig sylwadau ar y cyfrifon hynny os oes unrhyw bryderon eraill ganddynt yn eu cylch.

Yn ogystal, os yw un neu ragor o faterion eraill yn dod at sylw'r archwiliwr sydd o arwyddocâd perthnasol i swyddogaethau rheoleiddiol y Comisiwn, gwneir adroddiad ar wahân yn uniongyrchol i'r Comisiwn (gweler adran 5). Hefyd, gall yr archwiliwr ddewis adrodd am unrhyw bryderon y credant all fod yn berthnasol i waith y Comisiwn (gweler adran 6).

3. Canllawiau a Chyfarwyddiadau'r Comisiwn

Rhaid i bob archwiliwr annibynnol ddilyn y Cyfarwyddiadau isod. Mae grym cyfreithiol gan y Cyfarwyddiadau oherwydd cânt eu gwneud gan y Comisiwn o dan adran 145(5) (b) o Ddeddf 2011 sy'n rhoi tair dyletswydd benodol i'r archwilwyr:

- yn gyntaf mae'n rhaid iddynt gynnal yr archwiliad annibynnol yn unol â Chyfarwyddiadau'r Comisiwn;
- yn ail, mae'n rhaid iddynt baratoi adroddiad yr archwiliwr annibynnol ar gyfer yr ymddiriedolwyr elusen; ac
- yn drydydd, mae'n rhaid iddynt ystyried a yw unrhyw faterion o arwyddocâd perthnasol wedi dod i'w sylw yn ystod yr archwiliad annibynnol sy'n arwain at ddyletswydd gyfreithiol i adrodd i'r Comisiwn (gweler adran 5).

Rhaid i'r archwiliwr ddilyn yr holl Gyfarwyddiadau sy'n gymwys. Yn achos cyfrifon derbyniadau a thaliadau nid yw Cyfarwyddyd 7 yn gymwys ac mae Cyfarwyddiadau 8 a 9 yn gymwys yn rhannol yn unig. Mae Cyfarwyddiadau'r Comisiwn yn darparu'r sail weithdrefnol ar gyfer archwiliad annibynnol. Dylai archwilwyr nodi nad yw sefydliad corfforedig elusennol (SCE) yn gwmni ac felly dylai archwilwyr annibynnol SCE bob amser ddilyn y canllawiau yn y ddogfen hon ar gyfer elusennau sydd heb fod yn gwmnïau.

Cyfarwyddyd	Pennawd y Cyfarwyddyd (llinell gyntaf y Cyfarwyddyd)	Yn gymwys i dderbyniadau a thaliadau	Yn gymwys i gyfrifon croniadau
1	Gwirio a yw'r elusen yn gymwys i gael archwiliad annibynnol	√	√
2	Gwirio am unrhyw wrthdaro buddiannau sy'n atal yr archwiliwr rhag cynnal ei archwiliad annibynnol	√	√
3	Cofnodi eich archwiliad annibynnol	√	√
4	Cynllunio eich archwiliad annibynnol	√	√
5	Gwirio bod cofnodion cyfrifyddu yn cael eu cadw i'r safon ofynnol	√	√
6	Gwirio bod y cyfrifon yn cyfateb â'r cofnodion cyfrifyddu	√	√
7	Os yw'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail croniadau ac mae un neu ragor o drafodion cysylltiedig â pharti wedi digwydd, rhaid i'r archwiliwr wirio a chawsant eu datgelu'n briodol yn y nodiadau ar y cyfrifon	-	√
8	Gwirio rhesymoldeb yr amcangyfrifon a barnau arwyddocaol a'r polisïau cyfrifyddu a	Rhannol	√

Cyfarwyddyd	Pennawd y Cyfarwyddyd (llinell gyntaf y Cyfarwyddyd)	Yn gymwys i dderbyniadau a thaliadau	Yn gymwys i gyfrifon cronïadau
	ddefnyddiwyd wrth gyfrifyddu ar gyfer y mathau o gronfa a ddelir ac wrth baratoi'r cyfrifon		
9	Rhaid i'r archwiliwr wirio a yw'r ymddiriedolwyr wedi ystyried amgylchiadau ariannol yr elusen ar ddiwedd y cyfnod adrodd ac, os yw'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail cronïadau, gwirio a yw'r ymddiriedolwyr wedi gwneud asesiad o sefyllfa'r elusen fel busnes byw wrth gymeradwyo'r cyfrifon	Rhannol	√
10	Gwirio ffurf a chynnwys y cyfrifon	√	√
11	Nodi eitemau o'r adolygiad dadansoddol o'r cyfrifon y mae angen eu dilyn i fyny i gael esboniad neu dystiolaeth bellach	√	√
12	Cwblhau adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr gyda'r cyfrifon	√	√
13	Ysgrifennu ac arwyddo adroddiad yr archwiliad annibynnol	√	√
-	Dyletswydd statudol i adrodd materion o arwyddocâd perthnasol i'r Comisiwn	√	√
-	Disgresiwn i adrodd materion perthnasol i'r Comisiwn	√	√

Mae'r adran hon cynnwys:

- pob un o'r 13 Cyfarwyddyd; a
- chanllaw ar weithdrefnau a dulliau gweithredu a fydd yn helpu archwilyr i fodloni gofynion pob un o'r Cyfarwyddiadau

Mae'r adrannau dilynol yn esbonio:

- y canllawiau ychwanegol sy'n gymwys wrth archwilio grwpiau elusennol llai yn adran 4
- dyletswydd statudol yr archwiliwr i adrodd materion sydd o arwyddocâd perthnasol i'r Comisiwn yn adran 5; a
- disgresiwn yr archwiliwr i adrodd materion perthnasol i'r Comisiwn yn adran 6.

Mae'n rhaid dilyn y Cyfarwyddiadau ac maent wedi'u hatgynhyrchu mewn print bras, gyda chanllaw esboniadol mewn print ysgafn oddi dano. Mae'r canllaw yn gwahaniaethu rhwng y

Archwiliad annibynnol o gyfrifon elusennau: cyfarwyddiadau a chanllawiau i archwilyr (CC32)

gofynion cyfreithiol y mae'n rhaid eu dilyn a'r arferion y dylid eu dilyn. Gwneir argymhellion eraill hefyd ar yr arferion a all fod o gymorth i'r archwiliwr. Mae hyn yn cynnwys enghreifftiau sy'n ceisio esbonio pwynt arbennig ac ni ddylid eu cymryd fel yr unig ffordd o ymdrin â mater penodol neu eu bod yn ffordd o drin mater mewn ffordd gynhwysfawr. Bydd angen i bob archwiliwr arfer barn wrth gymhwyso'r Cyfarwyddiadau yng nghyd-destun ei waith ac yn ôl amgylchiadau arbennig yr elusen y mae'n yn ei harchwilio.

Mae'r cyfeiriadau at y gyfraith elusennau yn cyfeirio at adrannau Deddf 2011, Rheoliadau 2008 a'r Cyfarwyddiadau. Mae'r cyfeiriadau at y gyfraith cwmnïau yn cyfeirio at Ddeddf Cwmnïau 2006.

Rhestr wirio ar gyfer archwiliad annibynnol (CC32a)

Argymhellir bod archwilyr yn defnyddio'r rhestr wirio i'w helpu i gynnal ei archwiliad. Er hwylustod cyhoeddir y rhestr wirio ar wahân.

Cyfarwyddyd 1

Gwirio a yw'r elusen yn gymwys i gael archwiliad annibynnol.

Rhaid i'r archwiliwr wirio i weld a oes caniatâd gan yr elusen i gael archwiliad annibynnol neu a yw'n ofynnol yn ôl y gyfraith elusennau neu'r gyfraith cwmnïau i'r elusen gael archwiliad ariannol am unrhyw reswm arall. Os yw'r ymddiriedolwyr wedi dewis paratoi'r cyfrifon ar sail derbyniadau a thaliadau, mae'n rhaid i'r archwiliwr wirio bod yr elusen yn gymwys ar gyfer cyfrifon derbyniadau a thaliadau.

Canllawiau esboniadol

1.1 Os yw incwm elusen yn fwy na £25,000 yna mae'r gyfraith elusennau yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r ymddiriedolwyr gael craffiad allanol o'r cyfrifon. Ar gyfer y rhan fwyaf o elusennau mae archwiliad annibynnol yn opsiwn ond mae'n rhaid i'r archwiliwr wirio nad yw archwiliad ariannol yn ofynnol (cyfeiriwch at atodiad 1).

Gwirio nad oes angen archwiliad ariannol:

1.2 Mae incwm gros yr elusen (ar gyfer y diffiniad o incwm gros gweler atodiad 2) ar gyfer y cyfnod adrodd (blwyddyn ariannol) ac mae cyfanswm gwerth yr asedau yn is na'r trothwy ar gyfer archwiliad ariannol ac felly caniateir i'r ymddiriedolwyr gael archwiliad annibynnol yn lle hynny.

1.3 Dylai'r archwiliwr ystyried yn gynnar yn y broses archwilio lefel yr incwm gros a ddatgelir gan y cofnodion cyfrifyddu a/neu thrwy'r 'prawfweddill'. Rhaid i incwm gros at ddibenion trothwy gael ei gyfrifo yn unol â'r dulliau a nodir yn Atodiad 1. Os yw cyfrifon wedi cael eu paratoi'n flaenorol ar sail croniadau dylai lefel yr incwm gael ei hystyried ar sail croniadau. Dylai elusen nad yw'n gwmni sydd wedi paratoi cyfrifon ar sail croniadau yn flaenorol newid i'r sail derbyniadau a thaliadau dim ond os yw ei hincwm neu sylfaen croniadau a'r arian a dderbyniwyd yn £250,000 neu lai. Os yw cyfrifon wedi cael eu paratoi'n flaenorol ar sail derbyniadau a thaliadau dylai lefel yr incwm gael ei hystyried ar sail yr arian a dderbyniwyd.

1.4 Mae'n rhaid i'r elusen gael archwiliad ariannol ar gyfer blynyddoedd ariannol sy'n diweddu ar neu ar ôl 1 Ebrill 2015 os yw naill ai ei hincwm gros yn fwy na £1m, neu os yw ei hincwm gros yn fwy na £250,000 ac mae cyfanswm gwerth asedau (cyn tynnu rhwymedigaethau) yn fwy na £3.26 miliwn. Dylai'r archwiliwr hefyd wirio'r ddogfen lywodraethol a gofyn i'r ymddiriedolwyr a yw archwiliad ariannol yn ofynnol am reswm arall.

Gwirio a yw is-gwmnïau neu ganghennau wedi cael eu hystyried

1.5 Dylai'r archwiliwr wirio nad yw'r elusen yn rhiant elusen gydag un neu ragor o is-gwmnïau (er enghraifft is-gwmni masnachu) gyda chyfanswm incwm gros o'r rhiant elusen a'i his-gwmnïau ar ôl addasiadau cyfuno o fwy na £1m. Os yw'n uwch na'r trothwy hwn rhaid i gyfrifon grŵp (cyfrifon cyfunol) gael eu paratoi ac mae angen cynnal archwiliad ariannol. Yn is na'r trothwy hwn gall cyfrifon grŵp gael eu paratoi ar sail gwirfoddol anstatudol a chael eu harchwilio'n annibynnol (gweler adran 4).

1.6 Os yw'r elusen yn gweithredu canghennau fel rhan o'r elusen yna rhaid i unrhyw incwm a dderbynnir gan y canghennau gael eu cynnwys wrth gyfrifo incwm gros yr elusen.

Gwirio a yw cyfrifon croniadau yn ofynnol

- 1.7 Os nad yw'r elusen yn gwmni elusennol (yn gwmni elusennol wedi'i gorffori o dan y gyfraith cwmnïau) yna gellir paratoi cyfrifon derbyniadau a thaliadau ar yr amod bod yr incwm gros yn £250,000 neu lai ac nid yw cyfrifon croniadau yn ofynnol gan ddogfen lywodraethol yr elusen, yn amod cyllido, neu am unrhyw reswm arall. Os nad yw'r opsiwn derbyniadau a thaliadau ar gael neu nid yw wedi cael ei gymryd yna rhaid paratoi cyfrifon croniadau trwy ddilyn y SORP cymwys.

Mae'r archwiliwr yn gallu cynnal yr archwiliad

- 1.8 Mae'n bwysig gwirio cymhwysedd personol i gynnal yr archwiliad cyn dechrau'r archwiliad (gweler Cyfarwyddyd 2 ac atodiad 5).

Adolygu incwm yr elusen yn gyson

- 1.9 Rhaid i'r archwiliwr fod yn effro i unrhyw wybodaeth ychwanegol a all ddod i'r amlwg yn ystod yr archwiliad sy'n dangos bod trothwy incwm a/neu ased wedi cael ei groesi. Os nad yw'r elusen yn gymwys i gael archwiliad annibynnol yna dylid cyfeirio'r cyfrifon yn ôl i'r ymddiriedolwyr er mwyn iddynt allu penodi archwiliwr ariannol.
- 1.10 Rhaid i'r camau rhesymol sy'n cael eu cymryd i gadarnhau incwm yr elusen a chanlyniad yr ymchwil hwnnw gael eu dogfennu yn unol â Chyfarwyddyd 3.
- 1.11 Mae'r trothwyon ar gyfer archwiliad ariannol, archwiliad annibynnol ac ar gyfer cyfrifon derbyniadau a thaliadau yn cael eu hadolygu'n barhaus. Cyn cynnal yr archwiliad annibynnol dylid cadarnhau'r trothwyon. Ar adeg cyhoeddi, mae manylion am y trothwyon presennol i'w gweld yn y canllaw [Adroddiadau a chyfrifon elusennau: yr hanfodion Tachwedd 2016 \(CC15b\)](#).

Gwirio am unrhyw oddefeb archwilio

- 1.12 Os yw'r ymddiriedolwyr wedi gwneud cais a chael cymeradwyaeth y Comisiwn ymlaen llaw i gael archwiliad annibynnol yn lle archwiliad ariannol, rhaid i'r archwiliwr annibynnol geisio copi o'r llythyr cymeradwyo gan y Comisiwn a chyfeirio ato yn adroddiad yr archwiliwr.

Os yw'n gwmni gwirio ar gyfer datganiad esemptiad archwiliad

- 1.13 Mae'n rhaid i'r archwiliwr wirio bod ymddiriedolwyr cwmni elusennol (cwmni) sy'n dewis cael archwiliad annibynnol wedi gwneud y datganiad esemptiad archwiliad sy'n ofynnol gan adran 475 o Ddeddf Cwmnïau 2006.

Sefydlu'n gynnar bod modd cynnal archwiliad annibynnol

- 1.14 Trwy ddilyn y gweithdrefnau hyn yn gynnar yn y broses dylid atal gwaith yr archwiliwr rhag cael ei ddyblygu gan archwiliad ariannol proffesiynol a fyddai'n ychwanegu at gostau'r elusen. Os nad yw'r elusen yn gymwys i gael archwiliad annibynnol yna rhaid cyfeirio'r cyfrifon yn ôl i'r ymddiriedolwyr.

Cyfeiriadau cyfreithiol

- 1.15 Gall yr ymddiriedolwyr ddewis cael archwiliad annibynnol (o dan Ddeddf Elusennau 2011 adran 145(1)). Gall ymddiriedolwyr elusennau heb fod yn gwmnïau yn unig, os yw eu Archwiliad annibynnol o gyfrifon elusennau: cyfarwyddiadau a chanllawiau i archwiliwyr (CC32)

helusen yn gymwys, ddewis paratoi cyfrifon derbyniadau a thaliadau (o dan adran 133). Er mwyn i'r naill ddewis neu'r llall fod yn ddilys, rhaid i'r elusen ddod o fewn y bandiau incwm perthnasol a bennwyd gan ddeddfwriaeth.

1.16 Mae'n ofynnol i'r archwiliwr wirio bod:

- archwiliad yn ofynnol o dan adran 145(1) o Ddeddf Elusennau 2011;
- nid yw adran 144(1) o Ddeddf Elusennau 2011 yn gymwys i'r elusen;
- y trothwyon presennol ar gyfer archwiliad wedi'u nodi yn adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn (Cyfrifon ac Archwiliad) 2015 Deddf Elusennau 2011; ac
- os yw'r elusen yn elusen cwmni bach, rhaid iddi yn esempt rhag cael archwiliad ariannol yn unol ag adran 477 o Ddeddf Cwmnïau 2006;
- os yw cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail derbyniadau a thaliadau o dan adran 133 o Ddeddf Elusennau 2011, bod yr ymddiriedolwyr elusen wedi dewis paratoi cyfrifon o dan yr is-adran hon; ac
- os oes is-gwmnïau gan yr elusen bod incwm y grŵp yn is na'r trothwy ar gyfer paratoi cyfrifon grŵp a nodir yn adran 138 o Ddeddf Elusennau 2011. Mae'r trothwy presennol wedi'i nodi yn Rheoliadau (Cyfrifon Grŵp) 2015 Deddf Elusennau 2011.

1.17 Os yw'r gofyniad am 'archwiliad ariannol' wedi'i nodi yn nogfen lywodraethol elusen sydd wedi cael ei hysgrifennu cyn 1 Mawrth 1992, gall yr archwiliwr farnu bod cynnwys cyfeiriad at ddarpariaeth craffu cyfrifon yn nogfen lywodraethol elusen yn dystiolaeth syml o fwriad ar ran y sylfaenydd i osod rhwymedigaeth lymach na'r un a fyddai wedi cael ei osod gan statud ar y pryd. Cyn Deddf Elusennau 1993 nid oedd unrhyw fframwaith statudol ar gyfer archwiliad elusen ac felly oni bai bod cyfeiriad wedi'i wneud yn benodol at archwiliad ariannol gan 'archwiliwr ariannol cymwys' neu archwiliad ariannol gan 'gyfrifydd cymwys', gall y term 'archwiliad' gael ei gymryd i olygu'n syml y gofyniad ar gyfer rhyw fath o graffu annibynnol. Yn yr achos hwn gall archwiliad annibynnol gael ei gynnal yn hytrach nag archwiliad ariannol ond rhaid i'r penderfyniad i ddehongli'r ddogfen lywodraethol fel hyn gael ei wneud gan yr ymddiriedolwyr a dylai'r archwiliwr gael ei hysbysu yn ysgrifenedig.

Cyfarwyddyd 2

Gwirio am unrhyw wrthdaro buddiannau sy'n atal yr archwiliwr rhag cynnal ei archwiliad annibynnol.

Ni all yr archwiliwr gael ei ddylanwadu, neu gael ei weld ei fod wedi cael ei ddylanwadu gan naill ai perthnasoedd personol agos ag ymddiriedolwyr yr elusen, bod yn brif roddwr neu fod â rheolaeth neu ddylanwad sylweddol dros brif gyllidwr yr elusen, neu drwy ymwneud yn feunyddiol â gweinyddu'r elusen sy'n cael ei harchwilio. Rhaid i'r archwiliwr sicrhau nad oes unrhyw faterion neu unrhyw faterion posibl a fyddai'n arwain yn rhesymol at ganfyddiad o'i annibyniaeth a fyddai'n effeithio ar ei allu i gynnal archwiliad mewn ffordd hollol wrthrychol.

Canllawiau esboniadol

2.1 Mae penodi'r archwiliwr annibynnol yn un personol. Yr archwiliwr sy'n cynnal yr archwiliad annibynnol ac yn arwyddo'r adroddiad. Er mwyn i archwiliwr fod yn annibynnol ni all fod gan yr unigolyn hwnnw unrhyw gysylltiad â'r ymddiriedolwyr elusen a allai amharu ar gynnal yr archwiliad mewn modd diduedd. Nid yw hyn yr un peth â chael dim cysylltiad â'r elusen; gall archwiliwr fod yn aelod neu'n gefnogwr yr elusen ac yn aml iawn bydd rhywfaint o ymwneud â'r elusen yn dod â'r rhinwedd ychwanegol o frwdfrydedd personol a bod yn gyfarwydd â'r elusen a all fod yn fanteisiol, ond ni ddylai fod yn rhoddwr sylweddol i'r elusen.

2.2 Rhaid i archwiliwr fod yn annibynnol ar yr elusen y mae'n ei hadolygu. Mae annibyniaeth yn golygu nad yw'r archwiliwr yn cael ei ddylanwadu, neu'n cael ei weld fel ei fod yn cael ei ddylanwadu gan naill ai berthnasau personol agos ag ymddiriedolwyr yr elusen neu drwy ymwneud â gweinyddu'r elusen o ddydd i ddydd. Bydd penderfynu a yw cysylltiad â'r elusen yn cael ei ystyried yn berthynas personol agos ag ymddiriedolwyr yr elusen sy'n effeithio ar annibyniaeth yr archwiliwr yn dibynnu ar yr amgylchiadau arbennig.

Cadarnhau gallu, profiad a chymhwyster

2.3 Gall archwiliwr sy'n aelod o'r elusen weithredu fel archwiliwr, ar yr amod bod ganddo'r gallu a'r profiad angenrheidiol ac, os yw'n ofynnol, gymhwyster cyfrifyddu gofynnol (gweler atodiad 5).

Gwirio am unrhyw ymwneud â gweinyddu'r elusen o ddydd i ddydd

2.4 Enghraifft o ymwneud o ddydd i ddydd yw gweithredu fel ceidwad cyfrifon yr elusen. Nid yw'r hawl i gymryd rhan neu fynychu fel aelod mewn cyfarfod cyffredinol blynyddol yn atal rhywun rhag gweithredu fel archwiliwr a chynnal archwiliad annibynnol.

2.5 Ni all archwiliwr adolygu'n annibynnol ei waith ei hun ac felly ni all yr unigolyn sy'n cadw llyfrau'r elusen fod yn archwiliwr yr elusen. Mewn amgylchiadau prin iawn, gall sefydliad sy'n cyflogi archwiliwr neu'r cwmni y mae'r archwiliwr yn bartner ynddo ddarparu gwasanaeth cadw llyfrau ac archwiliad annibynnol, ar yr amod bod pob un o'r meini prawf canlynol yn cael eu bodloni:

- mae'r archwiliwr annibynnol yna elod o un o'r cyrff cymeradwy (gweler Cyfarwyddyd 1 ac atodiad 5) a bod y corff hwnnw wedi mabwysiadu / yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Safon Foesebol Ddiwygiedig 2016 a gyhoeddwyd gan y Cyngor Adrodd Ariannol (FRC);
- ceir tystiolaeth ddogfennol mewn perthynas â threfniadau cadw llyfrau i ddangos bod y ddealltwriaeth ofynnol gan yr ymddiriedolwyr i fod yn 'rheolaeth wybodus' a bod yr ymddiriedolwyr wedi llunio'r barnau a gwneud y penderfyniadau sydd eu hangen mewn

perthynas â chyflwyno a datgelu gwybodaeth yn y datganiadau ariannol (cyfrifon) a archwiliwyd;

- nid yr archwiliwr annibynnol oedd y ceidwad cyfrifon ac nid yw'n archwiliwr yn adrodd yn uniongyrchol i'r ceidwad cyfrifon; ac
- mae darparu gwasanaethau cadw llyfrau a'r ffaith bod yr archwiliwr wedi cymhwyso Safon Foesegol Ddiwygiedig yr FRC wedi'i nodi yn adroddiad yr archwiliwr annibynnol.

2.6 Gall yr archwiliwr gynorthwyo i baratoi'r cyfrifon. Er bod yr ymddiriedolwyr elusen yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon, weithiau gall yr archwiliwr baratoi'r cyfrifon statudol hefyd ar ran yr ymddiriedolwyr. Ni ddylai hyn gyfaddawdu annibyniaeth yr archwiliwr ar yr amod bod yr archwiliwr yn sicrhau bod gofynion y Cyfarwyddiadau yn cael eu bodloni ac:

- mae cofnodion cyfrifyddu wedi cael eu cadw gan unigolyn arall;
- nid yw'r archwiliwr wedi ymwneud yn uniongyrchol â rheoli neu weinyddu'r elusen o ddydd i ddydd; ac
- mae'r ymddiriedolwyr yn adolygu ac yn cymeradwyo'r cyfrifon hyn.

2.7 Gall yr archwiliwr gynorthwyo'r ymddiriedolwyr hefyd i unioni diffygion, camgymeriadau a hepgoriadau yn y cofnodion cyfrifyddu ond wrth wneud hynny mae'n rhaid i'r archwiliwr ystyried y goblygiadau ar gyfer ei adroddiad (gweler Cyfarwyddiadau 5 ac 13). Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gyfrifon yr elusen ac felly mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr barhau i adolygu a chymeradwyo'r cyfrifon ar ôl eu paratoi.

Gwirio ar gyfer unrhyw wrthdaro buddiannau

2.8 Os yw'r archwiliwr o'r farn bod gwrthdaro buddiannau ganddo neu ni fyddai'n cael ei weld yn annibynnol, ni ddylai gynnal yr archwiliwr annibynnol. Mae enghreifftiau pan ddylai'r archwiliwr ystyried a fyddai'n cael ei weld yn ddigon annibynnol yn cynnwys:

- mae'r archwiliwr wedi gwasanaethu ar is-bwyllgor sy'n goruchwyllo materion ariannol yr elusen neu ei gweithgareddau codi arian yn ystod y flwyddyn y bydd yn ei hadolygu;
- mae'r archwiliwr yn ddibynnol fel buddiolwr ar yr elusen;
- mae'r archwiliwr yn rhoddwr sylweddol i'r elusen;
- mae'r archwiliwr wedi derbyn lletygarwch neu roddion gan yr elusen neu ymddiriedolwyr yr elusen.

Gwirio ar gyfer unrhyw berthynas agos â'r ymddiriedolwyr

2.9 Dylai'r archwiliwr ystyried y diffiniad canlynol o bartion cysylltiedig ac ystyried a yw unrhyw rai o'r perthnasoedd hyn yn gymwys iddo ac felly naill ai bod annibyniaeth yr archwiliwr wedi'i heffeithio neu gellid ei hystyried felly. Mae'r bobl ganlynol wedi'u dosbarthu fel partïon cysylltiedig:

A. unrhyw ymddiriedolwr elusen ac ymddiriedolwr gwarchod yr elusen;

B. rhywun sy'n rhoddwr unrhyw dir i'r elusen (os cafodd y rhodd ei gwneud ar neu ar ôl sefydlu'r elusen); ac

C. unrhyw un sy'n:

1. plentyn, rhiant, wŷr neu wyres, mam-gu neu dad-cu, brawd neu chwaer unrhyw ymddiriedolwr (A) neu roddwr tir (B) o'r fath;

2. swyddog, asiant neu aelod o staff rheoli allweddol yr elusen (neu endid cysylltiedig, er enghraifft ei is-gwmni);

3. priod neu bartner sifil unrhyw un o'r bobl uchod (A, B, C1 ac C2);

4. ymgymryd â busnes mewn partneriaeth ag unrhyw un o'r bobl uchod (A, B, C1, C2 ac C3);

5. unigolyn, neu aelod agos o deulu'r unigolyn hwnnw, sydd â rheolaeth neu reolaeth ar y cyd dros yr elusen yr adroddir arni;

6. unigolyn, neu aelod agos o deulu'r unigolyn hwnnw, sydd â dylanwad arwyddocaol dros yr elusen yr adroddir arni.

Mae 'aelod agos o deulu rhywun' yn cyfeirio at:

a. plant neu wŷr neu wraig yr unigolyn hwnnw;

b. plant, llysblant neu blant anghyfreithlon gŵr neu wraig neu bartner domestig yr unigolyn hwnnw;

c. dibynyddion yr unigolyn hwnnw; ac

ch. partner domestig yr unigolyn hwnnw sy'n byw gydag ef neu hi fel gŵr neu wraig neu mewn perthynas o'r un rhyw gyfatebol.

2.10 Os yw'r archwiliwr wedi dirprwyo rhai tasgau i'w weithwyr ei hun i'w cyflawni, dylai'r staff dan sylw fodloni'r un safon annibyniaeth ar yr elusen â'r archwiliwr a bod â'r profiad a'r wybodaeth berthnasol (gweler atodiad 5).

Cyfeiriadau cyfreithiol

2.11 Disgrifir archwiliwr annibynnol yn adran 145(1)(a) fel 'unigolyn annibynnol y mae sail resymol gan ymddiriedolwyr yr elusen dros gredu fod ganddo'r gallu gofynnol a'r profiad ymarferol i ymgymryd ag archwiliad cymwys o'r cyfrifon'.

Cyfarwyddyd 3

Cofnodi eich archwiliad annibynnol.

Rhaid i'r archwiliwr gadw cofnod o'i archwiliad a'r casgliadau sy'n ddigonol i alluogi trydydd parti sydd heb unrhyw gysylltiad â'i waith i ddod i'r casgliad ei fod wedi dilyn y Cyfarwyddiadau (gan gynnwys Cyfarwyddiadau 1 a 2).

Canllawiau

3.1 Rhaid i bapurau gweithio'r archwiliwr roi manylion am y gwaith a wnaed a chefnogi unrhyw gasgliadau, a chofnodi unrhyw faterion lle roedd rhaid i'r archwiliwr lunio barn gan gynnwys barnau a wnaed gan yr archwiliwr o dan Gyfarwyddiadau 8 ac 11.

3.2 Fel rheol dylai papurau gweithio gael eu cadw gan yr archwiliwr am chwe blynedd ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y maent yn cyfeirio ati, a dylent ddarparu cofnod digonol o'r hyn y mae'r archwiliwr wedi'i wneud. Os yw'r archwiliwr yn rhoi'r gorau i weithredu a gofynnir iddo drosglwyddo ei gofnodion i'r archwiliwr newydd, dylai'r archwiliwr newydd roi sicrwydd ysgrifenedig y bydd yn cadw'r cofnodion hyn am y 6 mlynedd ofynnol cyn trosglwyddo unrhyw gofnodion. Rhaid gwneud hyn oherwydd os bydd y Comisiwn am gael copïau o gofnodion yr archwiliwr neu os oes angen i'r archwiliwr ateb cwestiynau ynghylch yr archwiliad bydd y Comisiwn yn troi i'r archwiliwr a arwyddodd adroddiad yr archwiliad annibynnol i'w darparu.

Y papurau gweithio y dylai fod gennych

3.3 Dylai papurau gweithio'r archwiliwr gynnwys:

- gohebiaeth â'r ymddiriedolwyr sy'n cadarnhau ei fod wedi'i benodi fel yr archwiliwr annibynnol
- cadarnhad bod y cymhwyster gan yr archwiliwr lle y bo'n ofynnol (archwiliadau annibynnol lle mae incwm gros yn fwy na £250,000) i gynnal yr archwiliad ac, os yw'n aelod o gorff proffesiynol, bod yr archwiliwr wedi bodloni gofynion unrhyw dystysgrif ymarfer ac wedi cynnal ei aelodaeth a'i gofrestrriad
- cadarnhad bod yr elusen yn gymwys ar gyfer archwiliad annibynnol ac nid yw archwiliad ariannol yn ofynnol yn ôl y gyfraith, dogfen lywodraethol yr elusen neu am reswm arall
- ei adolygiad dadansoddol (gweler Cyfarwyddyd 11)
- nodiadau ynghylch sut y mae unrhyw feysydd o bryder a nodwyd wedi cael eu datrys, gan gynnwys cyfarfodydd gydag ymddiriedolwyr a staff yr elusen, ynghyd â manylion unrhyw weithdrefnau gwirio a ddefnyddiwyd
- os yw gweithdrefnau gwirio wedi cael eu defnyddio, manylion am unrhyw wirio neu warantu a wnaed yn ystod yr archwiliad, y casgliadau ac unrhyw feysydd o bryder a nodwyd
- y cyfrifon cymeradwy (gweler Cyfarwyddyd 6)
- adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr pan fydd cyfrifon cronadau yn cael eu paratoi (ystyried adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr (gweler Cyfarwyddyd 12)
- gwybodaeth berthnasol yr oedd yr archwiliwr wedi dibynnu arni a/neu ei hystyried wrth gynnal ei archwiliad, er enghraifft copïau o'r ddogfen lywodraethol, cofnodion cyfarfod yr ymddiriedolwyr a chofnod o drafodaethau gyda'r ymddiriedolwyr elusen a staff yr elusen
- copïau o unrhyw sicrwydd ysgrifenedig yr oedd yr archwiliwr wedi gofyn i'r ymddiriedolwyr ei ddarparu yn cadarnhau'r symiau sydd wedi'u cynnwys o fewn y cyfrifon
- casgliadau'r archwiliwr ynghylch yr hyn y daethpwyd o hyd iddo yn ystod yr archwiliad annibynnol sy'n cefnogi adroddiad yr archwiliwr i'r ymddiriedolwyr (Cyfarwyddyd 13)

- manylion am unrhyw faterion a nodiwyd fel materion o arwyddocâd perthnasol y mae'n rhaid i'r archwiliwr eu hadrodd i'r Comisiwn (gweler adran 5) neu unrhyw faterion perthnasol (gweler adran 6) roedd yr archwiliwr wedi dewis eu hadrodd i'r Comisiwn

Ystyriaethau ychwanegol pan godir ffi

3.4 Argymhellir bod yr archwiliwr annibynnol sy'n codi ffi neu sy'n derbyn unrhyw fath o daliad yn rhoi llythyr ymrwymiad i'r ymddiriedolwyr ac yn cadw tystiolaeth bod hwn wedi cael ei dderbyn gan yr ymddiriedolwyr (er enghraifft, copi o'r llythyr penodi wedi'i arwyddo gan gynrychiolydd yr ymddiriedolwyr). Mae archwiliwr sy'n codi ffi yn darparu gwasanaethau sydd wedi'u cwmpasu gan y Rheoliadau Gwyngalchu Arian ac felly mae'n rhaid iddo gydymffurfio â gofynion adrodd ar wahân y rheoliadau hynny (gweler atodiad 9).

Ystyried a oes materion i'w hadrodd

3.5 Os oes achos gan yr archwiliwr i ymddiswyddo neu nid yw'n gallu cwblhau ei archwiliad annibynnol, rhaid iddo ystyried yr amgylchiadau yn ofalus a phenderfynu a oes dyletswydd i adrodd mater o arwyddocâd perthnasol (gweler adran 5) i'r Comisiwn.

3.6 Os yw'r archwiliwr wedi cael ei atal rhag cwblhau'r archwiliad neu wedi cael ei rwystro gan ymddiriedolwyr neu staff yr elusen rhag cynnal ei archwiliad dylid trin hyn fel mater o arwyddocâd perthnasol (gweler adran 5) a'i adrodd i'r Comisiwn.

3.7 Hyd yn oed os nad oes unrhyw ddyletswydd i adrodd (gweler adran 5) i'r Comisiwn, dylai'r archwiliwr ystyried a yw wedi nodi materion yr hoffai adrodd amdanynt oherwydd y teimlai eu bod yn berthnasol i waith y Comisiwn. Rhoddir canllawiau pellach ar adrodd materion perthnasol i'r Comisiwn yn adran 6.

Cyfeiriadau cyfreithiol

3.8 Mae adran 156 o Ddeddf Elusennau 2011 yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r archwiliwr adrodd materion y mae achos rhesymol gan yr archwiliwr dros gredu y byddant yn debygol o fod ag arwyddocâd perthnasol at ddibenion y Comisiwn yn arfer rhai o'i swyddogaethau statudol (gweler adran 5).

3.9 Mae adran 156 hefyd yn datgan os oes achos rhesymol gan yr archwiliwr dros gredu bod mater yn debygol o fod yn berthnasol at ddibenion y Comisiwn yn arfer unrhyw rai o'i swyddogaethau (gweler adran 6) yna gall yr archwiliwr ei adrodd.

Cyfarwyddyd 4

Cynllunio'r archwiliad annibynnol.

Er mwyn cynllunio gweithdrefnau archwilio penodol yn ôl amgylchiadau'r elusen, mae'n rhaid i'r archwiliwr adolygu:

- cyfansoddiad yr elusen;
- y ffordd y caiff y sefydliad ei rheoli;
- a yw camau gweithredu wedi cael eu cymryd ar unrhyw argymhellion blaenorol ar gyfer gwella;
- y cofnodion a'r systemau cyfrifyddu;
- strwythur yr elusen, ei chronfeydd a sut mae gweddillion cronfeydd wedi newid yn ystod y flwyddyn; a
- gweithgareddau'r elusen yn ystod y flwyddyn a'r risgiau gwario ac ariannol a wyneba'r elusen.

Canllawiau

4.1 Er mwyn cynnal archwiliad priodol mae'n bwysig i'r archwiliwr gael dealltwriaeth o'r hyn y mae'r elusen yn ceisio ei wneud a sut y mae'n mynd ati i'w gyflawni. Dylai'r archwiliwr wybod am strwythur ac amcanion yr elusen a'r gweithgareddau a gynhelir. Dylai'r archwiliwr ddefnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio ei archwiliad annibynnol a darparu cefndir i'w adolygiad dadansoddol (Cyfarwyddyd 11).

4.2 Dylai'r archwiliwr bob amser gynllunio i warantu rhai trafodion fel ffordd o brofi a yw'r cofnodion cyfrifyddu wedi cael eu cadw i'r safon ofynnol (gweler Cyfarwyddyd 5) a gwirio bod un neu ragor o eitemau arwyddocaol a ddangosir yn y cyfrifon yn cytuno â'r cofnodion cyfrifyddu a gedwir (gweler Cyfarwyddyd 6).

4.3 Dylai'r archwiliwr ystyried hefyd pa eitemau perthnasol, os oes, all ofyn am ryw fath o warrant neu dystiolaeth i wirio nad yw'r eitem yn cael ei chamddatgan yn y cyfrifon. Gall y risg o gamddatgan fod o ganlyniad i dwyll/trosedd ariannol neu reswm arall. Gall diffyg cyfarfodydd ymddiriedolwyr ffurfiol, absenoldeb cadw cofnodion neu gadw cofnodion priodol, methu â chynnal yr adolygiad blynyddol a argymhellir o reolaethau ariannol mewnol yr elusen, neu orddibyniaeth ar unigolyn i ymdrin â chyfrifon a chyllid yr elusen i gyd ddarparu tystiolaeth i ddangos nad yw'r elusen yn cael ei rhedeg yn dda. Mae elusen sydd heb gael ei rhedeg yn dda yn debygol o gael cofnodion cyfrifyddu gwael a hefyd gwallau yn ei chyfrifon.

4.4 Dylai'r archwiliwr gadw mewn cof unrhyw bryderon y mae wedi'u nodi ar gyfer ei adroddiad (Cyfarwyddyd 13) ac unrhyw beth ar wahân i'w adrodd i'r Comisiwn (gweler adrannau 5 a 6).

4.5 Argymhellir bod yr archwiliwr yn cynnwys yn ei waith cynllunio:

- ystyried cyfansoddiad yr elusen trwy edrych ar ddogfen lywodraethol yr elusen, gan roi sylw arbennig i amcanion, pwerau a rhwymedigaethau'r elusen
- ystyried sut y caiff ei reoli trwy edrych ar unrhyw ddirprwyo awdurdod i staff i wneud penderfyniadau, gan gynnwys rheoli/gwario cronfeydd elusennol a llunio cytundebau cyfreithiol neu wneud ymrwymadau, ac i ba raddau y mae'r ymddiriedolwyr yn arfer goruchwyliaeth dros y penderfyniadau hyn
- trafodaethau â'r ymddiriedolwyr ar unrhyw gamau a gymerwyd i ddilyn i fynnu ar yr argymhellion a wnaed gan yr archwiliwr, os oes, yn dilyn archwiliad ariannol annibynnol y flwyddyn flaenorol (neu'r archwiliad blaenorol) a'r rhesymau pam nad yw'r ymddiriedolwyr wedi derbyn neu roi ar waith unrhyw rai o'r argymhellion a wnaed

- ystyried a yw'r elusen yn gweithredu trwy un neu ragor o ganghennau lleol a sut mae'r cofnodion cyfrifyddu yn cael eu cadw ar gyfer y canghennau a sut mae'r gwariant, incwm, atebolrwydd ac asedau'r canghennau wedi'u cynnwys yng nghyfrifon yr elusen
- trafodaethau â'r ymddiriedolwyr ynghylch rolau unrhyw staff a gyflogir a sut mae tâl staff yn cael ei bennu ac a yw unrhyw staff a gyflogir yn bartion cysylltiedig
- cael manylion am y cofnodion cyfrifyddu sy'n cael eu cadw a'r dulliau o gofnodi trafodion ariannol
- cael manylion y rheolaethau ariannol mewnol y mae'r ymddiriedolwyr wedi'u rhoi yn eu lle
- adolygu cofnodion cyfarfodydd yr ymddiriedolwyr er mwyn gwybod manylion prif ddigwyddiadau, cynlluniau, penderfyniadau ac unrhyw newidiadau i aelodaeth y corff ymddiriedolwyr
- trafodaethau gyda'r ymddiriedolwyr ac, os yw'n briodol, staff yr elusen, er mwyn deall y gweithgareddau, strwythur, nodau ac amcanion a ddefnyddir gan yr elusen i geisio cyflawni ei hamcanion er budd cyhoeddus a bwrw goleuni ar unrhyw amgylchiadau arbennig a phroblemau sy'n effeithio ar yr elusen
- ystyried y gwahanol fathau o gronfa a weinyddir gan yr elusen, cronfeydd anghyfyngedig, cronfeydd cyfyngedig a chronfeydd gwaddol
- trafodaethau â'r ymddiriedolwyr a, lle y bo'n briodol, staff yr elusen, ynghylch cronfeydd yr elusen a'r cofnodion cyfrifyddu a systemau cyfrifyddu a gynhelir gan yr elusen, gan gynnwys gweithrediad unrhyw gyfrifon banc
- trafodaethau â'r ymddiriedolwyr ar sefyllfa ariannol bresennol yr elusen ac os yw cyfrifon cronadau yn cael eu paratoi, pam bod yr ymddiriedolwyr o'r farn bod yr elusen yn fusnes byw (gweler Cyfarwyddyd 9), ynghyd ag unrhyw risgiau ariannol ac anariannol i'r elusen y mae'r ymddiriedolwyr wedi'u hamlinellu yn eu polisi rheoli risg/cofrestru risg neu'n ystyried eu bod yn arwyddocaol i weithrediad yr elusen

4.6 Fel rheol bydd trafodaeth ag un o'r ymddiriedolwyr yn darparu'r holl wybodaeth neu esboniadau sydd eu hangen. Weithiau gall fod angen cynnal sawl sgwrs oherwydd wrth i'r archwiliwr orfod gwirio rhai ffeithiau neu pan fyddant wedi canfod materion sydd angen esboniad pellach.

4.7 Ar ôl gwneud asesiad cychwynnol o'r cam cynllunio, argymhellir bod yr archwiliwr yn ystyried yr wybodaeth hon ynghyd â'i gasgliadau ynghylch y cyfrifon (Cyfarwyddiadau 6, 7, 8 a 10) ac adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr (Cyfarwyddyd 12) ac amgylchiadau ariannol yr elusen (Cyfarwyddyd 9). Bydd hyn yn helpu'r archwiliwr i nodi'r prif eitemau y mae angen eu gwirio a'r eitemau hynny y mae angen rhoi sylw arbennig iddynt a pha eitemau fydd yn rhan o'r adolygiad dadansoddol (Cyfarwyddyd 11) a'r esboniadau y gall fod eu hangen.

4.8 Dylai archwiliwyr sy'n archwilio cyfrifon elusennau sy'n gweithredu ar draws dwy neu ragor o awdurdodaethau'r gyfraith elusennau (elusennau traws-ffiniol) hefyd gyfeirio at y Comisiwn Elusennau Gogledd Iwerddon neu Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban neu'r Awdurdod Rheoleiddio Elusennau (Gweriniaeth Iwerddon) i gael rhagor o wybodaeth ynghylch eu gofynion.

Cyfarwyddyd 5

Gwirio bod cofnodion cyfrifyddu yn cael eu cadw i'r safon ofynnol.

Rhaid i'r archwiliwr sicrhau bod cofnodion cyfrifyddu wedi cael eu cadw yn unol â'r gofynion deddfwriaethol perthnasol.

Canllawiau

5.1 Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gynnal cofnodion cyfrifyddu digonol er mwyn bodloni eu rhwymedigaethau cyfreithiol. Mae cofnodion yr elusen yn cynnwys rhai unrhyw gangen sy'n rhan o'r elusen. Mae'n rhaid i'r archwiliwr adolygu'r cofnodion cyfrifyddu er mwyn nodi unrhyw fethiant perthnasol i gadw cofnodion o'r fath yn unol â dyletswydd gyfreithiol yr ymddiriedolwyr.

5.2 Dylai'r cofnodion cyfrifyddu a gedwir gan yr elusen:

- gael eu cadw a bod yn gyfoes adeg paratoi'r cyfrifon
- fod ar gael yn hawdd
- darparu'r wybodaeth sylfaenol er mwyn gallu deall sefyllfa ariannol yr elusen ar unrhyw ddyddiad a ddewisir ac ar ddiwedd y cyfnod adrodd (blwyddyn ariannol)

5.3 Dylai'r cofnodion cyfrifyddu a gedwir gan yr elusen gynnwys:

- manylion am yr holl incwm/arian a dderbyniwyd a'r taliadau/gwariant a wnaed, dyddiad a natur yr incwm/arian a dderbyniwyd neu'r taliadau/gwariant a chofnod o unrhyw stociau ac asedau sefydlog a ddelir
- manylion am unrhyw asedau a rhwymedigaethau ar ddiwedd y cyfnod adrodd
- os oes gan yr elusen un neu ragor o ganghennau a weinyddir ar wahân ond maent yn rhan o'r elusen, manylion incwm a gwariant ac unrhyw asedau a rhwymedigaethau pob cangen

5.4 Dylai'r archwiliwr wirio a yw cofnodion gan gynnwys talebau (anfonebau, derbyniadau, hawliadau a gwaith papur arall) wedi cael eu cadw i gefnogi'r cyfrifon (gweler Cyfarwyddyd 6). Dylai'r archwiliwr ofyn i'r ymddiriedolwyr esbonio sut y maent wedi sicrhau bod y cofnodion cyfrifyddu a gedwir yn gofnod cyflawn. Efallai na fydd cofnodion manwl iawn gan elusennau llai ond mae'n rhaid i ymddiriedolwyr gadw cofnod o drafodion yn y cyfnod adrodd a chofnod o unrhyw anfonebau heb eu talu a symiau sy'n ddyledus ond heb eu derbyn eto.

5.5 Mae'r gweithdrefnau adolygu yn ceisio canfod unrhyw fethiant arwyddocaol i gynnal cofnodion mewn ffordd sy'n gyson â'r gofynion cyfreithiol ac nid yw'n ceisio canfod pob hepgoriad neu wall dibwys wrth gadw'r cofnodion cyfrifyddu. Gall tystiolaeth ynghylch cyflawnrwydd y cofnodion hynny hefyd ddeillio o unrhyw warantu a wnaed yn dilyn yr adolygiad dadansoddol (Cyfarwyddyd 11). Mae absenoldeb cofnodion cyfrifyddu wedi'u cadw a'u trefnu'n dda y gellir eu hadfer yn hawdd achosi risg arwyddocaol o gamddatgan a cholled o dwyll, lladrad neu gamddefnyddio cronfeydd elusennol.

5.6 Os yw'r archwiliwr yn nodi ac yn unioni diffygion, gwallau a hepgoriadau yn y cofnodion cyfrifyddu yn ystod ei archwiliad yna mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr gytuno ag unrhyw ddiwygiadau i'r cofnodion cyfrifyddu. Dylai'r archwiliwr ystyried pa newidiadau y mae angen eu gwneud wrth lunio ei adroddiad (gweler Cyfarwyddyd 13).

Cyfeiriadau cyfreithiol

5.7 Ar gyfer ymddiriedolwyr elusen sy'n heb fod yn gwmni mae eu dyletswydd yw cynnal cofnodion cyfrifyddu wedi'i hamlinellu o dan adran 130 o Ddeddf 2011. Rhaid i'r cofnodion cyfrifyddu a gedwir fod yn ddigonol i ddangos ac esbonio holl drafodion yr elusen ac yn:

- datgelu ar unrhyw adeg, gyda chywirdeb rhesymol, sefyllfa ariannol yr elusen y pryd hynny, a
- galluogi'r ymddiriedolwyr i sicrhau, os yw unrhyw ddatganiadau cyfrifon yn cael eu paratoi ganddynt o dan adran 132(1), bod y datganiadau cyfrifon hynny yn cydymffurfio â gofynion y rheoliadau o dan adran 132(1).

5.8 Mae'n ofynnol i gwmnïau elusennol gan adran 386 o Ddeddf Cwmnïau 2006 i gadw cofnodion cyfrifyddu sy'n cynnwys:

- cofnodion o ddydd i ddydd o'r holl symiau arian a dderbyniwyd ac a wariwyd gan y cwmni a'r materion y mae'r arian yn cael ei dderbyn a'i wario ar eu cyfer
- cofnod o asedau a rhwymedigaethau'r cwmni

5.9 Rhaid i gwmnïau elusennol sy'n delio mewn nwyddau gadw cofnodion stoc hefyd. Mae'r gofynion arbennig ar gyfer hyn wedi'u nodi yn adran 386(4) o Ddeddf Cwmnïau 2006.

5.10 Rhaid i'r archwiliwr adolygu'r cofnodion cyfrifyddu sy'n cael eu cadw yn unol ag adran 130 o Ddeddf Elusennau 2011 neu, yn achos elusen sy'n gwmni, y cofnodion cyfrifyddu a gedwir yn unol ag adran 386 o Ddeddf Cwmnïau 2006. Gwneir hyn er mwyn nodi unrhyw achosion o fethiant sylweddol i gynnal cofnodion o'r fath ac unrhyw gamddatganiad sylweddol o drafodion yn y cofnodion hynny.

Cyfarwyddyd 6

Gwirio bod y cyfrifon yn cyfateb â'r cofnodion cyfrifyddu.

Mae'n rhaid i'r archwiliwr gymharu cyfrifon yr elusen â chofnodion cyfrifyddu'r elusen yn ddigon manwl er mwyn dod i gasgliad rhesymol nad yw'r cyfrifon yn anghyson mewn ffordd berthnasol â'r cofnodion cyfrifyddu.

Canllawiau

6.1 Mae'n rhaid i'r archwiliwr gymharu'r cyfrifon â'r cofnodion cyfrifyddu sylfaenol er mwyn ystyried a yw'r cyfrifon wedi cael eu paratoi'n briodol i ddangos pa incwm y mae'r elusen wedi'i dderbyn a sut y mae wedi gwario ei chronfeydd elusennol. Os yw trafodion yn ymwneud â chronfeydd cyfyngedig neu gronfeydd gwaddol mae'n rhaid i'r archwiliwr ofyn i'r ymddiriedolwyr esbonio sut mae'r rhain wedi cael eu gwario yn unol â dibenion penodol y cronfeydd hynny a chadarnhau sut mae'r ymddiriedolwyr yn sicrhau bod y trafodion hyn wedi'u cofnodi a'u nodi'n briodol yn y cyfrifon.

6.2 Dylai'r archwiliwr wirio bod y cofnodion cyfrifyddu yn cynnwys rhai dogfennau gwreiddiol (e.e. anfonebau, datganiadau cyflenwyr, archebion prynu, cofnodion ac ati Cymorth Rhodd).

6.3 Dylai'r archwiliwr fod wedi nodi eitemau perthnasol yn y cyfrifon o'u hadolygiad dadansoddol (gweler Cyfarwyddyd 11) a nodi'r trafodion sy'n ffurfio'r eitemau perthnasol hynny. Dylai'r archwiliwr geisio esboniad gan yr ymddiriedolwyr ar gyfer yr eitemau a nodir yn ei adolygiad dadansoddol ac ystyried a oes angen iddo wirio un neu ragor o'r eitemau perthnasol y mae wedi'u nodi yn erbyn y cofnodion cyfrifyddu a gedwir.

Cadw cofnodion llaw

6.4 Os yw'r cofnodion papur llaw yn cael eu cadw dylid gwneud cymhariaeth uniongyrchol â'r cofnodion hynny gan gynnwys cyfriflenni banc, llyfr arian parod a llyfr arian mân a chrynodeb o incwm a gwariant yr elusen. Gall cofnodion a gedwir ar gyfer cyfrifon derbyniadau a thaliadau gynnwys cyfriflenni, ffeil o dderbyniadau ac anfonebau, a rhestr syml o drafodion mewn llyfr, neu ar bapur, neu gofnodion mewn taenlen o'r symiau a dalwyd ac a dderbyniwyd gydag esboniad wrth ochr pob swm.

Cofnodion a gedwir ar gyfrifiadur

6.5 Os yw cofnodion cyfrifyddu yn cael eu cadw ar gyfrifiadur a/neu os defnyddio pecyn meddalwedd cyfrifon dylai'r archwiliwr adolygu nifer o drafodion sylweddol gan gynnwys, os yw'n gymwys, cofnodion dyddlyfr, i wirio cywirdeb y trafodion a nodir yn erbyn y cofnod gwreiddiol neu dystiolaeth ddogfennol. Argymhellir bod adolygiad o gysoniadau banc, crynodebau cyflogres a chyfrifon rheoli yn cael ei gynnal i ddarparu gwiriad defnyddiol ynghylch cyflawnrwydd postio i'r cyfrifon o'r prif gofnodion cyfrifyddu lle y cafodd y trafodiad ei gofnodi gyntaf (llyfrau prif gofnod).

Nodi pryderon

6.6 Os yw pryderon yn codi yn ystod yr archwiliad neu yn dilyn adolygiad dadansoddol (Cyfarwyddyd 11) ac nid oes modd datrys y materion hyn trwy geisio esboniadau gan yr ymddiriedolwyr, neu pan fo'n briodol gan staff yr elusen, neu nid yw'r esboniadau a roddir yn ddigonol yna dylid gwirio'r materion hynny yn erbyn y dogfennau gwreiddiol os oes angen i nodi bod y trafodiad wedi cael ei adrodd yn gywir yn y cyfrifon.

Archwiliad annibynnol o gyfrifon elusennau: cyfarwyddiadau a chanllawiau i archwilwyr (CC32)

Cyfarwyddyd 7

Os yw'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail croniadau ac mae un neu ragor o drafodion cysylltiedig â pharti wedi digwydd, rhaid i'r archwiliwr wirio a chawsant eu datgelu'n briodol yn y nodiadau ar y cyfrifon.

Rhaid i'r archwiliwr wirio bod yr ymddiriedolwyr wedi ystyried a oedd unrhyw drafodion parti cysylltiedig yn y cyfnod adrodd a gwirio a yw'r ymddiriedolwyr wedi gwneud y datgeliadau sydd eu hangen gan y Datganiad o Arferion Cymeradwy (SORP) cymwys yn y nodiadau ar y cyfrifon.

Canllawiau

7.1 Mae cyfrifoldeb cyfreithiol gan yr ymddiriedolwyr am reoli gweinyddiad elusen. Wrth ymgymryd â'r rôl hon dylai'r ymddiriedolwyr wneud penderfyniadau dim ond er budd yr elusen a rhaid i unrhyw fudd preifat i'r ymddiriedolwr neu barti cysylltiedig gael ei awdurdodi, bod yn angenrheidiol ac yn atodol i'r elusen yn bodloni ei dibenion elusennol.

7.2 Mae profiad gwaith achos y Comisiwn yn dangos y gall budd diawdurdod i ymddiriedolwyr a thaliadau diawdurdod a thrafodion parti cysylltiedig sy'n groes i fuddiannau'r elusen fod yn broblem sylweddol i rai elusennau ac arwain at golli cronfeydd elusennol.

7.3 Mae'r gofyniad i ddatgelu trafodion parti cysylltiedig yn gyhoeddus yn wahanol yn dibynnu ar fformat y cyfrifon sy'n cael eu paratoi.

Os yw cyfrifon derbyniadau a thaliadau yn cael eu paratoi

7.4 Nid oes rheidwydd cyfreithiol ar ymddiriedolwyr sy'n paratoi cyfrifon derbyniadau a thaliadau i gynnwys nodyn yn y cyfrifon sy'n datgelu trafodion parti cysylltiedig. Os yw'r ymddiriedolwyr wedi ychwanego nodyn o'r fath i'r cyfrifon yna mae'n ffurfio rhan o'r cyfrifon ac mae'r archwiliwr yn ystyried y nodyn os yw ei gynnwys yn berthnasol i unrhyw bryderon sydd ganddo (gweler Cyfarwyddyd 13) wrth lunio ei adroddiad.

Os yw cyfrifon croniadau yn cael eu paratoi

7.5 Os yw cyfrifon croniadau yn cael eu paratoi, rhaid i'r archwiliwr ofyn i'r ymddiriedolwyr a ydynt wedi ystyried a nodi unrhyw ddatgeliadau parti cysylltiedig gan gynnwys cadarnhau a yw dim datgeliadau. Mae cyfrifon croniadau yn cael u paratoi trwy ddilyn y Datganiad o Arferion Cymeradwy (SORP) cymwys. Mae'r SORP yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddatgelu trafodion parti cysylltiedig yn y nodiadau ar y cyfrifon.

7.6 Dylai'r archwiliwr wirio i weld a yw'r ymddiriedolwyr wedi cynnwys nodyn yn y cyfrifon gyda'r datgeliadau gofynnol a gwirio a yw'r datgeliadau a wnaed yn cydymffurfio'n llawn â gofynion y SORP cymwys ynghylch yr hyn y mae'n rhaid eu datgelu. Mae datganiadau rhannol, anghyflawn neu heb eu cynnwys yn dystiolaeth o ddiffyg cydymffurfio difrifol â'r SORP oherwydd yn ôl y SORP mae'r mathau hyn o drafodion bob amser yn berthnasol. Os oes pryderon yna mae'n rhaid i'r archwiliwr ystyried ei ddyletswydd i adrodd (gweler adran 5) a'r goblygiadau ar gyfer adroddiad yr archwiliwr annibynnol (Cyfarwyddyd 13).

7.7 Os nad oes unrhyw ddatgeliadau parti cysylltiedig y mae'r SORP yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r ffaith honno gael ei nodi yn y nodiadau ar y cyfrifon neu os oes trafodion parti cysylltiedig rhaid datgelu manylion arbennig yn y nodiadau ar y cyfrifon. O ran tâl a threuliau ymddiriedolwyr, os nad yw unrhyw dâl neu dreuliau wedi cael eu talu, rhaid nodi'r ffaith honno hefyd yn y nodiadau ar y cyfrifon neu os na fu unrhyw daliadau o'r fath rhaid datgelu manylion arbennig yn y nodiadau ar y cyfrifon.

Cyfarwyddyd 8

Gwirio rhesymoldeb yr amcangyfrifon a barnau arwyddocaol a'r polisïau cyfrifyddu a ddefnyddiwyd wrth gyfrifyddu ar gyfer y mathau o gronfa a ddelir ac wrth baratoi'r cyfrifon.

Rhaid i'r archwiliwr:

- **Gwirio a yw cronfeydd ar wahân yr elusen wedi cael eu cyfrif amdanynt yn gywir a'u hadrodd yn gywir yn y cyfrifon.**
- **Gwirio a yw unrhyw amcangyfrifon neu farnau perthnasol a wnaed wrth baratoi'r cyfrifon yn rhesymol.**
- **Os yw cyfrifon croniadau yn cael eu paratoi, gwirio bod y polisïau cyfrifyddu a fabwysiadir yn cyd-fynd â'r Datganiad o Arferion Cymeradwy: Cyfrifon ac Adroddiadau gan Elusennau (SORP) a'u bod yn briodol i weithgareddau'r elusen.**

Canllawiau

8.1 Mae cyfrifyddu cronfeydd yn nodwedd unigryw o gyfrifyddu elusennau (gweler atodiad 7). Mae'n hanfodol bod gan yr ymddiriedolwyr ddealltwriaeth dda o'r mathau o gronfa elusennol y maent yn eu gweinyddu ac unrhyw gyfyngiadau ar y defnydd ohonynt. Dylai'r cyfrifon bob amser nodi ar wahân y mathau o gronfa a'r trafodion ar gyfer pob cronfa.

8.2 Felly mae'n rhaid i'r archwiliwr ddeall y gwahanol fathau o gronfa er mwyn gallu cadarnhau bod yr ymddiriedolwyr wedi: deall y gwahanol fathau o gronfa sydd gan yr elusen, wedi sicrhau bod y rhain wedi cael eu cyfrif amdanynt yn gywir a gallu cadarnhau i'r archwiliwr nad yw unrhyw dor-ymddiriedaeth perthnasol wedi digwydd wrth ddefnyddio'r cronfeydd elusennol yn y cyfnod adrodd.

Os yw cyfrifon derbyniadau a thaliadau yn cael eu paratoi

8.3 Os yw cyfrifon derbyniadau a thaliadau yn cael eu paratoi, mae'r cyfrifon yn adroddiad ffeithiol o'r trafodion llyfr arian parod yn y cyfnod adrodd ac felly ni lunnir llawer o farnau. Yr unig gysyniadau cyfrifyddu sylfaenol sy'n gymwys yw cyfrifyddu cronfeydd (gweler atodiad 7) a chysondeb y cyflwyniad o fewn y cyfrifon. Mae polisïau cyfrifyddu a materion llunio barn yn llai perthnasol oherwydd mae'r cyfrif derbyniadau a thaliadau yn gofnod ffeithiol syml o'r arian sy'n cael ei dderbyn a'i wario. Gall y Datganiad o Asedau a Rhwymedigaethau fod yn atodlen syml o wybodaeth. Wrth lunio'r datganiad o asedau a rhwymedigaethau gall fod angen gwneud rhai amcangyfrifon a barnau os nodir gwerthoedd ar gyfer asedau a rhwymedigaethau.

8.4 Mae arweiniad pellach ar ffurf a chynnwys cyfrifon derbyniadau a thaliadau i'w gweld yn y canllaw [Pecyn cyfrifon derbyniadau a thaliadau \(CC16\)](#).

Os yw cyfrifon croniadau yn cael eu paratoi

8.5 Mae cyfrifon sy'n cael eu paratoi ar sail croniadau yn cynnwys defnyddio polisïau cyfrifyddu sy'n pennu sut mae trafodion a digwyddiadau'n cael eu hadlewyrchu yn y cyfrifon a'r amcangyfrifon cyfrifyddu. Rhaid arddel barn i bennu'r gwerthoedd ariannol sydd i'w cynnwys yn y cyfrifon, er enghraifft y cyfnod y bydd ased yn cael ei ddibrisio drosto. Dylai'r polisïau cyfrifyddu a fabwysiadwyd sicrhau bod cyfrifon yn cael eu cyflwyno mewn ffordd berthnasol, ddibynadwy, gymaradwy a dealladwy. Gall y polisïau cyfrifyddu sy'n cael eu mabwysiadu, ac unrhyw

amcangyfrifon neu safbwyntiau sy'n cael eu gwneud wrth baratoi'r cyfrifon, gael effaith berthnasol ar y gweithgareddau ariannol a'r cyflwr busnes a ddatgelir yn y cyfrifon hynny.

8.6 Dylai'r archwiliwr wirio i weld a yw'r cyfrifon wedi cael eu paratoi ar sail busnes byw (gweler Cyfarwyddyd 9). Os nad yw'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail busnes byw, dylai'r archwiliwr ystyried ar ba sail arall y cawsant eu paratoi a sicrhau bod sail y paratoi yn cael ei datgelu'n ddigonol yn adran polisïau cyfrifyddu'r nodiadau ar y cyfrifon.

8.7 Mae'n rhaid i'r archwiliwr ystyried yn ofalus a yw'r cyfrifon yn cyfateb â dulliau ac egwyddorion y SORP cymwys. Nid yw'r archwiliwr yn llunio barn ynghylch a yw'r cyfrifon yn rhoi darlun 'gwir a theg' ond rhaid i wyriad oddi wrth ddulliau ac egwyddorion y SORP gael ei ystyried yn fater i'w nodi yn adroddiad yr archwiliwr annibynnol (Cyfarwyddyd 13). Os yw cyfrifon yn cael eu cynhyrchu o dan y Ddeddf Cwmnïau rhaid i'r ymddiriedolwyr baratoi'r cyfrifon i roi darlun 'gwir a theg', fodd bynnag, nid yw'n ofynnol i'r archwiliwr fynegi barn sy'n datgan a yw'r cyfrifon yn rhoi darlun 'gwir a theg'.

8.8 Mae canllawiau pellach ar ffurf a chynnwys cyfrifon croniadau ar gyfer elusennau llai i'w gweld yng nghyhoeddiad y [Comisiwn Pecynnau cyfrifon SORP FRS 102 ar gyfer elusennau sydd heb fod yn gwmnïau](#).

[Canllawiau ar gyfer cwmnïau elusennol](#)

8.9 Os nad yw'r polisïau cyfrifyddu yn cydymffurfio â'r SORP cymwys dyllid dwyn hyn at sylw'r ymddiriedolwyr elusen. Mae'r SORP cymwys yn ei gwneud hi'n ofynnol i unrhyw wyriad o'i argymhellion gael ei esbonio yn y nodiadau ar y cyfrifon ar gyfer elusennau sy'n gwmnïau a heb fod yn gwmnïau. Mae gwriad wedi'i gyfiawnhau dim ond os yw'n ofynnol er mwyn rhoi darlun 'gwir a theg' a bydd amgylchiadau o'r fath yn anghyffredin. Yn achos gwyro bydd angen i'r archwiliwr wirio bod yr esboniad sy'n ofynnol gan y SORP cymwys wedi cael ei ddarparu. Os yw'r archwiliwr o'r farn nad yw gwriad perthnasol wedi cael ei gyfiawnhau neu ei esbonio'n ddigonol, rhaid adrodd amdano (Cyfarwyddyd 13).

Camau gweithredu i'w cymryd os yw pryderon wedi'u nodi ynghylch y cyfrifon

8.10 Dylai'r archwiliwr werthuso rhesymoldeb unrhyw amcangyfrifon neu farnau a wnaed wrth baratoi'r cyfrifon os ydynt yn berthnasol i'r cyfrifon. Nid oes rhaid i'r archwiliwr geisio meintioli unrhyw gamddatganiadau ond os ydynt yn canfod unrhyw gamddatganiadau dylai ystyried y goblygiadau ar gyfer ei adroddiad (gweler Cyfarwyddyd 13).

8.11 Argymhellir bod yr archwiliwr yn adolygu:

- trosglwyddiadau i gyfrifon cronfa gyfyngedig neu o gyfrifon o'r fath
- prisio rhoddion mewn nwyddau
- prisio buddsoddiadau asedau sefydlog os nad yw unrhyw brisiau marchnad yn bodoli
- amcangyfrifon sy'n deillio o drafodion sydd heb gael eu cofnodi'n llawn yn y cofnodion cyfrifyddu
- os yw ymagwedd seiliedig ar weithgaredd wedi cael ei mabwysiadu, dyrannu costau rhwng categorïau gwariant amrywiol y Datganiad o Weithgareddau Ariannol.

Cyfeiriadau cyfreithiol

8.12 O dan adran 133 o Ddeddf Elusennau 2011, caniateir i elusennau a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr sydd heb fod yn gwmnïau baratoi cyfrifon derbyniadau a thaliadau ar yr amod nad yw incwm gros yr elusen dros £250,000.

8.13 Os yw'n paratoi cyfrifon derbyniadau a thaliadau, rhaid i Sefydliad Corfforedig Elusennol (SCE) gynnwys dau nodyn gorfodol. Mae Rheoliadau (Cyffredinol) Sefydliadau Corfforedig Elusennol 2012 yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddarparu'r wybodaeth ganlynol trwy gyfrwng nodyn:

- a) manylion unrhyw warant a roddir gan y SCE, os yw unrhyw atebolrwydd posibl o dan y warant heb ei gyflwyno ar ddyddiad y datganiad o asedau a rhwymedigaethau; a
- b) manylion unrhyw ddyled sydd heb ei thalu ar ddyddiad y datganiad o asedau a rhwymedigaethau sy'n ddyledus gan y SCE ac a warrantir gan dâl penodol ar unrhyw asedau'r SCE.

8.14 Mae'n ofynnol i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon i droi darlun 'gwir a theg' o dan Arferion Cyfrifyddu Cymeradwy Cyffredinol y DU gan Safon Adrodd Ariannol FRS 100: Cymhwyso Gofynion Adrodd Ariannol a chymhwyso'r SORP cymwys yn unol â'r amgylchiadau a nodir yn y Safon Adrodd Ariannol Cymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102).

8.15 Os yw cyfrifon yn cael eu paratoi o dan adran 132 y Ddeddf Elusennau 2011 (sail croniadau) neu o dan Ddeddf Cwmnïau 2006 adran 396 mae'r ymddiriedolwyr yn paratoi cyfrifon i roi 'darlun gwir a teg'.

8.16 Os yw cyfrifon yn cael eu paratoi o dan adran 132 o Ddeddf Elusennau 2011 (sail croniadau), mae'n ofynnol i elusennau sydd heb fod yn gwmnïau gan reoliad 8 o Reoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 i baratoi cyfrifon sy'n rhoi darlun 'gwir a theg' ac mae'n rhaid i'r datganiad o gyfrifon gael ei baratoi yn unol â'r dulliau a'r egwyddorion a amlinellir yn y SORP. Nid yw'r Rheoliadau wedi cael eu diweddarau eto ar gyfer y SORP cymwys a gyhoeddwyd yng Ngorffennaf 2014 a ddaeth i rym ar gyfer cyfnodau adrodd (blynyddoedd ariannol) yn dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2015. I gynorthwyo ymddiriedolwyr, y rhai sy'n paratoi cyfrifon elusennau ac archwilwyr, cyhoeddodd y Comisiwn ganllawiau ar sut i ddelio â'r mater hwn *Cyfrifon ac adroddiadau elusen - yr hanfodion - Tachwedd 2016 (CC15d)*.

Cyfarwyddyd 9

Rhaid i'r archwiliwr wirio a yw'r ymddiriedolwyr wedi ystyried amgylchiadau ariannol yr elusen ar ddiwedd y cyfnod adrodd ac, os yw'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail croniadau, gwirio a yw'r ymddiriedolwyr wedi gwneud asesiad o sefyllfa'r elusen fel busnes byw wrth gymeradwyo'r cyfrifon.

Os yw cyfrifon croniadau yn cael eu paratoi, mae'n rhaid i'r archwiliwr sicrhau bod y datgeliadau ynghylch busnes byw sy'n ofynnol gan y Datganiad o Arferion Cymeradwy (SORP) cymwys yn cael eu gwneud a bod asesiad yr ymddiriedolwyr o fusnes byw yn rhesymol yn wyneb yr wybodaeth sydd ar gael. Yn arbennig mae'n rhaid i'r archwiliwr wirio a yw unrhyw ansicrwydd sylweddol sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau sy'n bwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r elusen i barhau fel busnes byw yn cael eu datgelu yn y nodiadau ar y cyfrifon.

Os yw cyfrifon derbyniadau a thaliadau neu gyfrifon croniadau yn cael eu paratoi, mae'n rhaid i'r archwiliwr ystyried a yw'r ymddiriedolwyr wedi asesu pa anfonebau, biliau ac ymrwymadau sy'n parhau heb eu talu ar ddiwedd y cyfnod adrodd ac a yw'r ymddiriedolwyr wedi nodi y gallant dalu'r rhain fel a phryd y maent yn ddyledus.

Canllawiau

9.1 Cyfrifoldeb yr ymddiriedolwyr yw rheoli arian yr elusen ac adnoddau eraill yr elusen yn briodol. Wrth wneud hyn dylai'r ymddiriedolwyr ystyried a yw'r elusen yn gallu talu ei biliau a bodloni unrhyw rwymedigaethau pan fyddant yn codi.

9.2 Mae'r term busnes byw yn cyfeirio at allu elusen i fodloni ei rhwymedigaethau pan fyddant yn codi ac felly mae'n sefyllfa barhaus sy'n gymwys cyhyd ag y bo'r elusen yn gweithredu. Mae'n gymwys i elusennau sydd heb fod yn gwmnïau ac elusennau sy'n gwmnïau fel ei gilydd. Mae'r berthynas rhwng busnes byw a pharatoi cyfrifon yn wahanol yn dibynnu ar a yw cyfrifon croniadau neu gyfrifon derbyniadau a thaliadau yn cael eu paratoi.

9.3 Rhaid i bob elusen gofrestredig ddatgelu eu polisi cronfeydd wrth gefn yn adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr neu reswm(resymau) yr ymddiriedolwyr dros beidio â chael un. Trwy reoli cronfeydd wrth gefn yn dda dylai'r ymddiriedolwyr sicrhau bod yr elusen yn gallu talu ei biliau a bodloni ei rhwymedigaethau yn amserol ond os nad dyma'r achos gall yr elusen fod mewn trafferthion ariannol. Gall lefel y cronfeydd wrth gefn sydd gan elusen ddangos y gallai'r elusen wynebu anawsterau ariannol, er enghraifft os yw lefel y cronfeydd wrth gefn wedi lleihau'n fawr ers y flwyddyn flaenorol, ar lefel isel, neu'n lleihau flwyddyn ar ôl blwyddyn.

9.4 Mae gosod polisi cronfeydd wrth gefn ac asesiad yr ymddiriedolwyr ynghylch digonolrwydd lefel y cronfeydd wrth gefn a ddelir ar ddiwedd y cyfnod adrodd yn darparu tystiolaeth bod yr ymddiriedolwyr wedi ystyried amgylchiadau ariannol yr elusen. Dylai'r archwiliwr ofyn i'r ymddiriedolwyr ynghylch polisi cronfeydd wrth gefn yr elusen a digonolrwydd y cronfeydd wrth gefn hynny a gwirio a oes anghysondeb sylweddol rhwng y cyfrifon a lefel y cronfeydd wrth gefn y cyfeirir ati yn adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr (gweler Cyfarwyddyd 12).

Os yw cyfrifon derbyniadau a thaliadau yn cael eu paratoi

9.5 Os yw cyfrifon derbyniadau a thaliadau yn cael eu paratoi, mae'r cyfrifon yn adroddiad ffeithiol o'r trafodion llyfr arian parod yn y cyfnod adrodd ac felly ni lunnir unrhyw farn ynghylch a yw'r elusen yn fusnes byw neu beidio. Wrth baratoi cyfrifon derbyniadau a thaliadau nid oes rhaid i'r ymddiriedolwyr lunio barn ynghylch a yw'r elusen yn fusnes byw ond wrth baratoi Datganiad o Asedau a Rhwymedigaethau disgwylir iddynt allu dweud a yw'r elusen yn gallu talu biliau, anfonebau, taliadau neu fodloni rhwymedigaethau eraill pan fyddant yn codi.

9.6 Os oes achos gan yr archwiliwr dros gredu bod yr ymddiriedolwyr wrth gymeradwyo'r Datganiad o Asedau a Rhwymedigaethau heb wneud unrhyw asesiad o amgylchiadau ariannol yr elusen a/neu y gall yr elusen fod mewn trafferthion ariannol, rhaid i'r archwiliwr ystyried adrodd y ffaith honno i'r Comisiwn (gweler adrannau 5 a 6) a dylai ystyried beth i'w ddweud yn adroddiad yr archwiliwr (Cyfarwyddyd 13). Mae tystiolaeth o elusen sydd mewn trafferthion ariannol yn cynnwys methu â thalu biliau, anfonebau a thaliadau yn aml neu fethu â bodloni rhwymedigaethau eraill pan fyddant yn codi.

Os yw cyfrifon croniadau yn cael eu paratoi

9.7 Os yw cyfrifon croniadau yn cael eu paratoi, cânt eu paratoi ar sail busnes byw oni bai bod y cyfrifon wedi cael eu paratoi ar sail arall. Mae'r SORP cymwys yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r cyfrifon gael eu paratoi ar sail arall os nad yw'r elusen yn fusnes byw. Pan gânt eu paratoi ar sail busnes byw, rhaid i unrhyw ansicrwydd perthnasol ynghylch busnes byw gael ei ddatgelu yn y nodiadau ar y cyfrifon. Mae'r SORP cymwys yn darparu bod yr ymddiriedolwyr yn gwneud eu hasesiad o fusnes byw trwy edrych o leiaf 12 mis ymlaen o'r dyddiad y maent yn cymeradwyo'r cyfrifon.

9.8 Os yw'r cyfrifon croniadau yn cael eu paratoi ar sail busnes byw, rhaid i'r archwiliwr wirio bod yr ymddiriedolwyr wedi cynnal asesiad o fusnes byw sy'n bodloni gofynion y SORP cymwys. Mae hyn yn cynnwys amlinellu'r rhagdybiaeth y mae'r ymddiriedolwyr yn dibynnu arni wrth iddynt ddod i'w casgliad bod yr elusen yn fusnes byw. Mae'r asesiad o sefyllfa ariannol yr elusen fel busnes byw yn benderfyniad y mae'r ymddiriedolwyr yn ei wneud ar y cyd wrth gymeradwyo'r cyfrifon. Gall yr ymddiriedolwyr gymryd cyngor Trysorydd Mygedol a/neu swyddog ariannol yr elusen ynghylch hyn.

9.9 Dylai fod dogfennaeth gan yr ymddiriedolwyr sy'n ategu eu casgliadau ynghylch busnes byw fel rhan o'r broses o baratoi'r cyfrifon. Gall hyn fod ar ffurf rhagolygon llif arian, rhagamcanion cyllidebol yn amlinellu disgwyliadau incwm a gwariant neu drafodaeth yng nghyfarfod yr ymddiriedolwyr o'r risgiau ariannol a/neu gronfeydd wrth gefn.

9.10 Dylai absenoldeb unrhyw ystyriaeth gan yr ymddiriedolwyr o fusnes byw gael ei ystyried gan yr archwiliwr fel achos o bryder ac yn fater y mae angen gwneud gwaith pellach yn ei gylch (Cyfarwyddiadau 8,10 ac 11). Os yw'r archwiliwr yn bryderus nad yw rhagdybiaeth yr ymddiriedolwyr bod yr elusen yn fusnes fyw wedi'i dogfennu'n ddigonol, rhaid i'r archwiliwr ystyried ei ddyletswydd i adrodd (gweler adran 5) a'r goblygiadau ar gyfer adroddiad yr archwiliwr (Cyfarwyddyd 13).

9.11 Hyd yn oed os yw'r ymddiriedolwyr wedi dogfennau eu rhesymau ynghylch pam bod yr elusen yn fusnes byw, os oes gan yr archwiliwr achos dros gredu y gall yr elusen fod mewn trafferthion ariannol, rhaid i'r archwiliwr ystyried adrodd y ffaith honno i'r Comisiwn (gweler adrannau 5 a 6). Dylent ystyried hefyd beth i'w ddweud yn adroddiad yr archwiliwr.

Cyfeiriadau cyfreithiol

9.12 Mae'r cyfrifon yn cael eu cymeradwyo gan yr ymddiriedolwyr ac os yw cyfrifon yn cael eu paratoi o dan adran 132 o Ddeddf Elusennau 2011 (y sail croniadau), mae'n ofynnol i elusennau sydd heb fod yn gwmnïau o dan reoliad 10 o Reoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 i gael y fantolen wedi'i harwyddo gan o leiaf un o ymddiriedolwyr yr elusen. Yn yr un modd ar gyfer cwmnïau elusennol, mae adran 414 o Ddeddf Cwmnïau 2006 yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyfrifon blynyddol y cwmni gael eu cymeradwyo gan fwrdd cyfarwyddwyr a'r fantolen wedi'i harwyddo ar ran y bwrdd gan gyfarwyddwr y cwmni.

Cyfarwyddyd 10

Gwrio ffurf a chynnwys y cyfrifon.

Mae'n rhaid i'r archwiliwr ddilyn y gweithdrefnau sy'n angenrheidiol ym marn yr archwiliwr i ddarparu sail resymol ar gyfer dod i gasgliad ynghylch y cyfrifon ac a ydynt wedi cael eu paratoi'n briodol. Rhaid i'r archwiliwr:

- os yw cyfrifon derbyniadau a thaliadau wedi cael eu paratoi, gwrio ei bod hi'n gyfreithlon i'r elusen baratoi cyfrifon o'r fath, bod yr holl ddatganiadau cyfrifyddu yn bresennol a bod cronfeydd yr elusen wedi'u nodi'n gywir; neu
- os yw cyfrifon croniadau yn cael eu paratoi, gwrio eu bod nhw'n cydymffurfio â'r Datganiad o Arferion Cymeradwy: Cyfrifon ac Adroddiadau gan Elusennau (SORP) a'r safon gyfrifyddu gymwys; ac
- os yw'r elusen yn gwmni, gwrio bod y cyfrifon hefyd yn cydymffurfio â gofynion cymwys y gyfraith cwmnïau.

Canllawiau

Os yw cyfrifon derbyniadau a thaliadau yn cael eu paratoi

10.1 Mae hawl gan elusennau sydd heb fod yn gwmnïau sydd ag incwm gros o £250,000 neu lai baratoi cyfrifon derbyniadau a thaliadau a gall yr ymddiriedolwyr ddewis paratoi'r cyfrifon ar sail derbyniadau a thaliadau neu sail croniadau ar yr amod nad oes unrhyw ofynion eraill sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i baratoi cyfrifon croniadau (gweler Cyfarwyddyd 1).

10.2 Nid yw Rheoliadau 2008 yn pennu ffurf a chynnwys y cyfrifon sy'n cael eu paratoi ar sail derbyniadau a thaliadau. Weithiau gall yr archwiliwr ddod ar draws cyfrifon derbyniadau a thaliadau sy'n cynnwys mantolen yn lle Datganiad o Asedau a Rhwymedigaethau. Ar yr amod nad yw unrhyw eitemau heb fod yn arian parod wedi cael eu rhoi trwy'r cyfrifon derbyniadau a thaliadau dylai'r ymddiriedolwyr ei ailenwi fel Datganiad o Asedau a Rhwymedigaethau, fel arall rhaid ystyried y cyfrifon yn gyfrifon croniadau a dylid eu harchwilio yn unol â hynny.

Os yw cyfrifon croniadau yn cael eu paratoi

10.3 Os yw cyfrifon croniadau yn cael eu paratoi bydd yn ofynnol i'r archwiliwr ddefnyddio'r SORP cymwys a deall ei dulliau a'i egwyddorion er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Rheoliadau 2008. Mae'r SORP cymwys yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob elusen sy'n paratoi cyfrifon croniadau baratoi Datganiad o Weithgareddau Ariannol (SoFA), mantolen, a nodiadau atodol i'r cyfrifon. Yn ôl y SORP rhaid i elusennau mwy sydd ag incwm o fwy na £500,000 baratoi Datganiad o Lifoedd Arian hefyd.

10.4 Dylai'r archwiliwr adolygu'r cyfrifon croniadau yn ddigon manwl er mwyn gallu adnabod unrhyw ddiffyg cydymffurfio arwyddocaol â dulliau ac egwyddorion y SORP. Dylai'r gweithdrefnau adolygu hyn fod yn ddigon manwl i alluogi'r archwiliwr i benderfynu a ddylai unrhyw ddiffyg cydymffurfio â Rheoliadau 2008 neu'r SORP gael ei nodi. Os yw'r archwiliwr yn dod ar draws pryder ynghylch y cyfrifon dylai geisio esboniad gan yr ymddiriedolwyr ac ystyried y goblygiadau ar gyfer ei adroddiad (gweler Cyfarwyddyd 13).

Os yw'r elusen yn gwmni hefyd

10.5 Yn achos cwmnïau elusennol, mae adran 396 o Ddeddf Cwmnïau 2006 yn ei gwneud hi'n ofynnol i baratoi cyfrifon unigol. Yn achos ymgymeriadau dielw, gan gynnwys elusennau, mae Archwiliad annibynnol o gyfrifon elusennau: cyfarwyddiadau a chanllawiau i archwilwyr (CC32)

adran 474(2) o Ddeddf Cwmnïau 2006 yn rhoi cyfrif incwm a gwariant yn lle cyfrif elw a cholled. Yn ogystal mae angen darparu mantolen a gwybodaeth ychwanegol yn y nodiadau. Mae'r SORP cymwys yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob elusen sy'n paratoi cyfrifon croniadau i baratoi Datganiad o Weithgareddau Ariannol (SoFA), mantolen, a nodiadau atodol i'r cyfrifon. Felly, fel arfer, bydd cwmni elusennol yn cyflwyno Datganiad o Weithgareddau Ariannol sy'n cynnwys cyfrif incwm a gwariant, fodd bynnag, gall ddewis cyflwyno cyfrif incwm a gwariant a Datganiad o Weithgareddau Ariannol. Mewn achosion o'r fath rhaid i'r archwiliwr adolygu'r ddau ddatganiad am gysondeb.

Cyfeiriadau cyfreithiol

10.6 Gall yr ymddiriedolwyr ddewis paratoi cyfrifon ar sail derbyniadau a thaliadau o dan adran 133 o Ddeddf Elusennau 2011 ar yr amod nad yw'r elusen yn gwmni elusennol ac o dan y trothwy incwm cymwys. Gosodwyd y trothwy cyfredol gan ddarpariaeth 9 o Orchymyn (Dirprwyo Symiau) 2009 Deddfau Elusennau 1992 a 1993 ar £250,000.

10.7 Dylai'r archwiliwr ddilyn y gweithdrefnau y mae'r archwiliwr yn ystyried sy'n angenrheidiol er mwyn darparu sail resymol ar gyfer penderfynu a yw'r cyfrifon sydd wedi'u paratoi o dan adran 132 o Ddeddf Elusennau 2011 yn cydymffurfio â gofynion ffurf a chynnwys Rheoliadau 2008 gan gynnwys eu paratoi yn unol â'r dulliau a'r egwyddorion a nodwyd yn y Datganiad o Arferion Cymeradwy: Cyfrifon ac Adroddiadau Elusennau (SORP).

10.8 Os yw cyfrifon yn cael eu paratoi o dan adran 132 (y sail croniadau), mae Rheoliadau 2008 yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r cyfrifon gael eu paratoi yn unol â dull ac egwyddorion y SORP. Nid yw Rheoliadau 2008 a wnaed ynghylch cynnwys cyfrifon yn gymwys i gyfrifon cwmnïau elusennol.

10.9 Yn achos elusen sy'n gwmni, rhaid i'r archwiliwr wirio a yw'r cyfrifon yn cael eu paratoi yn unol ag adrannau 396 o Ddeddf Cwmnïau 2006 neu beidio. Rhaid i ymddiriedolwyr cwmni elusennol baratoi cyfrifon sy'n rhoi darlun 'gwir a theg' ac yn gyffredinol bydd hyn yn golygu cydymffurfio â safonau cyfrifyddu a chyfrifon wedi'u paratoi yn unol â dulliau ac egwyddorion y SORP.

10.10 Mae'n ofynnol i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon i droi darlun 'gwir a theg' o dan Arferion Cyfrifyddu Cymeradwy Cyffredinol y DU gan Safon Adrodd Ariannol FRS 100: Cymhwysio Gofynion Adrodd Ariannol, i ddilyn y SORP cymwys.

Cyfarwyddyd 11

Nodi eitemau o'r adolygiad dadansoddol o'r cyfrifon y mae angen eu dilyn i fyny i gael esboniad neu dystiolaeth bellach.

Rhaid i'r archwiliwr ystyried yn ofalus os, yn ystod ei archwiliad, y cafwyd hyd i eitemau oedd yn berthnasol i'r cyfrifon sydd angen esboniad pellach neu dystiolaeth ategol. Os yw'r archwiliwr yn bryderus y gallai cyfrifon yr elusen gael eu camddatgan yn sylweddol yna rhaid i'r archwiliwr ymgymryd â gwaith ychwanegol digonol er mwyn bodloni ei hun fod unrhyw eitem o'r fath wedi cael ei hesbonio a'i chynnwys yn briodol yn y cyfrifon. Rhaid i'r archwiliwr fod yn effro i unrhyw drafodion parti cysylltiedig sydd angen eu datgan ar wahân yn y cyfrifon. Os nad yw'r archwiliwr yn fodlon ynghylch unrhyw eitem mae'n rhaid i'r archwiliwr gyfeirio ati yn adroddiad yr archwiliwr annibynnol.

Canllawiau

11.1 Rhan ganolog o archwiliad annibynnol llwyddiannus yw adolygu'r hyn y mae'r archwiliwr wedi'i ddysgu am y canlynol: yr elusen (Cyfarwyddyd 4), ansawdd y cofnodion cyfrifyddu a gedwir (Cyfarwyddyd 5), y cyfrifon a'r dull o'u paratoi (Cyfarwyddiadau 7, 8 a 9) a chynnwys y cyfrifon (Cyfarwyddyd 10). Bydd y ddealltwriaeth hon yn helpu wrth gynnal yr adolygiad dadansoddol a gall nodi materion sydd angen esboniad ychwanegol neu gadarnhad trwy warantu'r eitem(au).

11.2 Mae'n rhaid i'r archwiliwr gynnal adolygiad dadansoddol o'r cyfrifon er mwyn nodi unrhyw newidiadau perthnasol rhwng y cyfnod adrodd hwn a'r un blaenorol y mae angen eu hesbonio. Dylai'r adolygiad dadansoddol gael ei ddogfennu ym mhapurau gweithio'r archwiliwr.

Os yw cyfrifon derbyniadau a thaliadau yn cael eu paratoi

11.3 Ar gyfer cyfrifon derbyniadau a thaliadau mae'r adolygiad dadansoddol yn cynnwys cymharu'r dadansoddiad o'r arian a dderbyniwyd a'r arian a wariwyd yn y flwyddyn gyfredol â'r flwyddyn flaenorol er mwyn nodi newidiadau arwyddocaol o flwyddyn i flwyddyn. Argymhellir bod yr archwiliwr yn edrych am eitemau, gwahaniaethau neu newidiadau perthnasol sydd angen esboniad pellach.

Os yw cyfrifon croniadau yn cael eu paratoi

11.4 Ar gyfer cyfrifon croniadau mae'r adolygiad dadansoddol yn cynnwys y Datganiad o Weithgareddau Ariannol (SoFA), y Datganiad o Lifoedd Arian, lle y bo angen, a'r fantolen. Dylai'r adolygiad dadansoddiad gynnwys cymhariaeth o'r flwyddyn gyfredol gyda'r flwyddyn flaenorol ar gyfer eitemau o incwm a gwariant a'r symudiad mewn gwerthoedd y fantolen. Dylai archwiliwr y cyfrifon croniadau fod yn chwilio am werthoedd perthnasol sydd angen esboniad ac adolygiad pellach. Argymhellir bod yr archwiliwr yn edrych yn ofalus ar y cyfrifon i weld a ydynt yn dangos unrhyw eitemau arwyddocaol neu anarferol, amrywiadau annisgwyl, neu anghysondebau â gwybodaeth ariannol arall.

Gweithredu i gael y dystiolaeth ofynnol

11.5 Wrth ymgymryd â'r adolygiad dadansoddol gall yr archwiliwr benderfynu bod yr holl esboniadau neu gadarnhadau angenrheidiol ganddo ac felly nid oes angen gweithredu ymhellach. Ar gyfer yr eitemau hynny a nodwyd nad oes gan yr archwiliwr esboniad neu gadarnhad angenrheidiol ar eu cyfer, rhaid i'r archwiliwr wneud gwaith pellach i gael yr esboniad neu'r cadarnhad gofynnol neu nodi nad oes modd cael gwybodaeth o'r fath. Os na chaiff y rhain mae'n

rhaid i'r archwiliwr ystyried ei ddyletswydd i adrodd (gweler adran 5) a'r goblygiadau ar gyfer adroddiad yr archwiliwr (Cyfarwyddyd 13).

11.6 Wrth ymgymryd â'r adolygiad dadansoddol, argymhellir bod yr archwiliwr yn:

- ystyried unrhyw gasgliadau y mae wedi dod iddynt trwy ei waith cynllunio ynghylch beth y bydd angen ei ystyried o bosib (gweler Cyfarwyddyd 4)
- cymharu'r cyfrifon â'r rhai ar gyfer cyfnodau adrodd blaenorol cymaradwy a all gynnwys nifer o flynyddoedd blaenorol
- os oes canghennau gan yr elusen, ystyried yr wybodaeth sy'n gysylltiedig â phob cangen o'r elusen yn ogystal ag ystyried y cyfansymiau ar gyfer yr elusen a ddangosir yn y cyfrifon
- cymharu'r cyfrifon ag unrhyw gyllidebau neu ragolygon sydd wedi cael eu cynhyrchu
- ystyried a yw'r incwm/gwariant a dderbyniwyd yn gyson â ffynonellau codi arian hysbys, er enghraifft hanes o gasgliadau arian parod neu ddigwyddiadau codi arian, grantiau a dderbyniwyd, incwm o fasnachu, neu incwm o werthu nwyddau a roddwyd
- ystyried a yw'r gwariant/taliadau a wnaed yn gyson â gweithgareddau ac amcanion yr elusen - mae'n bwysig cael dealltwriaeth briodol o natur gweithgareddau a materion yr elusen er mwyn i'r agwedd hon ar yr adolygiad fod yn llwyddiannus
- ystyried a yw'r rhwymedigaethau a'r asedau cyfredol a ddatgelir yn gyson â'r raddfa a'r math o weithgareddau a gynhelir, neu yn achos cyfrifon derbyniadau a thaliadau a yw'r holl asedau a rhwymedigaethau arwyddocaol wedi'u rhestru
- ystyried a oes unrhyw dystiolaeth bod y rheolaethau ariannol mewnol naill ai heb fod yn bresennol neu nid ydynt yn gweithredu fel y dylent
- ystyried a yw buddsoddiadau asedau sefydlog yn cynhyrchu incwm sy'n gyson â natur yr asedau a ddelir
- ystyried a yw unrhyw asedau sefydlog diriaethol a ddewisir yn gyson â'r raddfa a'r math o weithgareddau a gynhelir gan yr elusen
- os yw cyfrifon croniadau yn cael eu paratoi, cadarnhau gyda'r ymddiriedolwyr nad oes unrhyw ddigwyddiadau ôl-fantolen lle mae angen gwneud addasiadau i'r cyfrifon neu ddatgeliad yn y nodiadau ar y cyfrifon.

11.7 Os yw gweithdrefnau adolygiad dadansoddol yn nodi unrhyw eitemau anarferol, amrywiad annisgwyl neu anghysondeb, dylid ceisio esboniadau gan yr ymddiriedolwyr elusen neu, os yw'n briodol, staff yr elusen. Dylid dogfennu'r esboniadau hyn (gweler Cyfarwyddyd 3).

11.8 Dylai gweithdrefnau ychwanegol fod yn ofynnol dim ond os nad yw'r esboniadau a ddarparwyd gan yr ymddiriedolwyr elusen, neu os yw'n briodol gan staff yr elusen, yn bodloni'r archwiliwr. Mae'n bwysig dogfennu yn y papurau gweithio pa eitemau y mae'r archwiliwr wedi canfod sy'n gofyn am esboniad neu adolygiad pellach ac unrhyw weithdrefnau ychwanegol a ddilynwyd i gadarnhau'r eitemau neu'r materion hynny.

11.9 Y gweithdrefnau ychwanegol a argymhellir a allai fod yn gymwys yw:

- archwiliad corfforol o ased sefydlog diriaethol
- gwirio'r teitl i ased
- arolygu tystiolaeth ddogfennol trydydd parti (e.e. anfoneb, contract neu gytundeb) i wirio traul neu rwymedigaeth neu i gadarnhau swm yr incwm a dderbyniwyd neu sy'n dderbyniadwy
- ardstiad trydydd parti ar gyfer gweddill banc, neu ased arall a ddelir gan gynnwys dal tystysgrifau buddsoddi
- gwirio derbynneb neu daliad ôl diwedd blwyddyn i gadarnhau bod modd adfer dyled neu swm rhwymedigaeth

11.10 Argymhellir bod yr archwiliwr yn ystyried a oes angen iddo ymgymryd â gweithdrefnau dadansoddol ychwanegol yn ogystal â'r rhai a nodwyd yn y canllaw hwn yn ôl amgylchiadau penodol yr elusen. Dyma faes lle mae'r archwiliwr yn arfer ei farn ac yn tynnu ar ei brofiad ynghylch beth sy'n rhesymol yn wyneb maint a natur gweithgareddau'r elusen.

Cyfarwyddyd 12

Cwblhau adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr gyda'r cyfrifon.

Rhaid i'r archwiliwr gymharu unrhyw wybodaeth ar ffurf naratif neu ffigurau yn adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr â'r cyfrifon er mwyn nodi unrhyw anghysondeb perthnasol rhwng adroddiadau blynyddol yr ymddiriedolwyr a'r cyfrifon.

Canllawiau

12.1 Mae adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr (neu ar gyfer cwmni elusennol adroddiad yr ymddiriedolwyr a'r cyfarwyddwyr ar y cyd) yn rhoi adroddiad o weithgareddau'r elusen yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae'r gofynion cyfreithiol o ran adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr sy'n gymwys i elusennau cofrestredig wedi'u nodi yn Rheoliadau 2008. Rhaid i'r ymddiriedolwyr baratoi'r adroddiad (gweler atodiad 6). Anogir elusennau sydd heb gofrestru gyda'r Comisiwn i baratoi adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr fel arfer da. Mae cyfrifon ac adroddiadau elusennau: yr hanfodion (CC15d) - yn amlinellu cynnwys gofynnol adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr.

12.2 Mae'n ofynnol i ymddiriedolwyr adrodd ar fudd cyhoeddus yn eu hadroddiad. Rhaid iddynt gadarnhau eu bod nhw wedi darllen canllaw'r Comisiwn (PB3 Budd cyhoeddus: adrodd).

12.3 Mae'n rhaid i'r archwiliwr ddilyn y gweithdrefnau i nodi anghysondebau rhwng adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr a'r cyfrifon sydd ym marn yr archwiliwr yn gamarweiniol neu sy'n gwrthddefn yr wybodaeth ariannol yn y cyfrifon. Dylai'r archwiliwr wirio bod lefel y cronfeydd wrth gefn a nodir yn adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr yn gyson â'r cyfrifon (gweler Cyfarwyddyd 9).

12.4 Os yw anghysondebau perthnasol wedi'u nodi dylent gael eu dwyn at sylw'r ymddiriedolwyr elusen. Os nad yw unrhyw ddiwygiad priodol yn cael ei wneud i adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr mae'n rhaid i'r archwiliwr ystyried y goblygiadau ar gyfer adroddiad yr archwiliwr annibynnol (Cyfarwyddyd 13).

12.5 Argymhellir bod yr archwiliwr yn cymharu unrhyw symiau a nodir yn adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr â'r cyfrifon ar gyfer cysondeb â'r rhai yn y cyfrifon, a rhaid iddo hefyd ystyried a yw'r ffigurau ar gyfer incwm a gwarian a nodir yn y cyfrifon yn gyson â natur neu raddfa'r gweithgareddau a ddisgrifir yn adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr.

Cyfeiriadau cyfreithiol

12.6 Pan fydd cyfrifon yn cael eu paratoi o dan adran 132 o Ddeddf Elusennau 2011, neu yn achos elusen sy'n gwmni, yn cael eu paratoi o dan adran 396 o Ddeddf Cwmnïau 2006, rhaid i'r archwiliwr gymharu'r cyfrifon yn erbyn unrhyw gyfeiriadau ariannol yn adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr (os oes); gan nodi unrhyw anghysondebau o bwys ac ystyried arwyddocâd materion o'r fath ar ddealltwriaeth briodol a chywir o gyfrifon yr elusen.

12.7 Mae'n ofynnol i'r archwiliwr gan reoliadau 31 neu 32 o Reoliadau (Cyfrifon ac Adroddiadau) Elusennau 2008 nodi os yw unrhyw wybodaeth yn y cyfrifon yn anghyson ag unrhyw adroddiad yr ymddiriedolwyr ac felly mae'n rhaid iddo wneud sylwadau yn adroddiad yr archwiliwr. Fodd bynnag, os yw cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail derbyniadau a thaliadau o dan adran 42(3) nid yw unrhyw ofyniad ar yr archwiliwr i nodi a yw anghysondeb yn bresennol.

Archwiliad annibynnol o gyfrifon elusennau: cyfarwyddiadau a chanllawiau i archwiliwyr (CC32)

Cyfarwyddyd 13

Ysgrifennu ac arwyddo adroddiad yr archwiliad annibynnol.

Rhaid i'r archwiliwr adolygu'r casgliadau a wnaed yn ei archwiliad annibynnol ac yna paratoi ac arwyddo adroddiad yr archwiliwr annibynnol. Rhaid i gynnwys ei adroddiad gwmpasu'r holl faterion sy'n ofynnol gan Reoliadau 2008. Os yw'r archwiliwr wedi nodi mater o bryder oherwydd bod un neu ragor o'r materion penodol a restrir yn Rheoliadau 2008 neu yn y Cyfarwyddyd hwn yn bresennol neu'n parhau heb eu datrys, rhaid i'r archwiliwr eu dwyn at sylw'r ymddiriedolwr yn adroddiad yr archwiliwr annibynnol.

Canllawiau

Paratoi ar gyfer ysgrifennu'r adroddiad

13.1 Mae adroddiad yr archwiliwr yn ganlyniad archwiliad annibynnol ac mae'n cael ei gyflwyno i'r ymddiriedolwr. Mae naill ai'n cadarnhau bod yr holl faterion y mae'n ofynnol i'r archwiliwr eu hadolygu fel y pennwyd gan Reoliadau 2008 wedi cael eu bodloni, neu mae'n nodi pa ofynion sydd heb gael eu bodloni, ynghyd ag unrhyw faterion y mae angen adrodd amdanynt er mwyn sicrhau dealltwriaeth y darllenwydd o gyfrifon yr elusen.

13.2 Mae'r adroddiad yn tynnu ar gasgliadau'r archwiliad annibynnol ac mae'n rhaid i'r archwiliwr ystyried yn ofalus y casgliadau sy'n cael eu gwneud yn ei archwiliad, ac effaith y casgliadau hyn ar ei adroddiad. Mae Atodiad 4 yn rhoi enghreifftiau o adroddiadau archwiliwr annibynnol. Adroddiad yr archwiliwr a'r archwiliwr sy'n ei arwyddo sy'n gyfrifol am yr archwiliad annibynnol gan fodloni gofynion y rheoliadau a'r Cyfarwyddiadau. Nid oes modd dirprwyo'r cyfrifoldeb hwn neu ddibynnu ar rywun arall.

13.3 Gall yr archwiliwr ddibynnu ar waith eraill pan fydd yn cynnal yr archwiliad annibynnol ond pan fydd yn arwyddo ei adroddiad mae'r archwiliwr yn llwyr gyfrifol am gynnal yr archwiliad. Argymhellir bod yr archwiliwr yn bodloni ei hun bod unrhyw ddibyniaeth y mae'n ei roi ar waith eraill yn cael ei gofnodi a'i fod wedi gwirio ei fod o safon ddigonol ac y gellir dibynnu arno.

13.4 Rhaid i archwiliwr sy'n archwilio cyfrifon elusennau sy'n gweithredu ar draws dwy neu ragor o awdurdodaethau'r gyfraith elusennau (elusennau traws-ffiniol) addasu eu hadroddiad er mwyn bodloni gofynion cyfreithiol pob awdurdodaeth. Mae atodiad 4 yn cynnwys adroddiadau archwiliwr annibynnol enghreifftiol ar gyfer elusennau trawsffiniol y DU.

13.5 Mae Rheoliadau 2008 yn pennu'r gofynion cyfreithiol ar gyfer adroddiad archwiliwr annibynnol. Mae'r Rheoliadau (atodiad 3) yn amlinellu'r cynnwys y mae'n rhaid rhoi sylw iddo yn yr adroddiad. Argymhellir bod yr archwiliwr yn dilyn fformat yr adroddiadau enghreifftiol a nodir yn atodiad 4. Nid oes unrhyw ofyniad ar yr archwiliwr i ehangu ei adroddiad y tu hwnt i'r materion a nodir yn benodol yn Rheoliadau 2008 (gweler atodiad 3) a'r Cyfarwyddiadau. Os yw'n ddefnyddiol o ran dealltwriaeth yr ymddiriedolwr argymhellir bod yr archwiliwr yn nodi yn ei adroddiad nad yw archwiliad annibynnol yn archwiliad ariannol.

Cynnwys gofynnol yr adroddiad

13.6 Yn adroddiad yr archwiliwr rhaid i'r archwiliwr nodi:

- enw a chyfeiriad yr archwiliwr ac enw'r elusen dan sylw
- y flwyddyn ariannol y mae'r cyfrifon yn yr adroddiad yn cyfeirio ati, ac os yw'r elusen yn gwmni elusennol, nad oes angen cynnal archwiliad ariannol o'r cyfrifon yn unol â Rhan 16 o Ddeddf Cwmnïau 2006
- os yw'r incwm gros yn fwy na £250,000, y cymhwyster sy'n ei alluogi i weithredu fel archwiliwr annibynnol (os yw'n aelod o'r cyrff rhestredig, gweler adran atodiad 5)
- cymhwyster proffesiynol perthnasol yr archwiliwr
- os yw archwiliad annibynnol yn cael ei ganiatáu drwy oddefeb yn lle archwiliad ariannol, y dyddiad pan oedd y Comisiwn wedi hepgor y gofyniad am archwiliad ariannol
- bod yr adroddiad a ddarparwyd yn ymwneud ag archwiliad annibynnol a wnaed o dan adran 145 o Ddeddf 2011, a bod yr archwiliad annibynnol wedi cael ei gynnal yn unol â'r Cyfarwyddiadau a roddwyd gan y Comisiwn

13.7 Yn ogystal â gwneud y datganiadau hyn, rhaid i'r archwiliwr ddatgan a yw unrhyw fater wedi dod at ei sylw, mewn perthynas â'r archwiliad, sy'n rhoi achos rhesymol dros gredu mewn unrhyw agwedd berthnasol:

- bod y cofnodion cyfrifyddu ar gyfer elusennau heb fod yn gwmnïau heb gael eu cadw yn unol ag adran 130 o Ddeddf Elusennau 2011, neu
- os yw'r elusen yn gwmni elusennol, bod cofnodion cyfrifyddu heb gael eu cadw yn unol ag adran 386 o Ddeddf Cwmnïau 2006, ac
- nid yw'r cyfrifon yn cydymffurfio â'r cofnodion cyfrifyddu
- os yw'r cyfrifon wedi'u paratoi ar sail cronïadau ar gyfer elusen sydd heb fod yn gwmni o dan adran 132 o Ddeddf 2011 ac nid yw'r cyfrifon hynny yn cydymffurfio â gofynion Rheoliadau 2008 ynghylch ffurf a chynnwys cyfrifon elusen; (mae cyfrifon elusen yn cynnwys Datganiad o Weithgareddau Ariannol a mantolen gyda Datganiad o Lifoedd Arian wedi'u paratoi gan elusennau mwy, nodiadau ar y cyfrifon, a chyfrifon wedi'u paratoi yn unol â'r dulliau a'r egwyddorion a bennwyd yn y SORP cymwys) neu
- os yw'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar gyfer cwmni elusennol, nid yw'r cyfrifon yn cydymffurfio ag adran 396 o'r Ddeddf Cwmnïau a dulliau ac egwyddorion y SORP cymwys.

13.8 Yn ogystal mae'n rhaid i'r archwiliwr ystyried a yw unrhyw faterion o bryder wedi dod at sylw'r archwiliwr annibynnol o ganlyniad i'r archwiliad annibynnol mewn perthynas â'r archwiliad y dylid, ym marn yr archwiliwr, ddwyn sylw atynt yn yr adroddiad er mwyn cael dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon.

Materion o bryder i'w cynnwys yn yr adroddiad er mwyn sicrhau dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon.

13.9 Wrth ystyried a yw mater o bryder wedi dod at ei sylw mewn perthynas â'r archwiliad y dylid, ym marn yr archwiliwr, ddwyn sylw ato yn yr adroddiad er mwyn sicrhau dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon, rhaid i'r archwiliwr ystyried y casgliadau o'i archwiliad er mwyn nodi unrhyw fater y dylid adrodd amdano. Disgwylir i faterion arwyddocaol yn unig gael eu hadrodd.

13.10 Yn arbennig mae Rheoliadau 2008 yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r archwiliwr ddarparu datganiad os yw'r materion penodol canlynol wedi dod at sylw'r archwiliwr yn ystod yr archwiliad:

- unrhyw wariant neu weithredu perthnasol sy'n ymddangos nad yw'n cydymffurfio ag ymddiriedolaethau'r elusen neu'r dibenion penodol a roddwyd ar ddefnyddio cronfeydd cyfyngedig
- unrhyw fethiant i gael yr wybodaeth a'r esboniad gan unrhyw gyn-ymddiriedolwr neu ymddiriedolwr presennol, swyddog neu weithiwr yr ystyrir ei fod yn angenrheidiol ar gyfer yr archwiliad
- yn achos cyfrifon croniadau unrhyw anghysondeb perthnasol rhwng y cyfrifon ac adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr, ac yn achos cwmni elusennol ag adroddiad y cyfarwyddwyr.

13.11 Er mwyn nodi unrhyw wariant neu weithgareddau perthnasol a wnaed y tu allan i amcanion yr elusen, rhaid cael dealltwriaeth o amcanion penodedig yr elusen, fel y'u nodwyd yn ei dogfen lywodraethol. Yn gyffredinol ni fydd lefelau gwariant bach neu amherthnasol ar ddibenion sydd y tu allan i amcanion yr elusen yn cael eu cynnwys yn adroddiad yr archwiliwr. Dylid gwneud sylwadau ar wariant sylweddol, neu gamau gweithredu arwyddocaol, sy'n groes i ymddiriedolaethau'r elusen yn adroddiad yr archwiliwr a dylai'r archwiliwr hefyd ystyried a ydynt yn faterion o arwyddocâd perthnasol i'w hadrodd i'r Comisiwn (gweler adran 5). Pan gânt eu nodi rhaid cynnig sylwadau arnynt yn arddodiad yr archwiliwr, ond nid oes rhaid i'r archwiliwr gynnal gwiriadau neu weithdrefnau penodol i nodi camweithredu o'r fath.

Materion i'w penderfynu os oes modd cyn llunio'r adroddiad

13.12 Oni bai wrth ddilyn gofynion y rheoliadau gwyngalchu arian (gweler atodiad 9) mae'r risg o 'roi achlust' yn gymwys, yna dylai'r materion gael eu dwyn at sylw'r ymddiriedolwyr elusen yn gyntaf gyda'r nod o geisio diwygiad neu addasiad i'r cyfrifon. Os yw pryderon yn parhau yna dylai'r mater gael ei gynnwys yn adroddiad yr archwiliwr os yw'n arwyddocaol gydag esboniad ynghylch y pryder a'r effaith ariannol ar y cyfrifon.

13.13 Os yw'r pryder yn ymwneud â diffyg cydymffurfio â ffurf a chynnwys gofynnol y cyfrifon neu anghysondeb perthnasol â'r SORP cymwys, dylai'r mater gael ei godi yn gyntaf gyda'r ymddiriedolwyr elusen gyda'r nod o geisio diwygiad neu addasiad i'r cyfrifon, ond os yw pryderon yn parhau rhaid rhoi sylw i'r mater yn adroddiad yr archwiliwr. Os yw'r mater yn cael ei nodi yn yr adroddiad, dylid ei esbonio'n llawn a'r effeithiau ariannol ar y cyfrifon.

13.14 Gall unrhyw fethiant i gael yr wybodaeth a'r esboniadau amharu'n ddifrifol ar archwiliad. Os yw gwybodaeth ac esboniadau a geisir heb gael eu darparu i fodlonrwydd yr archwiliwr rhaid cynnwys y ffaith hon yn adroddiad yr archwiliwr. Mae gwrthod darparu gwybodaeth neu esboniadau yn fater difrifol a rhaid ystyried adroddiad ar wahân i'r Comisiwn (gweler adran 5 y canllaw hwn).

13.15 Yn achos cyfrifon sy'n cael eu paratoi ar sail croniadau gall unrhyw anghysondeb mawr rhwng y cyfrifon ac adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr greu camddealltwriaeth. Dylid dwyn hwn at sylw'r ymddiriedolwyr elusen gyda'r nod o ddiwygio'r anghysondeb. Os yw'r ymddiriedolwyr yn gwrthod cytuno i newid adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr neu os yw pryderon yn parhau, dylid nodi hwn yn adroddiad yr archwiliwr.

Arwyddo'r adroddiad

13.16 Rhaid i'r archwiliwr beidio ag arwyddo'r adroddiad cyn i'r ymddiriedolwyr gymeradwyo ac arwyddo adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr a'r cyfrifon. Hyd nes bod yr ymddiriedolwyr wedi cymeradwyo ac arwyddo'r cyfrifon, mae'r cyfrifon yn fersiwn drafft ac yn nid yn gyfrifon terfynol.

13.17 Rhaid i'r archwiliwr ddyddio ac arwyddo copi'r ymddiriedolwyr o adroddiad yr archwiliwr annibynnol. Ar gyfer y fersiwn o adroddiad yr archwiliwr sy'n cael ei ffeilio gyda'r Comisiwn, gall ei

lofnod gael ei deipio. Mae llofnodion wedi'u teipio'n electronig yn cael eu derbyn gan y Comisiwn wrth ffeilio'r adroddiad, y cyfrifon ac adroddiad yr archwiliwr. Gall yr archwiliwr ddewis ychwanegu enw unrhyw fusnes neu gwmni yn ogystal ag arwyddo ei enw ei hun.

13.18 Rhaid i'r archwiliwr restru cymwysterau perthnasol ac os yw incwm yr elusen yn fwy na £250,000 mae'n rhaid iddo enwi'r corff rhestredig y mae'n aelod ohono (gweler atodiad 5). Rhaid i archwilyr sy'n aelodau o gorff rhestredig enwi'r corff hwnnw yn yr adroddiad.

13.19 Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol ar gyfer ffeilio adroddiad yr archwiliwr annibynnol ynghyd ag adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr a'r cyfrifon gyda'r Comisiwn (gweler atodiad 6). Nid oes modd cyflwyno'r cyfrifon os nad yw'r ffurflen flynyddol wedi cael ei chyflwyno. Mae'r ffurflen flynyddol yn cael ei defnyddio gan y Comisiwn i gasglu gwybodaeth am ymddiriedolwyr a'r elusen, ac mae ei chwblhau yn dibynnu ar baratoi'r cyfrifon. Gall yr archwiliwr ffeilio'r cyfrifon os yw'r ymddiriedolwyr yn awdurdodi hyn ond bydd rhaid i'r ymddiriedolwyr gwblhau'r ffurflen flynyddol yn gyntaf. Dylai unrhyw awdurdod i ffeilio gael ei roi yn ysgrifenedig gan yr ymddiriedolwyr.

13.20 Rhaid i'r archwiliwr ystyried a oes angen anfon adroddiad ar wahân am y mater i'r Comisiwn. Esbonnir y ddyletswydd ar wahân hon yn llawn yn adran 5 y canllaw hwn.

13.21 Dim ond mewn amgylchiadau prin iawn fydd cynnwys pryderon yn adroddiad yr archwiliwr i'r ymddiriedolwyr yn arwain at ei ystyried yn 'adroddiad amodol'. Ystyrir bod adroddiad yr archwiliwr yn 'adroddiad amodol' dim ond os yw'r archwiliwr wedi nodi yn ei adroddiad bryder wrth wneud y datganiadau sy'n ofynnol gan Reoliadau 2008. Amlinellir y materion hyn ym mharagraffau 13.7 ac 13.10 uchod.

13.22 Ar yr amod bod yr archwiliwr wedi dilyn y Cyfarwyddiadau a'r canllawiau cysylltiedig nid oes unrhyw ofyniad i wneud gwaith ychwanegol. Nid yw archwiliad annibynnol yn archwiliad ariannol ac mae'n ofynnol i'r archwiliwr ystyried nifer cyfyngedig o faterion penodol yn unig yn ei adroddiad a chadarnhau nad yw unrhyw beth wedi dod at ei sylw yn ystod ei archwiliad sy'n ei arwain at gasglu nad yw rhai gofynion wedi cael eu bodloni. Mae'r adroddiad yn darparu sicrwydd 'negyddol' sy'n gofyn i'r archwiliwr gynnig sylwadau yn unig ar fater os yw wedi canfod bod un neu ragor o'r gofynion heb gael eu bodloni.

Cyfeiriadau cyfreithiol

13.23 Rhaid i'r archwiliwr wrth lunio ei adroddiad fodloni holl ofynion Rheoliadau 2008. Mae rheoliad 31 yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r archwiliwr ddatgan bod y materion a nodir yn rheoliadau 31(h) a 31(i), a rheoliad 31(j) wedi'u bodloni neu beidio a datgan a yw mater ychwanegol wedi'i adrodd neu beidio fel sy'n ofynnol gan reoliad 31 (i) (gweler atodiad 3).

13.24 Yn achos elusennau'r GIG sy'n cael eu harchwilio'n annibynnol gan archwiliwr a benodir gan Archwiliwr Cyffredinol Cymru, mae'r gofynion cyfatebol wedi'u nodi yn rheoliad 32 o Reoliadau 2008 (gweler atodiad 3).

4. Canllawiau ychwanegol wrth gymhwyso'r Cyfarwyddiadau i'r archwiliad annibynnol o grwpiau elusennau llai

Rhaid i archwilwyr nodi os yw paratoi cyfrifon grŵp (a elwir hefyd yn gyfrifon cyfunol) yn ofynnol yn ôl y gyfraith elusennau, rhaid i'r cyfrifon hyn gael eu harchwilio gan archwiliwr ariannol ar hyn o bryd. Felly mae grŵp elusennau llai yn cyfeirio at y cyfrifon grŵp hynny sy'n cael eu paratoi yn wirfoddol. Bydd y Comisiwn yn derbyn cyfrifon grŵp gwirfoddol ar gyfer ffeilio ar yr amod bod yr holl ofynion a nodir yn yr adran hon wedi'u bodloni.

Canllawiau

Os yw'r ymddiriedolwyr yn dewis paratoi cyfrifon grŵp (a elwir hefyd yn gyfrifon cyfunol) yn wirfoddol yna dylai'r archwiliwr eu cynghori nad yw hwn yn ofyniad cyfreithiol ac felly bod y cyfrifon yn 'gyfrifon anstatudol'. Os yw'r ymddiriedolwyr am ffeilio'r cyfrifon anstatudol hyn gyda'r Comisiwn, dylai'r archwiliwr gynghori'r ymddiriedolwyr bod rhaid iddyn nhw a'r archwiliwr fodloni pob un o ofynion y Comisiwn.

Bydd y Comisiwn yn derbyn ffeilio cyfrifon grŵp anstatudol gydag archwiliad annibynnol dim ond os yw pob un o'r gofynion canlynol wedi'u bodloni:

- Mae incwm ac asedau'r grŵp o dan y gofynion archwilio a nodir yn y gyfraith elusennau ar gyfer elusen unigol (gweler Cyfarwyddyd 1) pan fo'n gymwys i'r grŵp;
- Mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail croniadau
- Mae adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr yn bodloni holl ofynion y SORP fel y bônt yn gymwys i adrodd ar riant-elusennau ac is-gwmnïau
- Mae'r archwiliwr annibynnol yn cwmpasu cofnodion cyfrifyddu'r rhiant-elusen a'i holl his-gwmnïau
- Mae adroddiad yr archwiliwr annibynnol yn cyfeirio at y rhiant-elusen a'r grŵp
- Mae'r archwiliwr yn aelod o gorff rhestredig (gweler atodiad 5)
- Mae'r archwiliwr wedi dilyn yr holl Gyfarwyddiadau (gweler adran 3) ac wedi ymgymryd â'r holl weithdrefnau ychwanegol a nodir yn yr adran hon wrth ymgymryd â'i archwiliad
- Mae dogfennau'r archwiliwr annibynnol (Cyfarwyddyd 3) yn nodi eu dibyniaeth ar unrhyw waith a wnaed gan eraill ac mae'r archwiliwr yn derbyn y cyfrifoldeb pennaf am gynnal yr archwiliad annibynnol
- Mae'r archwiliwr yn cymhwyso'r ddyletswydd gyfreithiol i adrodd materion o arwyddocâd perthnasol i'r rhiant-elusen a'i his-gwmnïau, partneriaid a mentrau ar y cyd
- Mae'r archwiliwr yn fodlon ei fod wedi cael yr holl sicrwydd angenrheidiol sy'n ofynnol gan y rhiant-elusen a'i his-gwmnïau, partneriaid a mentrau ar y cyd
- Os yw'r rhiant-elusen yn gwmni yna mae'n rhaid i'r cyfrifon grŵp hefyd gydymffurfio â'r gyfraith cwmnïau
- Mae'r archwiliwr wedi dwyn sylw'r ymddiriedolwyr at hawl y Comisiwn i wrthod y cyfrifon ar neu ar ôl ffeilio os nad yw'r meini prawf wedi'u bodloni'n llawn ac mae angen paratoi cyfrifon statudol.

Os yw'r holl ofynion uchod heb gael eu bodloni'n llawn naill ai wrth ffeilio cyfrifon anstatudol neu os yw hepgoriad yn dod i'r amlwg yn dilyn ffeilio'r cyfrifon hynny, mae'r Comisiwn yn cadw'r hawl i wrthod y cyfrifon anstatudol. Pan fydd yn eu gwrthod bydd y Comisiwn yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r ymddiriedolwyr baratoi cyfres o gyfrifon elusen yn unig yn unol â gofynion cyfreithiol Deddf Elusennau 2011 ynghyd ag adroddiad archwiliad annibynnol elusen yn unig i gymryd ei le.

Mae archwilio cyfrifon grŵp yn gofyn am lefel uchel o allu cyfrifyddu gan gynnwys dealltwriaeth o safonau cyfrifyddu ac egwyddorion cydgrynhoi. I gael rhagor o wybodaeth am gyfrifon grŵp ewch i adran berthnasol y SORP cymwys.

Mae'r adran hon yn amlinellu'r gweithdrefnau ychwanegol y dylai'r archwiliwr eu dilyn pan fydd yn cynnal archwiliad annibynnol o gyfrifon grŵp. Ar yr amod bod y gweithdrefnau ychwanegol hyn yn cael eu dilyn, ystyrir bod yr archwiliad annibynnol yn cydymffurfio â'r Cyfarwyddiadau.

Gweithdrefnau ychwanegol ar gyfer Cyfarwyddyd 3: Cofnodi eich archwiliad annibynnol

Dylai'r archwiliwr gadw cofnod o'r gwaith y mae wedi'i wneud wrth adolygu cofnodion cyfrifyddu'r rhiant-elusen, ei his-gwmnïau, a'i hymgymeriadau cyfunol eraill gan gynnwys unrhyw sicrwydd a geisiwyd ac a roddwyd.

Dylai'r archwiliwr gofnodi'r rhesymau dros beidio â chynnwys unrhyw is-gwmni o'r cyfrifon a gwerthuso'r rhesymau a roddir yn erbyn y meini prawf ar gyfer peidio â chynnwys is-gwmnïau mewn cyfrifon cyfunol fel a nodir yn y SORP a safon gyfrifyddu FRS 102. Ar gyfer unrhyw is-gwmnïau sydd heb eu cynnwys yn y cyfrifon grŵp dylai'r archwiliwr gofnodi ei fod wedi gwirio bod budd y rhiant-elusen ym mhob is-gwmni a gafodd ei hepgor wedi'i gyflwyno yn y cyfrifon grŵp fel buddsoddiad.

Argymhellir bod yr archwiliwr yn cofnodi cofnodion cyfrifyddu unrhyw is-gwmni, menter ar y cyd neu bartner sydd wedi'u cynnwys o fewn y cyfrifon grŵp. Gall hyn gynnwys y prawfweddiell sy'n dangos yr eitemau sydd wedi'u cynnwys yn y cyfrifon grŵp ar gyfer unrhyw is-gwmni, menter ar y cyd neu bartner, unrhyw drafodion rhwng y grŵp sydd wedi cael eu neilltuo ac unrhyw addasiadau a wnaed i eitemau wrth gyfuno i gydymffurfio â gofynion y SORP.

Argymhellir bod yr archwiliwr yn cael copïau o gyfrifon holl is-gwmnïau'r rhiant-elusen, unrhyw fenter ar y cyd ac unrhyw bartner. Bydd hyn yn darparu gwybodaeth gyd-destunol ddefnyddiol iawn i'r archwiliwr i helpu gyda'i adolygiad dadansoddol ac wrth wirio rhesymoldeb y barnau a luniwyd wrth gynnwys eitemau yn y cyfrifon grŵp.

Gweithdrefnau ychwanegol ar gyfer Cyfarwyddyd 5: Gwirio bod cofnodion cyfrifyddu yn cael eu cadw i'r safon ofynnol

Dylai'r archwiliwr drafod â'r ymddiriedolwyr a'r sawl a baratôdd y cyfrifon grŵp pa gamau y maent wedi'u cymryd i fodloni eu hunain bod: y trafodion a'r canlyniadau a nodir yn y cyfrifon grŵp ar gyfer unrhyw is-gwmni cyfunol, menter ar y cyd neu bartner yn real a bod cofnodon cyfrifyddu yn bodoli i gefnogi'r trafodion hynny.

Os nad yw'r archwiliwr yn fodlon bod sail ffeithiol ar gyfer cynnwys unrhyw is-gwmni, menter ar y cyd neu bartner yn y cyfrifon grŵp neu os nad yw'n fodlon â'r esboniadau a roddir yna dylai ystyried y goblygiadau ar gyfer ei adroddiad (Cyfarwyddyd 13).

Gweithdrefnau ychwanegol ar gyfer Cyfarwyddyd 6: Gwirio bod y cyfrifon yn cyfateb â'r cofnodion cyfrifyddu

Dylai'r archwiliwr wirio bod y cyfrifon grŵp yn cyfateb â chofnodion cyfrifyddu y rhiant ymgymeriadau a'r ymgymeriadau grŵp gan gynnwys unrhyw brawfweddiell ac unrhyw gyfrifon is-gwmni yn unig cyhoeddedig.

Dylai'r archwiliwr ddilyn i fyny unrhyw fater na all gael esboniadau neu wybodaeth resymol yn ei gylch gan ymddiriedolwyr y rhiant-gwmni a/neu yr aelod perthnasol o'r grŵp yn uniongyrchol os oes ei angen er mwyn cynnal yr archwiliad a/neu wrth lunio adroddiad yr archwiliwr. Mae adran 154 o Ddeddf Elusennau 2011 yn darparu bod gan yr archwiliwr hawl mynediad mewn perthynas â llyfrau, dogfennau a chofnodion eraill (sut bynnag y cânt eu cadw) sy'n ymwneud â'r rhiant-elusen neu unrhyw aelod o'r grŵp. Yn yr un modd mae hawl gan yr archwiliwr i ofyn am wybodaeth ac

esboniadau gan y cyn ymddiriedolwyr, swyddogion neu weithwyr neu ymddiriedolwyr, swyddogion neu weithwyr presennol y rhiant-elusen neu unrhyw aelod o'r grŵp.

Gweithdrefnau ychwanegol ar gyfer Cyfarwyddyd 9:

Rhaid i'r archwiliwr wirio a yw'r ymddiriedolwyr wedi ystyried amgylchiadau ariannol yr elusen ar ddiwedd y cyfnod adrodd ac, os yw'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail croniadau, gwirio a yw'r ymddiriedolwyr wedi gwneud asesiad o sefyllfa'r elusen fel busnes byw wrth gymeradwyo'r cyfrifon

Dylai'r archwiliwr wirio pan fydd cyfrifon grŵp yn cael eu paratoi ar sail busnes byw bod asedau a rhwymedigaethau'r grŵp o'u hystyried yn eu cyfanrwydd yn ategu'r casgliad hwnnw. Os yw'r ymddiriedolwyr wedi paratoi'r cyfrifon grŵp ar sail busnes byw mae'r egwyddor busnes byw yn gymwys i bob is-gwmni ac i unrhyw brisiad partneriaid a mentrau ar y cyd sy'n rhai cyfunol a'r budd buddsoddi a nodir mewn unrhyw gyfrifon is-gwmniau anghyfunol.

Os yw is-gwmni, menter ar y cyd neu bartner wedi cael ei gyfuno ond nid yw'n fusnes byw ei hun rhaid i sail ei gynnwys gael ei amlinellu yn y polisiau cyfrifyddu ar gyfer y cyfrifon grŵp. Mae is-gwmni, menter ar y cyd neu bartner yn endid cyfreithiol ar wahân i'r elusen. Fel rheol, ni all unrhyw ormodedd o rwymedigaethau sy'n fyw nag asedau'r cwmni gael eu hawlio gan gredydwyr o'r rhiant-elusen, ond dylai'r archwiliwr wirio a yw'r rhiant-elusen wedi cynnig unrhyw warantau neu lunio unrhyw gytundebau cyfreithiol i warantu er mwyn bodloni rhwymedigaethau'r is-gwmni, menter ar y cyd neu bartner. Os yw gwarant neu drefniant cyfreithiol o'r fath yn ei le dylai'r archwiliwr wirio hefyd bod unrhyw rwymedigaethau posibl sy'n codi o'r warant neu'r trefniant cyfreithiol hwnnw ar ddyddiad y fantolen neu sy'n codi o ddigwyddiad ôl fantolen addasadwy yn cael eu nodi yn y nodiadau ar y cyfrifon ynghyd ag unrhyw drafodion parti cysylltiedig.

Gweithdrefnau ychwanegol ar gyfer Cyfarwyddyd 13: Ysgrifennu ac arwyddo adroddiad yr archwiliad annibynnol

Nid yw Rheoliadau 2008 (atodiad 3) yn gwneud unrhyw ddarpariaeth ar wahân ar gyfer yr archwiliad annibynnol o grwpiau llai ac felly nid oes unrhyw faterion ychwanegol i'r archwiliwr adrodd amdanynt. Dylai'r archwiliwr addasu geiriad ei adroddiad i'r graddau sydd ei angen er mwyn bod yn glir bod ei archwiliad yn archwiliad o gyfrifon grŵp. Rhoddir enghraifft yn atodiad 4.

Wrth ysgrifennu ei adroddiad dylai'r archwiliwr ystyried ei gasgliadau gan gyfeirio at ei adolygiad o'r cyfrifon grŵp ac adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr.

5. Dyletswydd statudol i adrodd materion o arwyddocâd perthnasol i'r Comisiwn

Mae adrannau 156 a 159 o Ddeddf Elusennau 2011 yn rhoi dyletswydd ar archwilwyr annibynnol elusennau sy'n gwmnïau a heb fod yn gwmnïau i baratoi adroddiad i'r Comisiwn os ydynt, yn ystod eu harchwiliad, yn adnabod mater sy'n ymwneud â gweithgareddau neu faterion yr elusen neu unrhyw sefydliad neu gorff cysylltiedig, ac mae achos rhesymol gan yr archwilwyr dros gredu ei fod yn debygol o fod o arwyddocâd perthnasol at ddibenion y Comisiwn yn arfer ei swyddogaethau a restrir yn adran 156(3) o Ddeddf Elusennau 2011.

Canllawiau

Yn ogystal â chynnal archwiliad annibynnol o'r cyfrifon, mae cyfrifoldeb cyfreithiol ar wahân gan yr archwiliwr i adrodd i'r Comisiwn os yw mater o arwyddocâd perthnasol i swyddogaethau rheoleiddio'r Comisiwn yn codi. Mae'r ddyletswydd hon yn gymwys i elusennau sy'n gwmnïau ac elusennau heb fod yn gwmnïau sydd wedi cofrestru gyda'r Comisiwn ac i elusennau sydd wedi'u heithrio rhag cofrestru gyda'r Comisiwn ar hyn o bryd. Mae'r archwiliwr yn arfer ei farn ar ôl darllen yr adran hon.

Rhaid i archwilwyr adrodd am faterion o arwyddocâd perthnasol y deuant ar eu traws wrth ymgymryd â'u harchwiliad annibynnol a dilyn y Cyfarwyddiadau. Fel rheol bydd y mater yn cyfeirio at y flwyddyn y mae'r archwiliwr yn adrodd arni. Os daw mater i'r amlwg ynglŷn â blwyddyn ariannol flaenorol a fyddai'n golygu bod dyletswydd i adrodd, rhaid i'r archwiliwr baratoi adroddiad oni bai ei fod yn sicr ei fod eisoes wedi cael ei adrodd ganddo neu archwiliwr blaenorol yr elusen a bod copi ganddo ar ffeil o ymateb y Comisiwn i'r adroddiad hwnnw.

Nid oes rhaid i'r archwiliwr wneud gwaith ychwanegol i ddilyn y Cyfarwyddiadau ac nid oes rhaid iddo fynd ati i chwilio am faterion o arwyddocâd perthnasol y mae angen adrodd amdanynt.

Mae'r Comisiwn, Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban (OSCR) a Chomisiwn Elusennau Gogledd Iwerddon (CCNI) wedi cytuno ar restr o naw mater o arwyddocâd perthnasol y mae'n rhaid i'r archwiliwr annibynnol bob amser adrodd amdanynt:

Anonstrwydd a Thwyll	materion sy'n awgrymu anonstrwydd neu dwyll sy'n cynnwys colled sylweddol o gronfeydd neu asedau elusennol, neu risg perthnasol iddynt
Rheolaethau Mewnol a Llywodraethu	methiant(methiannau) rheolaethau mewnol, gan gynnwys methiant(methiannau) yn null llywodraethu'r elusen sydd wedi arwain at, neu a allai arwain at golled sylweddol neu gamddefnyddio cronfeydd elusennol, neu sy'n arwain at risg mawr i gronfeydd elusennol
Gwyngalchu Arian a Gweithgarwch Troseddol	gwybod neu amau bod yr elusen neu'r cronfeydd elusennol gan gynnwys cyfrif(on) banc yr elusen wedi cael eu defnyddio i wyngalchu arian neu fod cronfeydd o'r fath yn enillion troseddau cyfundrefnol difrifol neu fod yr elusen yn gyfrwng i weithgarwch troseddol
Cefnogi Terfysgaeth	materion sy'n arwain at wybod neu amau bod yr elusen, ei hymddiriedolwyr, ei gweithwyr neu ei hasedau, wedi bod yn rhan o derfysgaeth neu wedi cael eu defnyddio i gefnogi terfysgaeth neu sefydliadau gwaharddedig yn y DU neu'r tu allan i'r DU, ac eithrio materion sy'n gysylltiedig â throsedd gymwys fel y'i diffiniwyd gan Adran 3(7) o Ddeddf (Dedfrydau) Gogledd Iwerddon 1998.
Risg i fuddiolwyr elusen	tystiolaeth sy'n awgrymu drwy'r ffordd y mae'r elusen yn ymgymryd â'i gwaith o ran gofal a lles buddiolwyr, bod buddiolwyr yr elusen yn neu wedi bod mewn perygl arwyddocaol o gael eu cam-drin neu eu camddefnyddio.
Torri'r gyfraith neu ymddiriedolaethau'r elusen	achosion unigol neu ailadroddus o dorri naill ai gofyniad deddfwriaethol neu ymddiriedolaethau'r elusen sy'n arwain at gamddefnyddio sylweddol o gronfeydd elusennol.
Gweithredu'n groes i orchymyn neu gyfarwyddyd a wnaed gan reoleiddiwr elusen	tystiolaeth sy'n awgrymu bod yr elusen wedi gweithredu'n groes yn fwriadol neu'n sylweddol i orchymyn neu gyfarwyddyd a wnaed gan reoleiddiwr elusen o dan bwerau statudol, gan gynnwys diarddel ymddiriedolwr elusen, gwahardd trafodiad neu weithgaredd arbennig neu roi cydsyniad ar delerau arbennig sy'n cynnwys asedau neu rwymedigaethau arwyddocaol.
Barn archwiliad addasedig neu adroddiad archwiliwr annibynnol amodol	wrth lunio barn archwiliad addasedig, pwyslais mater, ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â busnes byw, neu gyhoeddi adroddiad archwiliwr annibynnol amodol, sy'n adnabod materion o bryder y tynnir sylw atynt, hysbysiad o natur addasiad/amod/pwyslais y mater neu'r pryder gyda rhesymau ategol gan gynnwys hysbysiad o'r camau a gymeradwy, os o gwbl, gan yr ymddiriedolwyr ar ôl llunio'r farn archwiliad honno, pwyslais o fater neu ansicrwydd sylweddol a nodwyd/adroddiad yr archwiliwr annibynnol.
Gwrthdaro buddiannau a thrafodion parti cysylltiedig	tystiolaeth bod gwrthdaro buddiannau arwyddocaol heb gael eu rheoli'n briodol gan yr ymddiriedolwyr a/neu fod trafodion parti cysylltiedig heb eu datgelu'n llawn ym mhob agwedd sy'n ofynnol gan y SORP cymwys, neu'r Rheoliadau cymwys.

Mae'n rhaid i'r archwiliwr gyfeirio at y canllaw ar wahân hwn: [Materion o Arwyddocâd Perthnasol sy'n adroddadwy i reoleiddwyr elusennau'r DU](#) i gael rhagor o wybodaeth ynghylch pryd a sut y mae'n rhaid adrodd i'r rheoleiddiwr.

Dylid nodi hefyd na fydd yr holl bryderon y gallai archwiliwr ddewis eu hadrodd (gweler Cyfarwyddyd 13 a hefyd adran 6) yn arwain at ei adroddiad i'r ymddiriedolwyr yn cael ei ystyried gan y Comisiwn fel 'adroddiad amodol'. Mae'r Comisiwn o'r farn bod adroddiad archwiliwr yn adroddiad amodol dim ond os yw'r archwiliwr wedi nodi un neu ragor o bryderon sy'n ymwneud yn benodol â gwneud yr holl ddatganiadau sy'n ofynnol gan Reoliadau 2008 (gweler Cyfarwyddyd 13).

Os yw'r archwiliwr yn destun adrodd o dan reoliadau gwyngalchu arian (gweler atodiad 9) ac mae'r mater adroddadwy yn ymwneud â gwyngalchu arian neu droseddau ariannol sydd wedi'i gynnwys o fewn y Ddeddf Enillion Troseddau a/neu reoliadau gwyngalchu arian, yna er mwyn osgoi rhoi achlust mae'n rhaid i'r archwiliwr hepgor y materion hyn o adroddiad yr archwiliwr. Gall hyn olygu nad yw'r adroddiad yn bodloni'r diffiniad o adroddiad amodol (gweler Cyfarwyddyd 13).

Nid yw'r archwiliwr wedi'i gyfyngu i adrodd ar y naw mater a restrir uchod yn unig a dylai ddefnyddio ei farn ynghylch a oes angen adrodd ar unrhyw faterion eraill fel mater o arwyddocâd perthnasol ar ôl darllen y canllaw **Materion o Arwyddocâd Perthnasol adroddadwy i reoleiddwyr elusennau'r DU**. Mae atodiad 4 yn cynnwys enghreifftiau o adroddiad ar wahân i'r Comisiwn.

6. Disgresiwn yr archwiliwr i adrodd materion perthnasol i'r Comisiwn

Mae adrannau 156 a 159 o Ddeddf Elusennau 2011 yn darparu ar gyfer y disgresiwn i adrodd i'r Comisiwn os ydynt, yn ystod eu harchwiliad, yn adnabod mater sy'n ymwneud â gweithgareddau neu faterion yr elusen neu unrhyw sefydliad neu gorff cysylltiedig, ac mae achos rhesymol gan yr archwiliwr dros gredu ei fod yn debygol o fod yn berthnasol at ddibenion y Comisiwn yn arfer unrhyw un o'i swyddogaethau.

Mae disgresiwn gan yr archwiliwr i baratoi adroddiad i'r Comisiwn os daw'r archwiliwr yn ymwybodol o fater, lle mae achos rhesymol dros gredu bod y mater yn debygol o fod yn berthnasol i arfer unrhyw swyddogaethau'r Comisiwn. Mae hyn yn gymwys os yw'r archwiliad o elusen sydd heb fod yn gwmni neu elusen sy'n gwmni. Byddai'r mater yn un nad yw i'w gael o fewn y rhestr o faterion sydd o arwyddocâd perthnasol os oes dyletswydd i adrodd i'r Comisiwn (gweler adran 5) ac mae'r archwiliwr wedi barnu y dylid ei adrodd.


Gallai'r hawl hon gael ei defnyddio gan archwiliwr os yw'n credu ei fod wedi nodi mater lle mae angen i'r Comisiwn ymyrryd er mwyn ei ddatrys. Mae'n bwysig i beidio ag adrodd materion dibwys yn arbennig os yw'r ymddiriedolwyr yn ymwybodol ohonynt ac wedi gweithredu i'w datrys nawr neu yn y dyfodol. Mae hefyd yn bwysig i beidio ag adrodd materion sy'n ddibwys, heb fod yn arwyddocaol neu'n berthnasol i'r cyfrifon gan gynnwys materion o natur weinyddol sydd heb unrhyw effaith ar ddefnyddio cronfeydd neu asedau elusennol. Nid yw'r Comisiwn yn debygol o ystyried bod cymryd camau rheoleiddio wedi'u cyfiawnhau yn yr amgylchiadau hyn.

Mae'r hawl yn gyffredinol ac nid oes unrhyw reidrwydd ar yr archwiliwr i adrodd ac nid yw'r Comisiwn am osod dyletswydd lle nad oes dyletswydd. Wrth lunio barn ynghylch defnyddio'r disgresiwn hwnnw i adrodd mater perthnasol y mae angen i'r archwiliwr gofio bod y Comisiwn yn rheoleiddiwr a arweinir gan risg a chymesuredd. Mae'r Comisiwn yn gwerthfawrogi cyfraniad archwiliwr gwirfoddol ac ymddiriedolwyr gwirfoddol ac yn ceisio helpu a chefnogi ymddiriedolwyr os yw camgymeriadau neu hepgoriadau gwirioneddol yn cael eu gwneud yn hytrach na chymryd camau rheoleiddio yn eu herbyn. Felly byddem yn ymdrin ag adrodd mater perthnasol fel gweithredu rheoleiddiol dim ond os yw'r mater yn creu pryder rheoleiddiol arwyddocaol.

Dylai'r archwiliwr gyfeirio at: **Adrodd materion perthnasol i reoleiddwyr elusennau'r DU** i gael rhagor o wybodaeth ynghylch yr hyn y gallai fod yn ddefnyddiol i'w adrodd, a phryd a sut y dylent adrodd i'r rheoleiddiwr. Mae atodiad 4 yn cynnwys enghraifft o adrodd ar wahân ar gyfer mater perthnasol i'r Comisiwn.

Nid yw unrhyw bryderon a nodir yn adroddiad yr archwiliwr sydd hefyd wedi'u hadrodd ar wahân fel materion perthnasol i'r Comisiwn yn arwain at ystyried adroddiad yr archwiliwr i'r ymddiriedolwyr yn 'adroddiad amodol'. Mae amgylchiadau prin iawn sy'n achosi i adroddiad archwiliwr fod yn amodol a gweler adran 5 i gael rhagor o wybodaeth.

Atodiad 1: Siart rediad: gofynion cymhwyster elusen ar gyfer archwiliad annibynnol



Atodiad 2: Cyfrifo incwm gros

Mae'r Ddeddf Elusennau 2011 yn datgan bod cyfeiriad at incwm gros yr elusen: "yn golygu ei hincwm gros a gofnodwyd o bob ffynhonnell gan gynnwys ymddiriedolaethau arbennig". Mae'r diffiniad bras hwn yn cael ei ddehongli at ddibenion gweinyddol gan y Comisiwn wrth bennu gofynion y ffurflen flynyddol a pharatoi rheoliadau'r ffurflen flynyddol. Mae'r diffiniad gweinyddol hwn o incwm gros yn cael ei adolygu'n flynyddol wrth baratoi ar gyfer y broses ffurflen flynyddol.

Mae'r diffiniad o incwm gros ar gyfer elusen yn dibynnu ar ffurf y cyfrifon sy'n cael eu paratoi:

- a) 'Ar gyfer cyfrifon derbyniadau a thaliadau' - yr incwm gros yw'r cyfanswm derbyniadau a gofnodwyd yn y datganiad o gyfrifon ac eithrio gwaddolion, benthyciadau ac enillion o werthu buddsoddiadau neu asedau sefydlog.
- b) Ar gyfer cyfrifon croniadau - incwm gros yw'r cyfanswm incwm a ddangosir yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol wedi'i baratoi yn unol â'r SORP ar gyfer yr holl gronfeydd, ond:
 - nid yw'n cynnwys yn y cyfanswm incwm unrhyw enillion wrth ailbriso asedau sefydlog neu enillion ar fuddsoddiadau.
 - nid yw'n cynnwys unrhyw waddol a dderbyniwyd neu sydd i'w dderbyn
 - mae'n cynnwys unrhyw swm a drosglwyddwyd o gronfeydd gwaddol i gronfeydd incwm yn ystod y flwyddyn er mwyn bod ar gael i'w ddefnyddio

Diffiniad o incwm gros ar gyfer grŵp

Mae Deddf Elusennau 2011 Rheoliadau (Cyfrifon Grŵp) 2015 yn nodi'r trothwy ar gyfer y blynyddoedd ariannol yn dod i ben ar neu ar ôl 31 Mawrth 2015. Y cyfrifiad ar gyfer trothwy incwm gros ar gyfer grŵp yw:

- incwm gros y grŵp yn glir o drafodion o fewn y grŵp sy'n fwy na £1m, lle mae
- incwm gros yn golygu, mewn perthynas ag is-gwmni anelusennol, swm yr incwm a fyddai'n cael ei ystyried fel ei incwm gros pe byddai'n elusen (cyfeiriwch at y SORP cymwys am fwy o wybodaeth ynghylch yr hyn a ystyrir yn incwm ar gyfer elusen), a
- thrafodion o fewn y grŵp yw'r trafodion hynny rhwng y riant-elusen a'i his-gwmni neu rhwng yr is-gwmni a'i riant-elusen sy'n cael eu neilltuo fel rhan o'r addasiadau cydgrynhoi wrth baratoi cyfrifon grŵp.

Atodiad 3: Darn o Reoliadau 2008

Mae'r hyn sy'n dilyn yn ddarn o Reoliadau (Cyfrifon ac Adroddiadau) Elusennau 2008 cyfredol sy'n amlinellu ffurf a chynnwys adroddiad archwiliwr annibynnol. Nid yw'r Rheoliadau wedi cael eu diweddarau eto gan y Senedd ac felly dylid cymryd bod unrhyw gyfeiriad at Ddeddf 1993 yn gyfeiriad at ddarpariaethau perthnasol Deddf Elusennau 2011.

Yn ymarferol nid oes rhaid i archwiliwr annibynnol gyfeirio at y Rheoliadau gan fod y Cyfarwyddiadau a'r canllawiau yn cwmpasu'r cyfan sydd ei angen. Rhaid i archwiliwyr sydd am lunio ei adroddiadau archwiliwr annibynnol eu hunain yn hytrach na dilyn y ffurfiau a roddir yn atodiad 4 sicrhau bod eu geiriad yn cydymffurfio â'r Rheoliadau.

CHAPTER 4:

INDEPENDENT EXAMINATION OF INDIVIDUAL CHARITY ACCOUNTS

Independent examination of individual charity accounts

31. An independent examiner who has carried out an examination of the accounts of a charity under section 43 of the 1993 Act must make a report to the charity trustees which—

- (a) states his name and address and the name of the charity concerned;
- (b) is signed by him;
- (c) is dated and specifies—
 - (i) in all cases, the financial year in respect of which the accounts to which it relates have been prepared;
 - (ii) where the charity whose accounts are being examined is a company, confirms that the accounts are not required to be audited under Part 7 of the 1985 Act;
- (d) if the gross income of the charity in that year exceeds the sum specified in section 43(3A) of the 1993 Act, specifies the basis on which he qualifies to act as independent examiner in accordance with that section;
- (e) states any, or any other, relevant professional qualifications or professional body of which he is a member;
- (f) where the accounts are being examined in the circumstances specified in regulation 34(3)(b), states the date when the Commission dispensed with the requirements of section 43(2) of the 1993 Act;
- (g) specifies that it is a report in respect of an examination carried out under section 43 of the 1993 Act and in accordance with any directions given by the Commission under subsection (7)(b) of that section which are applicable;
- (h) states whether or not any matter has come to the examiner's attention in connection with the examination which gives him reasonable cause to believe that in any material respect—
 - (i) accounting records have not been kept in respect of the charity in accordance with—
 - (aa) where that charity is a company, section 221 of the 1985 Act;
 - (bb) in any other case, section 41 of the 1993 Act;
 - (ii) the accounts do not accord with those records;

(iii) in the case of an examination of a statement of accounts which has been prepared under 42(1) of the 1993 Act, the statement of accounts does not comply with any of the requirements of regulations 6, 7 or 8 as relevant other than any requirement to give a true and fair view;

(iv) in the case of the examination of the accounts prepared under Part 7 of the 1985 Act, the charity's accounts—

(aa) do not comply with the requirements of section 226A of the 1985 Act other than any requirement to give a true and fair view;

(bb) in any case where those accounts state they have been prepared in accordance with the SORP, have not in fact been prepared in accordance with the methods and principles set out in the SORP;

(i) states whether or not any matter has come to the examiner's attention in connection with the examination to which, in his opinion, attention should be drawn in the report in order to enable a proper understanding of the accounts to be reached;

(j) contains a statement as to any of the following matters that has become apparent to the examiner during the course of the examination, namely, that—

(i) there has been any material expenditure or action which appears not to be in accordance with the trusts of the charity;

(ii) any information or explanation to which he is entitled under regulation 32 has not been afforded to him;

(iii) in the case of an examination of a statement of accounts which has been prepared under section 42(1) of the 1993 Act, any information contained in the statement of accounts is inconsistent in any material respect with any report of the charity trustees prepared under section 45 of the 1993 Act in respect of the financial year in question;

(iv) in the case of an examination of accounts prepared under Part 7 of the 1985 Act, any information contained in the accounts is inconsistent in any material respect with any report of the charity trustees prepared under section 45 of the 1993 Act or the report prepared under section 234 of the 1985 Act in respect of the financial year in question.

CHAPTER 5:

EXAMINATION OF THE ACCOUNTS OF ENGLISH AND WELSH NATIONAL HEALTH SERVICE CHARITIES

Examination of the accounts of English and Welsh National Health Service Charities

32. Where a person has carried out an examination of the accounts of an English National Health Service charity under section 43A of the 1993 Act, or the Auditor General for Wales has carried out an examination of the accounts of a Welsh National Health Service charity under section 43B of that Act, that person or, as the case may be, the Auditor General for Wales must make a report to the charity trustees which—

(a) states the name of the charity concerned, and, in the case of an examination under section 43A, the name and address of the examiner;

(b) is signed by him;

(c) is dated and specifies the financial year in respect of which the accounts to which it relates have been prepared;

(d) in the case of an examination under section 43A, states any relevant professional qualifications or professional body of which he is a member;

(e) specifies that it is a report in respect of an examination carried out under section 43A, or, as the case may be, section 43B, of the 1993 Act and, in the case of an examination under section 43A, in accordance with any directions given by the Commission under subsection (5) of that section which are applicable;

(f) states whether or not any matter has come to the examiner's attention in connection with the examination which gives him reasonable cause to believe that in any material respect—

(i) accounting records have not been kept in respect of the charity in accordance with section 41 of the 1993 Act;

(ii) the accounts do not accord with those records;

(iii) in the case of an examination of a statement of accounts which has been prepared under 42(1) of the 1993 Act, the statement of accounts does not comply with any of the requirements of regulation 6, 7 or 8, as relevant, other than any requirement to give a true and fair view;

(g) states whether or not any matter has come to the examiner's or, as the case may be, the Auditor General for Wales', attention in connection with the examination to which, in his opinion, attention should be drawn in the report in order to enable a proper understanding of the accounts to be reached;

(h) contains a statement as to any of the following matters that has become apparent to the examiner or, as the case may be, the Auditor General for Wales, during the course of the examination, namely, that—

(i) there has been any material expenditure or action which appears not to be in accordance with the trusts of the charity, or

(ii) any information or explanation to which he is entitled under regulation 33 has not been afforded to him, or

(iii) in the case of an examination of accounts a statement of which has been prepared under section 42(1) of the 1993 Act, any information contained in the statement of accounts is inconsistent in any material respect with any report of the charity trustees prepared under section 45 of the 1993 Act in respect of the financial year in question.

CHAPTER 6:

MISCELLANEOUS

Audit and independent examination: supplementary provisions

33.—(1) Any person carrying out an audit or examination of the accounts of a charity under sections 43, 43A or 43B of or paragraph 6 of Schedule 5A to the 1993 Act has a right of access to any books, documents and other records (however kept) which relate to the charity concerned and which the person concerned considers it necessary to inspect for the purpose of carrying out the audit or examination.

(2) Such a person is entitled to require, in the case of the charity concerned, such information and explanations from past or present charity trustees of, or trustees for, the charity, or from past or present officers or employees of the charity, as he considers it necessary to obtain for the purposes of carrying out the audit or examination.

(3) An auditor carrying out an audit of the group accounts of a parent charity under paragraph 6 of Schedule 5A to the 1993 Act also has—

(a) a right of access to any books, documents and other records (however kept) which relate to any of the subsidiary undertakings included in group accounts and which the auditor considers it necessary to inspect for the purpose of carrying out the audit;

(b) the right to require, in the case of any such subsidiary undertaking, such information and explanations from—

(i) in the case of a subsidiary undertaking which is a charity, past or present charity trustees of, or trustees for, that charity;

(ii) in the case of any subsidiary undertaking which is not a charity from the subsidiary undertaking itself and from past or present officers or employees of that undertaking; as he considers it necessary to obtain for the purposes of carrying out the audit;

(c) the right to require the charity trustees of the parent charity to take all such steps as are reasonably open to them to obtain from any such subsidiary undertaking such information and explanations as he may reasonably require for the purposes of carrying out the audit.

(4) For the purposes of this regulation, "officer" includes any auditor or other person appointed to scrutinise the accounts of any such undertaking.

Dispensations from audit or examination requirements

34.—(1) The Commission may—

(a) in the circumstances specified in paragraph (2), dispense with the requirements of section 43(2) or (3) of the 1993 Act in the case of a particular charity;

(b) in the circumstances specified in paragraph (3) dispense with those requirements in respect of a particular financial year of a charity;

(c) in the circumstances specified in paragraph (4) dispense with the requirements in paragraph 6(4)(a) of Schedule 5A to the 1993 Act in the case of a particular charity;

(d) in the circumstances specified in paragraph (5) dispense with those requirements in respect of a particular financial year of a charity.

(2) The circumstances specified for the purposes of paragraph (1)(a) are where the Commission is satisfied that the accounts of the charity concerned—

(a) are required to be audited in accordance with any statutory provision contained in or having effect under an Act of Parliament which imposes requirements which, in the opinion of the Commission, are sufficiently similar to the requirements of section 43(2) for those requirements to be dispensed with;

(b) have been audited by the Comptroller and Auditor General or the Auditor General for Wales.

(3) The circumstances specified for the purposes of paragraph (1)(b) are where the Commission—

(a) is satisfied that the accounts of the charity concerned for the financial year in question have been, or will be, audited or examined in accordance with requirements or arrangements which, in the opinion of the Commission, are sufficiently similar to the relevant requirements of section 43 of the 1993 Act applicable to that financial year of that charity for those requirements to be dispensed with;

(b) considers that, although the financial year in question of the charity concerned is one to which section 43(2) of the 1993 Act applies, there are exceptional circumstances which justify the examination of the accounts by an independent examiner instead of their audit in accordance with that subsection.

(4) The circumstances specified for the purposes of paragraph (1)(c) are where the Commission is satisfied that the group accounts of the parent charity concerned—

(a) are required to be audited in accordance with any statutory provision contained in or having effect under an Act of Parliament which imposes requirements which, in the opinion of the Commission, are sufficiently similar to the requirements of paragraph 6(4)(a) of Schedule 5A for those requirements to be dispensed with;

(b) have been audited by the Comptroller and Auditor General or the Auditor General for Wales.

(5) The circumstances specified for the purpose of paragraph (1)(d) are where the Commission is satisfied that the group accounts of the parent charity concerned for the financial year in question have been, or will be, audited in accordance with requirements or arrangements which, in the opinion of the Commission, are sufficiently similar to the requirements of paragraph 6(4)(a) of Schedule 5A for those requirements to be dispensed with.

(6) The Commission must make it a condition of a dispensation granted under this regulation that the charity trustees send to the Commission any report made to the trustees with respect to the accounts of that charity for the relevant financial year of which it requests a copy.

(7) The Commission must make it a condition of a dispensation granted under paragraph (3)(b) that the charity trustees comply with the requirements of section 43(3) of the 1993 Act as if they were able to make and had in fact made an election under that section that the accounts of the charity for the relevant financial year be examined by an independent examiner.

(8) The Commission may revoke a dispensation granted under this regulation if the charity trustees fail to comply with a condition imposed under paragraph (6) or (7).

Atodiad 4: Enghreifftiau o adroddiadau archwiliwr annibynnol

Mae'r adroddiadau enghreifftiol hyn yn cael eu darparu i helpu archwiliwr i gynllunio eu hadroddiadau mewn ffordd sy'n cydymffurfio â Rheoliadau 2008. Mae'r enghreifftiau yn cwmpasu nifer o sefyllfaoedd y gall archwiliwr ddod ar eu traws yn eu gwaith ac mae'n cynnwys elusennau sydd hefyd wedi cofrestru â Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban (OSCR) neu'r Comisiwn Elusennau ar gyfer Gogledd Iwerddon (CCNI). Cyflwynir adroddiad yr archwiliwr i'r ymddiriedolwyr a dyma benllanw eich gwaith. Rhaid ystyried yn ofalus wrth baratoi eich adroddiad pa faterion, os oes, y mae angen eu dwyn at sylw'r ymddiriedolwyr.

Er bod adroddiad yr archwiliwr wedi'i gyflwyno i'r ymddiriedolwyr, bydd o ddiddordeb i unrhyw un sy'n darllen adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr a'r cyfrifon gan gynnwys y Comisiwn.

Os yw'r archwiliwr wedi nodi un neu ragor o bryderon wrth wneud y datganiadau sy'n ofynnol gan Reoliadau 2008 ar y cyfrifon (gweler Cyfarwyddyd 13) yna dywedir bod yr adroddiad yn 'adroddiad amodol'. Mae'n amodol oherwydd nid yw'r archwiliwr yn gallu adrodd bod pob mater sy'n ofynnol gan y rheoliadau wedi'i fodloni. Dylid nodi nad yw adroddiad diamodol yr un fath â rhoi 'tystysgrif iechyd lân' oherwydd nid yw'r archwiliwr yn dweud bod pob dim am yr elusen yn iawn ac nid yw'r archwiliwr yn adrodd ychwaith bod y cyfrifon heb gamgymeriadau neu fod y cyfrifon yn rhoi darlun 'gwir a theg'.

Sylwch ar y gofyniad, os yw incwm yr elusen yn fwy na £250,000, i'r archwiliwr gadarnhau ei gymhwyster(cymwysterau) sy'n ei alluogi i fod yn gymwys i gynnal yr archwiliad. Gweler atodiad 5 am wybodaeth bellach.

Mewn amgylchiadau eithriadol, gall y Comisiwn ganiatáu i'r ymddiriedolwyr gynnal archwiliad annibynnol yn lle archwiliad ariannol. Os mai dyma yw'r achos yna mae Rheoliadau 2008 yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r archwiliwr ddatgelu yn ei adroddiad a yw'r archwiliad yn cymryd lle archwiliad ariannol a dyddiad goddefeb y Comisiwn.

Mae dau fath o adroddiad archwiliwr, un ar gyfer elusennau nad ydynt yn gwmnïau ac un arall ar gyfer cwmnïau elusennol. Mae'r elusennau hynny a sefydlwyd o dan y Deddfau Cwmnïau yn cael eu galw'n 'gwmnïau elusennol' at ddibenion y canllaw hwn ac oherwydd y gyfraith cwmnïau mae adroddiad yr archwiliwr yn wahanol i adroddiad elusennau 'heb fod yn gwmnïau'. Mae'r rhan fwyaf o elusennau yn elusennau heb fod yn gwmnïau ac yn ymddiriedolaethau neu'n gymdeithasau anghorfforedig neu'n sefydliadau anghorfforedig elusennol. Os oes unrhyw ansicrwydd trowch at ddogfen lywodraethol yr elusen, oherwydd mae erthyglau cymdeithasu gan elusen sy'n gwmni a bydd wedi derbyn rhif cwmni gan Dŷ'r Cwmnïau.

Yr adroddiadau archwiliwr enghreifftiol yw:

- 4.1 Adroddiad diamod archwiliwr (ar gyfer elusen heb fod yn gwmni sy'n paratoi cyfrifon croniadau) gydag incwm gros o £250,000 neu lai yn y flwyddyn ariannol berthnasol (yn yr enghraifft hon nid oes rhaid i'r archwiliwr fod yn aelod o un o'r cyrff rhestredig)
- 4.2 Adroddiad diamod archwiliwr (ar gyfer elusen heb fod yn gwmni sy'n paratoi cyfrifon derbyniadau a thaliadau) gydag incwm gros o £250,000 neu lai yn y flwyddyn ariannol berthnasol (yn yr enghraifft hon nid oes rhaid i'r archwiliwr fod yn aelod o un o'r cyrff rhestredig)
- 4.3 Adroddiad diamod archwiliwr (ar gyfer elusen sy'n gwmni) - incwm gros o fwy na £250,000 (incwm gros o fwy na £250,000 felly roedd rhaid i'r archwiliwr gadarnhau ei aelodaeth o gorff rhestredig - gweler atodiad 5 am y rhestr o gyrff cymradwy ar gyfer Cymru a Lloegr).
- 4.4 Adroddiad diamod yr archwiliwr gyda mater o bryder wedi'i adrodd oherwydd methiant un-tro wrth gadw cofnodion cyfrifyddu (ar gyfer Sefydliad Corfforedig Elusennol sy'n paratoi

- cyfrifon derbyniadau a thaliadau). Ar ôl ystyried y digwyddiad nid oedd yr archwiliwr wedi canfod unrhyw ddiffygion cyffredinol wrth gadw'r cofnodion cyfrifyddu ac yn wyneb yr wybodaeth arall a roddwyd gan yr ymddiriedolwyr, y swm dan sylw a'r camau a gymerwyd gan yr ymddiriedolwyr, nid oedd y mater yn berthnasol ym marn yr archwiliwr. Barnodd yr archwiliwr nad oedd yn fater o arwyddocâd perthnasol ac felly nid oedd dyletswydd i adrodd yn uniongyrchol i'r Comisiwn, ac yn wyneb y swm bach dan sylw dewisodd yr archwiliwr i beidio ag arfer ei ddisgresiwn i adrodd y mater fel un sy'n berthnasol i waith y Comisiwn.
- 4.5 Y mater o bryder a adroddwyd gan yr archwiliwr - methu â pharatoi cyfrifon derbyniadau a thaliadau yn briodol - adroddiad amodol archwiliwr (elusen heb fod yn gwmni). Ystyrir bod adroddiad yr archwiliwr yn adroddiad amodol ac felly roedd yr archwiliwr wedi gwneud adroddiad o fater o arwyddocâd perthnasol i'r Comisiwn.
- 4.6 Mater o bryder a adroddwyd gan yr archwiliwr - adroddiad amodol (elusen heb fod yn gwmni) gydag incwm gros o £250,000 neu lai yn y flwyddyn ariannol berthnasol. Mae'n adroddiad amodol gyda mater o bryder os yw elusen heb fod yn gwmni wedi gwneud taliad arian parod dramor heb dystiolaeth bod y cronfeydd wedi cael eu gwario'n briodol. Mae'r archwiliwr wedi gwneud adroddiad o fater o arwyddocâd perthnasol i'r Comisiwn.
- 4.7 Mater o bryder a adroddwyd gan yr archwiliwr - heb gydymffurfio â'r SORP a'r Ddeddf Cwmnïau (elusen sy'n gwmni) - adroddiad archwiliwr amodol - incwm gros yn £250,000 neu lai. (Mae'r archwiliwr yn adrodd methiant i gydymffurfio fel mater o arwyddocâd perthnasol i'r Comisiwn.)
- 4.8 Adroddiad diamod yr archwiliwr ar gyfer elusen heb fod yn gwmni sy'n paratoi cyfrifon croniadau ac sydd wedi cofrestru ag OSCR hefyd (mae'r gyfraith elusennau yn yr Alban yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r archwiliwr fod yn aelod o un o'r cyrff rhestredig a gymeradwywyd yn yr Alban waeth beth fo incwm yr elusen).
- 4.9 Adroddiad diamod archwiliwr ar gyfer elusen heb fod yn gwmni sydd hefyd wedi cofrestru gydag OSCR (ar gyfer derbyniadau a thaliadau nid oes rhaid i'r archwiliwr fod yn aelod o un o'r cyrff a restrir os yw incwm gros yr elusen yn llai na £250,000).
- 4.10 Adroddiad diamod yr archwiliwr ar gyfer cwmni elusennol sydd hefyd wedi cofrestru ag OSCR (mae'r gyfraith elusennau yn yr Alban yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r archwiliwr fod yn aelod o un o'r cyrff rhestredig a gymeradwywyd yn yr Alban waeth beth fo incwm yr elusen os yw cyfrifon croniadau yn cael eu paratoi)
- 4.11 Adroddiad diamod archwiliwr ar gyfer elusen heb fod yn gwmni sy'n paratoi cyfrifon croniadau gydag incwm gros o lai na £250,000 sydd ac wedi cofrestru gyda CCNI (nid oes rhaid i'r archwiliwr fod yn aelod o un o'r cyrff rhestredig)
- 4.12 Archwiliad annibynnol diamod o grŵp elusen llai (gall fod o gymorth i archwiliwyr annibynnol atgoffa ymddiriedolwyr nad yw archwiliad annibynnol yn archwiliad ariannol fel yr esbonnir yn yr enghraifft hon).

Enghraifft 4.1: adroddiad diamod archwiliwr (ar gyfer elusen heb fod yn gwmni sy'n paratoi cyfrifon croniadau) gydag incwm gros o £250,000 neu lai yn y flwyddyn ariannol berthnasol

Adroddiad yr archwiliwr annibynnol i ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth ABZ

Adroddaf i'r ymddiriedolwyr ar fy archwiliad o gyfrifon Ymddiriedolaeth ABZ (yr Ymddiriedolaeth) am y flwyddyn a ddaeth i ben 30 Tachwedd 2017.

Cyfrifoldebau a'r sail adrodd

Fel ymddiriedolwyr elusen yr Ymddiriedolaeth rydych chi'n gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011 ('y Ddeddf').

Adroddaf mewn perthynas â'm harchwiliad o gyfrifon yr Ymddiriedolaeth a gynhaliwyd o dan adran 145 o Ddeddf 2011 ac wrth gynnal fy archwiliad dilynais y Cyfarwyddiadau cymwys a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 145(5)(b) o'r Ddeddf.

Datganiad yr archwiliwr annibynnol

Cwblheais fy archwiliad. Cadarnaf nad yw unrhyw faterion perthnasol wedi dod i'm sylw mewn perthynas â'r archwiliad sy'n rhoi achos i mi gredu mewn unrhyw agwedd berthnasol bod:

1. cofnodion cyfrifyddu heb eu cadw ar gyfer yr Ymddiriedolaeth fel sy'n ofynnol gan adran 130 o'r Ddeddf; neu
2. nid yw'r cyfrifon yn cyfateb â'r cofnodion hynny; neu
3. nid yw'r cyfrifon yn cydymffurfio â'r gofynion cymwys ynghylch ffurf a chynnwys y cyfrifon a amlinellir yn Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 heblaw unrhyw ofyniad bod y cyfrifon yn rhoi darlun 'gwir a theg' nad yw'n fater i'w ystyried fel rhan o archwiliad annibynnol.

Nid oes unrhyw bryderon gennyf ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion eraill mewn perthynas â'r archwiliad y dylid dwyn sylw atynt yn yr adroddiad hwn er mwyn sicrhau dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon.

Arwyddwyd:

Enw:

Cymhwyster proffesiynol perthnasol neu aelodaeth o gyrff proffesiynol (os o gwbl):

Cyfeiriad:

Dyddiad:

Enghraifft 4.2: adroddiad diamod archwiliwr (ar gyfer elusen heb fod yn gwmni sy'n paratoi cyfrifon derbyniadau a thaliadau) gydag incwm gros o £250,000 neu lai yn y flwyddyn ariannol berthnasol

Adroddiad yr archwiliwr annibynnol i ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth ABY

Adroddaf i'r ymddiriedolwyr ar fy archwiliad o gyfrifon Ymddiriedolaeth ABY (yr Ymddiriedolaeth) am y flwyddyn a ddaeth i ben 30 Tachwedd 2017.

Cyfrifoldebau a'r sail adrodd

Fel ymddiriedolwyr elusen yr Ymddiriedolaeth rydych chi'n gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011 ('y Ddeddf').

Adroddaf mewn perthynas â'm harchwiliad o gyfrifon yr Ymddiriedolaeth a gynhaliwyd o dan adran 145 o Ddeddf 2011 ac wrth gynnal fy archwiliad dilynais y Cyfarwyddiadau cymwys a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 145(5)(b) o'r Ddeddf.

Datganiad yr archwiliwr annibynnol

Cwblheais fy archwiliad. Cadarnaf nad yw unrhyw faterion perthnasol wedi dod i'm sylw mewn perthynas â'r archwiliad sy'n rhoi achos i mi gredu mewn unrhyw agwedd berthnasol bod:

1. cofnodion cyfrifyddu heb eu cadw ar gyfer yr Ymddiriedolaeth fel sy'n ofynnol gan adran 130 o'r Ddeddf; neu
2. nid yw'r cyfrifon yn cyfateb â'r cofnodion hynny.

Nid oes unrhyw bryderon gennyf ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion eraill mewn perthynas â'r archwiliad y dylid dwyn sylw atynt yn yr adroddiad hwn er mwyn sicrhau dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon.

Arwyddwyd:

Enw:

Cymhwyster proffesiynol perthnasol neu aelodaeth o gyrff proffesiynol (os o gwbl):

Cyfeiriad:

Dyddiad:

Enghraifft 4.3: adroddiad diamed yr archwiliwr annibynnol (ar gyfer elusen sy'n gwmni) - incwm gros o fwy na £250,000

Adroddiad yr archwiliwr annibynnol i ymddiriedolwyr Cwmni Elusennol WXY ('y Cwmni')

Adroddaf i'r ymddiriedolwyr elusen ar fy archwiliad o gyfrifon y Cwmni am y flwyddyn a ddaeth i ben 30 Tachwedd 2017.

Cyfrifoldebau a'r sail adrodd

Fel ymddiriedolwyr elusen y Cwmni (a hefyd ei gyfarwyddwyr at ddibenion y gyfraith cwmnïau) rydych chi'n gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006 ('Deddf 2006').

Ar ôl bodloni fy hun nad yw'n ofynnol i gynnal archwiliad ariannol o gyfrifon y Cwmni o dan Ran 16 o Ddeddf 2006 a'u bod yn gymwys i gael archwiliad annibynnol, adroddaf mewn perthynas â'm harchwiliad o gyfrifon eich elusen fel y cwblhawyd o dan adran 145 o Ddeddf Elusennau 2011 ('Deddf 2011'). Wrth gynnal fy archwiliad, dilynais y Cyfarwyddiadau a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 145(5)(b) o Ddeddf 2011

Datganiad yr archwiliwr annibynnol

Gan fod incwm gros y Cwmni yn fwy na £250,000 rhaid i'ch archwiliwr fod yn aelod o gorff a restrir yn adran 145 o Ddeddf 2011. Cadarnhaf fy mod yn gymwys i gynnal yr archwiliad oherwydd fy mod yn aelod o [enw corff rhestredig cymwys], sy'n un o'r cyrff a restrir.

Cwblheais fy archwiliad. Cadarnaf nad yw unrhyw faterion perthnasol wedi dod i'm sylw mewn perthynas â'r archwiliad sy'n rhoi achos i mi gredu bod:

1. cofnodion cyfrifyddu heb eu cadw ar gyfer y Cwmni fel sy'n ofynnol gan adran 386 o Ddeddf 2006; neu
2. nid yw'r cyfrifon yn cyfateb â'r cofnodion hynny; neu
3. nid yw'r cyfrifon yn cydymffurfio â gofynion cyfrifyddu adran 396 o Ddeddf 2006 heblaw unrhyw ofyniad bod y cyfrifon yn rhoi darlun 'gwir a theg' nad yw'n fater i'w ystyried fel rhan o archwiliad annibynnol; neu
4. nid yw'r cyfrifon wedi cael eu paratoi yn unol â dulliau ac egwyddorion y Datganiad o Arferion Cymeradwy ar gyfer cyfrifon ac adroddiadau gan elusennau [yn gymwys i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102)]

Nid oes unrhyw bryderon gennyf ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion eraill mewn perthynas â'r archwiliad y dylid dwyn sylw atynt yn yr adroddiad hwn er mwyn sicrhau dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon.

Arwyddwyd:

Enw:

[enw corff rhestredig cymwys]:

Cymhwyster(cymwysterau) proffesiynol perthnasol arall(eraill) neu aelodaeth o gyrff proffesiynol (os o gwbl):

Cyfeiriad:

Dyddiad:

Enghraifft 4.4: adroddiad diamod yr archwiliwr gyda mater o bryder wedi'i adrodd oherwydd methiant un-tro wrth gadw cofnodion cyfrifyddu (ar gyfer Sefydliad Corfforedig Elusennol sy'n paratoi cyfrifon derbyniadau a thaliadau)

Adroddiad yr archwiliwr annibynnol i ymddiriedolwyr Sefydliad Corfforedig Elusennol EFG. Adroddaf i'r ymddiriedolwyr elusen ar fy archwiliad o gyfrifon y SCE am y flwyddyn a ddaeth i ben 30 Ebrill 2018.

Cyfrifoldebau a'r sail adrodd

Fel ymddiriedolwyr elusen y SCE rydych chi'n gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011 ('y Ddeddf').

Adroddaf mewn perthynas â'm harchwiliad o gyfrifon y SCE a gwblhawyd o dan adran 145 o'r Ddeddf. Wrth gynnal fy archwiliad, dilynaais yr holl Gyfarwyddiadau cymwys a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 145(5)(b) o Ddeddf 2011

Datganiad yr archwiliwr annibynnol - mater o bryder wedi'i nodi

Cwblheais fy archwiliad. Cadarnaf nad yw unrhyw faterion perthnasol wedi dod i'm sylw mewn perthynas â'r archwiliad sy'n rhoi achos i mi gredu mewn unrhyw agwedd berthnasol bod:

1. cofnodion cyfrifyddu heb gael eu cadw fel sy'n ofynnol gan adran 130 o'r Ddeddf; neu
2. nid yw'r cyfrifon yn cyfateb â'r cofnodion hynny.

Wrth gynnal fy archwiliad, nodais fethiant wrth gadw cofnodion cyfrifyddu a chofnodi incwm cyfyngedig. Ar ddiwedd un gwasanaeth eglwys gwnaethpwyd apêl arbennig ar gyfer cenhadaeth i Samarkand ond cafodd yr arian ei fancio gyda'r casgliad arferol ar gyfer yr mis hwnnw ac ni chadwyd cofnod ar wahân o'r swm a dderbyniwyd at ddiben penodol y genhadaeth i Samarkand. Roedd y cyfrifon yn dangos bod y gwariant ar y genhadaeth i Samarkand wedi cael ei nodi ar wahân a'r swm oedd £2,837. Mewn ymateb roeddech chi, yr ymddiriedolwyr, wedi nodi bod yr adneuo ar gyfer y gwasanaeth hwnnw yn cofnodi £1,978 yn erbyn bancio wythnosol cyfartalog o £1,275. Cadarnhaoch chi mai methiant un-tro oedd hwn o ran dilyn y protocol sefydledig sy'n sicrhau bod apeliadau penodol yn cael eu cyfrif a'u hadneuo ar wahân a'ch bod wedi atgoffa pawb sy'n ymwneud â chasglu a chyfrif y casgliadau yn y gwasanaethau.

Cadarnhaf nad oes unrhyw faterion eraill y dylid dwyn eich sylw atynt er mwyn gallu sicrhau dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon.

Arwyddwyd:

Enw:

Cymhwyster(cymwysterau) proffesiynol perthnasol neu aelodaeth o gyrff proffesiynol (os o gwbl):

Cyfeiriad:

Dyddiad:

Enghraifft 4.5: mater o bryder a adroddwyd gan yr archwiliwr - methu â pharatoi cyfrifon derbyniadau a thaliadau yn briodol - adroddiad amodol archwiliwr (elusen heb fod yn gwmni)

Adroddiad yr archwiliwr annibynnol i ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth DEF ('yr Ymddiriedolaeth')

Adroddaf i'r ymddiriedolwyr elusen ar fy archwiliad o gyfrifon yr Ymddiriedolaeth am y flwyddyn a ddaeth i ben 30 Ebrill 2018.

Cyfrifoldebau a'r sail adrodd

Fel yr ymddiriedolwyr elusen rydych chi'n gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011 ('y Ddeddf').

Adroddaf mewn perthynas â'm harchwiliad o gyfrifon yr Ymddiriedolaeth a gwblhawyd o dan adran 145 o'r Ddeddf. Wrth gynnal fy archwiliad, dilynais yr holl Gyfarwyddiadau cymwys a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 145(5)(b) o Ddeddf 2011

Datganiad yr archwiliwr annibynnol - mater o bryder wedi'i nodi

Cwblheais fy archwiliad. Rwyf wedi nodi materion o bryder sy'n rhoi achos rhesymol i mi gredu bod:

1. bod y cofnodion cyfrifyddu heb eu cadw ar gyfer yr Ymddiriedolaeth fel sy'n ofynnol gan adran 130 o'r Ddeddf; a
2. nid yw'r cyfrifon yn cyfateb â'r cofnodion hynny.

Mae'r cyfrifon derbyniadau a thaliadau a baratowyd ar gyfer yr Ymddiriedolaeth yn dangos mai'r arian parod a dderbyniwyd yn y flwyddyn oedd £36,873, fodd bynnag nid yw unrhyw gofnodion wedi cael eu cadw i gyfateb â'r cofnod o'r rhoddion a dderbyniwyd i'r adneuron a wnaed, a chafodd y gweddillion arian parod eu cadw a heb eu hadneuron ym manc yr Ymddiriedolaeth. Yr unig gofnod ysgrifenedig a gadwyd yw llythyr yn dweud bod dyfarniad grant o £10,000 wedi'i roi. Cafodd y mwyafrif o'r gwariant ei wneud mewn arian parod o arian parod heb ei fancio a gadwyd neu drwy arian parod a dynnwyd allan drwy ddefnyddio cerdyn debyd yr elusen ond ni chadwyd llawer o dderbynebau. Ar wahân i'r anfonebau ar gyfer cyfleustodau a rhent ac offer chwarae, nid oes unrhyw gofnodion o dreuliau gwirfoddolwyr neu dreuliau eraill. Cyfanswm yr arian parod a wariwyd oedd £86,000 gyda derbynebau ar gyfer dim ond £41,732 gan adael £44,268 o daliadau heb unrhyw gofnodion ategol.

Cadarnhaf nad oes unrhyw faterion eraill y dylid dwyn eich sylw atynt er mwyn gallu sicrhau dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon.

Arwyddwyd:

Enw:

Cymhwyster(cymwysterau) proffesiynol perthnasol neu aelodaeth o gyrff proffesiynol (os o gwbl):

Cyfeiriad:

Dyddiad:

Adroddiad enghreifftiol 4.5: Yn dilyn ei archwiliad annibynnol, adroddodd yr archwiliwr fater o arwyddocâd perthnasol oherwydd bod y pryder yn ymwneud â'r datganiadau y mae'r Rheoliadau yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r archwiliwr eu gwneud yn ei adroddiad i'r ymddiriedolwyr. Mae'r archwiliwr yn darparu gwybodaeth ychwanegol i'r hynny a ddarparwyd yn adroddiad yr archwiliwr. Whitetree

White Town Lane

Archwiliad annibynnol o gyfrifon elusennau: cyfarwyddiadau a chanllawiau i archwiliwyr (CC32)

White Whitterington
Well County
WW1 3ZZ

17 Gorffennaf 2018
Annwyl Syr,

**Archwiliwr annibynnol yn adrodd am fater o arwyddocâd perthnasol ynghylch
Ymddiriedolaeth DEF, rhif elusen 1XXX905**

Adroddaf i chi yn unol ag adran 156 o Ddeddf Elusennau 2011 i'ch hysbysu am fater y credaf sydd o arwyddocâd perthnasol i chi wrth arfer eich swyddogaethau o dan adrannau 46, 47 a 50 o Ddeddf Elusennau 2011. Mae'r mater yn ymwneud â methu â chadw cofnodion cyfrifyddu a achosodd i'm hadroddiad ar y cyfrifon i fod yn adroddiad amodol oherwydd bod fy mhryder yn ymwneud â mater a gwmpasir gan y datganiadau y mae'r Rheoliadau yn ei gwneud hi'n ofynnol i mi adrodd arnynt.

Wrth gynnal archwiliad annibynnol o Ymddiriedolaeth DEF sylwais nad oedd yr ymddiriedolwyr wedi cadw cofnodion digonol i gefnogi £44,268 o daliadau a wnaed yn y flwyddyn. Mae'r elusen wedi tyfu'n gyflym iawn gyda grant wedi'i roi yn y flwyddyn flaenorol gan ddarparu cronfeydd i gefnogi ehangiad mawr yn y gweithgareddau i blant. Esboniodd yr ymddiriedolwyr nad oeddent wedi sylweddoli'r gwaith ychwanegol oedd ei angen ac wrth rithro i recriwtio gwirfoddolwyr ychwanegol nid oeddent wedi rhoi prosesau cadw llyfrau yn eu lle i sicrhau bod arian yn cael ei fancio'n brydlon a bod gwirfoddolwyr yn arwyddo llyfr derbynebion ar gyfer eu ffurflenni hawlio treuliau. Mae'r elusen hefyd yn darparu tegantau, te a lluniaeth, cinio i'r plant, ac yn prynu anrhegion a theisennau i'r plant, y cyfan yn cael eu talu gydag arian parod. Hefyd ad-dalwyd gwirfoddolwyr mewn arian parod am dreuliau parod a thalwyd costau teithio a ffioedd gweinyddol ar gyfer sawl taith dydd dan arolygydd i'r plant mewn arian parod hefyd. Cefais fy sicrhau fod o leiaf un o'r ymddiriedolwyr wrth law bob amser pan gafodd arian ei dderbyn neu ei wario a'i fod wedi goruchwyllo'r holl daliadau a wnaed. Nid yw'r ymddiriedolwyr nag aelodau o'u teulu wedi elwa mewn unrhyw ffordd o gronfeydd yr elusen neu wedi derbyn unrhyw dreuliau.

Roedd anhawster pellach wedi codi oherwydd roedd y trysorydd gwirfoddol wedi bod yn sâl am ran helaeth o'r flwyddyn felly nid oedd y drefn o gael derbynebion a defnyddio sieciau wedi cael ei chynnal a thalwyd mewn arian parod er cyfleuster. Cefais gydweithrediad llawn wrth gynnal fy archwiliad ac roedd yr amgylchiadau a'r wybodaeth a roddwyd i mi wedi rhoi atebion llawn i bob un o'r cwestiynau, ac er nad yw'n ofynnol i mi chwilio am dwyll, ni welais unrhyw dystiolaeth oedd wedi fy arwain at gredu bod twyll wedi digwydd, felly adroddaf hwn fel mater perthnasol yn hytrach na mater o arwyddocâd perthnasol i chi.

Deallaf fod yr ymddiriedolwyr yn cydnabod y bu diffyg mawr yn y cofnodion a gedwir ac erbyn hyn maent wedi hurio llyfrifwr a rhoi rheolaethau priodol yn eu lle drwy fabwysiadu canllawiau'r Comisiwn Elusennau [Rheolaethau ariannol mewnol i elusennau \(CC8\)](#).

Ar ôl cwblhau fy archwiliad o'r cyfrifon, nodais hwn fel mater o bryder yn adroddiad amodol yr archwiliwr annibynnol gan nodi bod cofnodion cyfrifyddu digonol cyflawn heb gael eu cadw.

Yn gywir,

Mr A Doubt

Enghraifft 4.6: mater o bryder a adroddwyd gan yr archwiliwr - adroddiad amodol (elusen heb fod yn gwmni) gydag incwm gros o £250,000 neu lai yn y flwyddyn ariannol berthnasol.

Adroddiad yr archwiliwr annibynnol i ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth ABC ('yr Ymddiriedolaeth')

Adroddaf i ymddiriedolwyr elusen yr Ymddiriedolaeth ar fy archwiliad o gyfrifon yr Ymddiriedolaeth am y flwyddyn a ddaeth i ben 30 Ebrill 2018.

Cyfrifoldebau a'r sail adrodd

Fel ymddiriedolwyr yr Ymddiriedolaeth rydych chi'n gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011 ('y Ddeddf').

Adroddaf mewn perthynas â'm harchwiliad o gyfrifon yr Ymddiriedolaeth a gwblhawyd o dan adran 145 o'r Ddeddf. Wrth gynnal fy archwiliad, dilynais yr holl Gyfarwyddiadau cymwys a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 145(5)(b) o Ddeddf 2011

Datganiad yr archwiliwr annibynnol - mater o bryder wedi'i nodi

Cwblheais fy archwiliad. Rwyf wedi nodi mater o bryder yn fy adroddiad oherwydd mae gennyf bryderon bod gwariant neu weithredu perthnasol wedi digwydd sydd i'w weld yn groes i ymddiriedolaethau'r Ymddiriedolaeth a'r cyfyngiadau a roddir ar y defnydd o gronfeydd cyfyngedig.

Mae'r cyfrifon yn datgelu taliad o grant cyfyngedig perthnasol o £75,000 i'r sefydliad partner XXX sy'n gweithredu yng ngwlad X. Esboniodd yr ymddiriedolwyr fod ymddiriedolwr wedi mynd ag arian drosodd mewn doleri UD mewn siwtces a rhoi'r arian i gynrychiolydd y sefydliad partner XXX. Fodd bynnag, nid oeddech chi fel yr ymddiriedolwyr yn gallu esbonio sut y cafodd yr arian ei ddefnyddio ac nid oeddech yn gallu darparu tystiolaeth ar ffurf derbynneb neu lythyr cydnabod gan y sefydliad partner XXX. Roedd pryder y byddai'n rhaid ad-dalu'r grant o bosib oherwydd y diffyg tystiolaeth oedd ar gael i hysbysu'r rhoddwr o'r defnydd ohono.

Cadarnaf nad yw unrhyw faterion eraill wedi dod i'm sylw sy'n rhoi achos i mi gredu mewn unrhyw agwedd berthnasol bod:

1. cofnodion cyfrifyddu heb eu cadw ar gyfer yr Ymddiriedolaeth fel sy'n ofynnol gan adran 130 o'r Ddeddf; neu
2. nid yw'r cyfrifon yn cyfateb â'r cofnodion hynny; neu
3. nid yw'r cyfrifon yn cydymffurfio â'r gofynion cymwys ynghylch ffurf a chynnwys y cyfrifon a amlinellir yn Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 heblaw unrhyw ofyniad bod y cyfrifon yn rhoi darlun 'gwir a theg' nad yw'n fater i'w ystyried fel rhan o archwiliad annibynnol.

Cadarnhaf nad oes unrhyw faterion eraill y dylid dwyn eich sylw atynt er mwyn gallu sicrhau dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon.

Arwyddwyd:

Enw:

Cymhwyster(cymwysterau) proffesiynol perthnasol neu aelodaeth o gyrrff proffesiynol (os o gwbl):

Cyfeiriad:

Dyddiad:

Enghraifft 4.6 Wrth ymgymryd â'r archwiliad o 'Ymddiriedolaeth ABC' mae'r archwiliwr wedi nodi materion roedd wedi adrodd ar wahân ac yn syth i'r Comisiwn amdanynt fel materion o

Archwiliad annibynnol o gyfrifon elusennau: cyfarwyddiadau a chanllawiau i archwilwyr (CC32)

arwyddocâd perthnasol. Mae'r adroddiad enghreifftiol o faterion o arwyddocâd perthnasol yn darparu gwybodaeth ychwanegol sy'n ymwneud â'r adroddiad archwiliwr enghreifftiol.

Whitetree
White Town Lane
White Whitterington
Well County
WW1 3ZZ

17 Gorffennaf 2018

Annwyl Syr,

Archwiliwr annibynnol yn adrodd am fater o arwyddocâd perthnasol ynghylch Ymddiriedolaeth ABC, rhif elusen 1XXX700

Adroddaf i chi yn unol ag adran 156 o Ddeddf Elusennau 2011 i'ch hysbysu am fater y credaf sydd o arwyddocâd perthnasol i chi wrth arfer eich swyddogaethau o dan adrannau 46, 47 a 50 o Ddeddf Elusennau 2011. Mae'r mater yn ymwneud â methiant rheolaethau mewnol sydd wedi arwain at roi cronfeydd elusennol sylweddol mewn risg sylweddol.

Roedd incwm Ymddiriedolaeth ABC ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 30 Ebrill 2012 yn £242,876 ac yn cynnwys grant cyfyngedig a roddwyd gan Ymddiriedolaeth Rhoddwr AB o £75,000 i gyllido prosiect arfaethedig yng ngwlad X i leddfu tlodi. Yn ystod fy archwiliad daeth i'r amlwg fod Mr CD, ymddiriedolwr yr elusen, wedi teithio i wlad X 10 gwaith gan fynd â'r arian yma gydag ef ar ffurf doleri UD mewn siwtces, a roddodd yr arian yma i Mr TZ o'r sefydliad partner XXX. Nid oes gan Mr CD na'r ymddiriedolwyr eraill unrhyw dderbynneb gan Mr TZ ac nid ydw wedi ffeilio adroddiadau neu dystiolaeth arall ynghylch sut y cafodd yr arian ei ddefnyddio.

Rydych chi yr ymddiriedolwyr yn parhau â phob ffydd yn Mr TZ gan ddweud eich bod wedi ei adnabod am o leiaf blwyddyn ac yn credu bod y cyfleusterau sy'n cael eu rhedeg gan sefydliad partner XXX yn cynnig budd mawr i'r wlad dlawd X. Yn dilyn fy archwiliad rydych wedi gofyn i Mr TZ baratoi adroddiadau maes ond cawsoch wybod nad yw ar gael gan ei fod wedi teithio i'r wlad gyfagos Y ac mae'r dyddiad y bydd yn dychwelyd yn ansicr. Mae pryder y gall Ymddiriedolaeth AB ofyn i'r arian yma gael ei ddychwelyd oherwydd nid oes cofnodion digonol gan yr elusen i ddangos sut y cafodd yr arian ei wario.

Ar ôl cwblhau fy archwiliad o'r cyfrifon nodais fater o bryder yn fy adroddiad amodol yr archwiliwr annibynnol yn wyneb y materion hyn.

Yn gywir,

Mr A Doubt

Enghraifft 4.7: mater o bryder a adroddwyd gan yr archwiliwr - heb gydymffurfio â'r SORP a'r Ddeddf Cwmnïau (elusen sy'n gwmni) - adroddiad archwiliwr amodol - incwm gros yn £250,000 neu lai.

Adroddiad yr archwiliwr annibynnol i ymddiriedolwyr 'Cwmni Elusennau WXY ('y Cwmni')

Adroddaf i'r ymddiriedolwyr elusen ar fy archwiliad o gyfrifon y Cwmni am y flwyddyn a ddaeth i ben 30 Ebrill 2018.

Cyfrifoldebau a'r sail adrodd

Fel ymddiriedolwyr elusen y Cwmni (a'i gyfarwyddwyr at ddibenion y gyfraith cwmnïau) rydych chi'n gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006 ('Deddf 2006').

Ar ôl bodloni fy hun nad yw'n ofynnol i gynnal archwiliad ariannol o gyfrifon y Cwmni o dan Ran 16 o Ddeddf 2006 a'u bod yn gymwys i gael archwiliad annibynnol, adroddaf mewn perthynas â'm harchwiliad o gyfrifon y Cwmni a gwblhawyd o dan adran 145 o Ddeddf Elusennau 2011 ('Deddf 2011'). Wrth gynnal fy archwiliad, dilynais y Cyfarwyddiadau a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 145(5)(b) o Ddeddf 2011

Datganiad yr archwiliwr annibynnol - mater o bryder wedi'i nodi

Cwblheais fy archwiliad. Rwyf wedi nodi materion o bryder sy'n rhoi achos rhesymol i mi gredu bod y cyfrifon a baratowyd ar gyfer y Cwmni heb gydymffurfio'n llawn â gofynion cyfrifyddu adran 396 o Ddeddf 2006 a'u bod heb eu paratoi'n llawn yn unol â dulliau ag egwyddorion y Datganiad o Arferion Cymeradwyo ar gyfer cyfrifon ac adroddiadau gan elusennau. Yn lle Datganiad o Weithgareddau Ariannol sy'n cynnwys cyfrif incwm a gwariant, dim ond cyfrif elw a cholled sydd wedi cael ei baratoi. Nid yw'r cronfeydd wedi'u dadansoddi rhwng cronfeydd anghyfyngedig a chyfyngedig yn y cyfrif elw a cholled na'r fantolen, eto i gyd mae swm y cronfeydd cyfyngedig a ddelir wedi'i nodi yn y nodiadau ar y cyfrifon ac yn ymwneud â chasgliad cyhoeddus gyda gweddill o £x yn aros ar ddiwedd y flwyddyn.

Cadarnaf nad yw unrhyw faterion eraill wedi dod i'm sylw mewn perthynas â'r archwiliad sy'n rhoi achos rhesymol i mi gredu mewn unrhyw agwedd berthnasol bod:

1. cofnodion cyfrifyddu heb eu cadw ar gyfer y Cwmni fel sy'n ofynnol gan adran 386 o Ddeddf 2006; neu
2. nid yw'r cyfrifon yn cyfateb â'r cofnodion hynny; neu
3. ac eithrio'r mater o bryder a nodir uchod, nid yw'r cyfrifon yn cydymffurfio â gofynion cyfrifyddu adran 396 o Ddeddf 2006 heblaw unrhyw ofyniad bod y cyfrifon yn rhoi darlun 'gwir a theg' nad yw'n fater i'w ystyried fel rhan o archwiliad annibynnol; a
4. ac eithrio am y mater o bryder a nodir uchod, nid yw'r cyfrifon wedi cael eu paratoi yn unol â dulliau ac egwyddorion y Datganiad o Arferion Cymeradwyo ar gyfer cyfrifon ac adroddiadau gan elusennau [yn gymwys i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102)]

Cadarnhaf nad oes unrhyw faterion eraill y dylid dwyn eich sylw atynt er mwyn gallu sicrhau dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon.

Arwyddwyd:

Enw:

Cymhwyster(cymwysterau) proffesiynol perthnasol neu aelodaeth o gyrff proffesiynol (os o gwbl):

Cyfeiriad:

Archwiliad annibynnol o gyfrifon elusennau: cyfarwyddiadau a chanllawiau i archwiliwyr (CC32)

Dyddiad:

Enghraifft 4.7 Wrth ymgymryd â'r archwiliad o 'Gwmni Elusennol WXY' mae'r archwiliwr wedi nodi materion roeddent wedi adrodd ar wahân ac yn syth i'r Comisiwn amdanynt fel materion o arwyddocâd perthnasol. Mae'r adroddiad enghreifftiol o faterion o arwyddocâd perthnasol yn darparu gwybodaeth ychwanegol sy'n ymwneud â'r adroddiad archwiliwr enghreifftiol.

Whitetree
White Town Lane
White Whitterington
Well County
WW1 3ZZ

17 Gorffennaf 2018

Annwyl Syr,

Archwiliwr annibynnol yn adrodd am fater o arwyddocâd perthnasol ynghylch Cwmni Elusennau WXY, rhif elusen 1XXX780

Adroddaf i chi yn unol ag adran 156 o Ddeddf Elusennau 2011 i'ch hysbysu am fater y credaf sydd o arwyddocâd perthnasol i chi wrth arfer eich swyddogaethau o dan adrannau 46, 47 a 50 o Ddeddf Elusennau 2011. Mae'r mater yn ymwneud â methiant ar ran y cyfarwyddwyr i baratoi eu cyfrifon yn unol â'r Datganiad o Arferion Cymeradwy (SORP) cymwys.

Er i mi hysbysu cyfarwyddwyr bod rhaid i'r elusen ddilyn y SORP wrth baratoi cyfrifon ar sail croniadau, nid ydynt yn barod i ddwyn y gost o ail-lunio cyfrifon yr elusen.

Oherwydd bod y cyfarwyddwyr heb ddilyn y SORP, nid oedd y cyfrifon wedi gwahaniaethu rhwng y cronfeydd cyfyngedig perthnasol ar wahân i'r cronfeydd anghyfyngedig, a'm mhryder yw y gall y cyfarwyddwyr wario cronfeydd cyfyngedig wedi hynny ar gam gan arwain at dor-ymdiriedaeth.

Ar ôl cwblhau fy archwiliad o'r cyfrifon nodais y materion o bryder hyn yn fy adroddiad archwiliwr annibynnol i'r ymddiriedolwyr.

Yn gywir,

Mr A Doubt

Enghraifft 4.8: adroddiad diamod archwiliwr ar gyfer elusen heb fod yn gwmni sy'n paratoi cyfrifon cronadau ac sydd hefyd wedi cofrestru gydag OSCR

Adroddiad yr archwiliwr annibynnol i ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth ABE ('yr Ymddiriedolaeth')

Adroddaf i'r ymddiriedolwyr elusen ar fy archwiliad o gyfrifon yr Ymddiriedolaeth am y flwyddyn a ddaeth i ben 30 Ebrill 2018.

Cyfrifoldebau a'r sail adrodd

Fel ymddiriedolwyr yr Ymddiriedolaeth rydych chi'n gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Elusennau a Buddsoddiadau Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005 ('Deddf 2005'), Rheoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban) 2006 (fel y'i diwygiwyd) a Deddf Elusennau 2011 ('Deddf 2001'). Rydych yn fodlon nad yw'r gyfraith elusennau yn ei gwneud hi'n ofynnol i'ch elusen gael archwiliad ariannol a bod yr elusen wedi dewis cael archwiliad annibynnol yn lle hynny.

Adroddaf mewn perthynas â'm harchwiliad o gyfrifon yr Ymddiriedolaeth fel y cwblhawyd o dan adran 44 (1) (c) o Ddeddf 2005 ac adran 145 o Ddeddf 2011. Wrth gynnal fy archwiliad, dilynais ofynion Rheoliad 11 o Reoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban) 2006 (fel y'i diwygiwyd) a'r Cyfarwyddiadau cymwys a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 145(5)(b) o Ddeddf 2011.

Datganiad yr archwiliwr annibynnol

Gan fod yr Ymddiriedolaeth wedi paratoi ei chyfrifon ar sail cronadau ac mae hefyd wedi'i chofrestru yn yr Alban, mae'n rhaid i'ch archwiliwr fod yn aelod o gorff a restrir yn Rheoliad 11(2) o Reoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban) 2006 (fel y'i diwygiwyd). Gallaf gadarnhau fy mod yn gymwys i gynnal yr archwiliad oherwydd rwyf yn aelod cofrestredig o [enw corff] sy'n un o'r cyrff rhestredig.

Cwblheais fy archwiliad. Cadarnaf nad yw unrhyw faterion eraill wedi dod i'm sylw sy'n rhoi achos i mi gredu mewn unrhyw agwedd berthnasol:

1. ni chafodd cofnodion cyfrifyddu eu cadw mewn perthynas â'r Ymddiriedolaeth fel sy'n ofynnol gan adran 44 (1) (a) o Ddeddf 2005 a Rheoliad 4 o Reoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban) 2006 (fel y'i diwygiwyd) ac adran 130 o Ddeddf 2011; neu
2. nid yw'r cyfrifon yn cyfateb â'r cofnodion hynny; neu
3. nid yw'r cyfrifon yn cydymffurfio â gofynion cyfrifyddu Rheoliad 8 o Reoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban) 2006 (fel y'i diwygiwyd) ac nid ydynt yn cydymffurfio â gofynion cymwys ynghylch ffurf a chynnwys y cyfrifon a amlinellir yn Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 heblaw unrhyw ofyniad bod y cyfrifon yn rhoi darlun 'gwir a theg' nad yw'n fater i'w ystyried fel rhan o archwiliad annibynnol.

Nid oes unrhyw bryderon gennyf ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion eraill mewn perthynas â'r archwiliad y dylid dwyn sylw atynt yn yr adroddiad hwn er mwyn sicrhau dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon.

Arwyddwyd:

Enw:

[enw corff rhestredig cymwys]:

Cymhwyster(cymwysterau) proffesiynol perthnasol arall(eraill) neu aelodaeth o gyrff proffesiynol (os o gwbl):

Cyfeiriad:

Dyddiad:

Archwiliad annibynnol o gyfrifon elusennau: cyfarwyddiadau a chanllawiau i archwiliwyr (CC32)

Enghraifft 4.9: adroddiad diamad archwiliwr ar gyfer elusen heb fod yn gwmni sy'n paratoi cyfrifon derbyniadau a thaliadau ac sydd hefyd wedi cofrestru gydag OSCAR (ar gyfer derbyniadau a thaliadau nid oes rhaid i'r archwiliwr fod yn aelod o un o'r cyrff rhestredig os yw incwm gros yr elusen yn llai na £250,000).

Adroddiad yr archwiliwr annibynnol i ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth ABL ('yr Ymddiriedolaeth')

Adroddaf i'r ymddiriedolwyr elusen ar fy archwiliad o gyfrifon yr Ymddiriedolaeth am y flwyddyn a ddaeth i ben 30 Ebrill 2018.

Cyfrifoldebau a'r sail adrodd

Fel ymddiriedolwyr yr Ymddiriedolaeth rydych chi'n gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Elusennau a Buddsoddiadau Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005 ('Deddf 2005'), Rheoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban) 2006 (fel y'i diwygiwyd) a Deddf Elusennau 2011 ('Deddf 2001'). Rydych yn fodlon nad yw'r gyfraith elusennau yn ei gwneud hi'n ofynnol i'ch elusen gael archwiliad ariannol a bod yr elusen wedi dewis cael archwiliad annibynnol yn lle hynny.

Adroddaf mewn perthynas â'm harchwiliad o gyfrifon yr Ymddiriedolaeth fel y cwblhawyd o dan adran 44 (1) (c) o Ddeddf 2005 ac adran 145 o Ddeddf 2011. Wrth gynnal fy archwiliad, dilynais ofynion Rheoliad 11 o Reoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban) 2006 (fel y'i diwygiwyd) a'r Cyfarwyddiadau cymwys a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 145(5)(b) o Ddeddf 2011.

Datganiad yr archwiliwr annibynnol

Cwblheais fy archwiliad. Cadarnaf nad yw unrhyw faterion eraill wedi dod i'm sylw sy'n rhoi achos i mi gredu mewn unrhyw agwedd berthnasol:

1. ni chafodd cofnodion cyfrifyddu eu cadw fel sy'n ofynnol gan adran 44 (1) (a) o Ddeddf 2005 a Rheoliad 4 o Reoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban) 2006 (fel y'i diwygiwyd) ac adran 130 o Ddeddf 2011; neu
2. nid yw'r cyfrifon yn cyfateb â'r cofnodion hynny; a
3. nid yw'r cyfrifon yn cydymffurfio â gofynion cyfrifyddu Rheoliad 8 o Reoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban) 2006 (fel y'i diwygiwyd).

Nid oes unrhyw bryderon gennyf ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion eraill mewn perthynas â'r archwiliad y dylid dwyn sylw atynt yn yr adroddiad hwn er mwyn sicrhau dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon.

Arwyddwyd:

Enw:

Cymhwyster(cymwysterau) proffesiynol perthnasol neu aelodaeth o gyrff proffesiynol (os o gwbl):

Cyfeiriad:

Dyddiad:

Enghraifft 4.10: adroddiad diamod yr archwiliwr ar gyfer cwmni elusennol sydd hefyd wedi cofrestru ag OSCR (mae'r gyfraith elusennau yn yr Alban yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r archwiliwr fod yn aelod o un o'r cyrff rhestredig a gymeradwywyd yn yr Alban waeth beth fo incwm yr elusen os yw cyfrifon croniadau yn cael eu paratoi)

Adroddiad yr archwiliwr annibynnol i ymddiriedolwyr 'Cwmni Elusennol WXZ ('y Cwmni')

Adroddaf i'r ymddiriedolwyr elusen ar fy archwiliad o gyfrifon y Cwmni am y flwyddyn a ddaeth i ben 30 Ebrill 2018.

Cyfrifoldebau a'r sail adrodd

Fel ymddiriedolwyr y Cwmni (a hefyd ei gyfarwyddwyr at ddiben y gyfraith cwmni) rydych chi'n gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Elusennau a Buddsoddiadau Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005 ('Deddf 2005'), Rheoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban) 2006 (fel y'i diwygiwyd) a Deddf Cwmnïau 2006 ('Deddf 2006'). Rydych yn fodlon nad yw'r gyfraith elusennau neu'r gyfraith cwmnïau yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cwmni gael archwiliad ariannol ac rydych wedi dewis cael archwiliad annibynnol yn lle hynny.

Ar ôl bodloni fy hun nad yw'n ofynnol i gynnal archwiliad ariannol o gyfrifon y Cwmni o dan Ran 16 o Ddeddf 2006 a'u bod yn gymwys i gael archwiliad annibynnol, adroddaf mewn perthynas â'm harchwiliad o gyfrifon y Cwmni a gwblhawyd o dan adran 44 (1) (c) o Ddeddf 2006 ac adran 145 o Ddeddf Elusennau 2011 ('Deddf 2011'). Wrth gynnal fy archwiliad, dilynais ofynion Rheoliad 11 o Reoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban) 2006 (fel y'i diwygiwyd) a'r Cyfarwyddiadau a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 145(5)(b) o Ddeddf 2011

Datganiad yr archwiliwr annibynnol

Gan ei bod hi'n ofynnol yn ôl y gyfraith cwmnïau i'r Cwmni baratoi ei chyfrifon ar sail croniadau ac mae wedi'i chofrestru fel elusen yn yr Alban, mae'n rhaid i'ch archwiliwr fod yn aelod o'r corff a restrir yn Rheoliad 11(2) o Reoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban) 2006 (fel y'i diwygiwyd). Gallaf gadarnhau fy mod yn gymwys i gynnal yr archwiliad oherwydd rwyf yn aelod cofrestredig o [enw corff] sy'n un o'r cyrff rhestredig.

Cwblheais fy archwiliad. Cadarnaf nad yw unrhyw faterion wedi dod i'm sylw mewn perthynas â'r archwiliad sy'n rhoi achos i mi gredu mewn unrhyw agwedd berthnasol:

1. nid yw cofnodion cyfrifyddu wedi cael eu cadw fel sy'n ofynnol gan adran 386 o Ddeddf 2006 a Rheoliad 4 o Reoliadau Cyfrifon 2006; neu
2. nid yw'r cyfrifon yn cydymffurfio â'r cofnodion hynny a gyda gofynion cyfrifyddu Rheoliad 8 o Reoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban) 2006; neu
3. nid yw'r cyfrifon yn cydymffurfio â gofynion cyfrifyddu adran 396 o Ddeddf 2006 heblaw unrhyw ofyniad bod y cyfrifon yn rhoi darlun 'gwir a theg' nad yw'n fater i'w ystyried fel rhan o archwiliad annibynnol; neu
4. nid yw'r cyfrifon wedi cael eu paratoi yn unol â dulliau ac egwyddorion y Datganiad o Arferion Cymeradwy ar gyfer cyfrifon ac adroddiadau gan elusennau [yn gymwys i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102)]

Nid oes unrhyw bryderon gennyf ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion eraill mewn perthynas â'r archwiliad y dylid dwyn sylw atynt yn yr adroddiad hwn er mwyn sicrhau dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon.

Arwyddwyd:

Enw:

Archwiliad annibynnol o gyfrifon elusennau: cyfarwyddiadau a chanllawiau i archwiliwyr (CC32)

[enw corf rhestredig cymwys]:

Cymhwyster(cymwysterau) proffesiynol perthnasol arall(eraill) neu aelodaeth o gyrff proffesiynol (os o gwbl):

Cyfeiriad:

Dyddiad:

Enghraifft 4.11: adroddiad diamod yr archwiliwr ar gyfer elusen heb fod yn gwmni sy'n paratoi cyfrifon cronïadau gydag incwm o lai na £250,000 ac sydd wedi cofrestru gyda CCNI

Adroddiad yr archwiliwr annibynnol i ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth ABP ('yr Ymddiriedolaeth')

Adroddaf i'r ymddiriedolwyr elusen ar fy archwiliad o gyfrifon yr Ymddiriedolaeth am y flwyddyn a ddaeth i ben 30 Ebrill 2018.

Cyfrifoldebau a'r sail adrodd

Fel ymddiriedolwyr yr Ymddiriedolaeth rydych chi'n gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Elusennau (Gogledd Iwerddon) 2008 ('Deddf 2008') a Deddf Elusennau 2011 ('Deddf 2011'). Rydych yn fodlon nad yw'r gyfraith elusennau neu'r gyfraith cwmnïau yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth gael archwiliad ariannol ac rydych wedi dewis cael archwiliad annibynnol yn lle hynny.

Adroddaf mewn perthynas â'm harchwiliad o gyfrifon yr Ymddiriedolaeth fel y cwblhawyd o dan adran 65 o Ddeddf 2008 ac adran 145 o Ddeddf 2011. Wrth gynnal fy archwiliad dilynais y Cyfarwyddiadau cyffredinol a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau ar gyfer Gogledd Iwerddon o dan adran 65(9)(b) o Ddeddf 2008 a'r Cyfarwyddiadau a roddwyd gan Gomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr o dan adran 145(5)(b) o Ddeddf 2011.

Datganiad yr archwiliwr annibynnol

Cwblheais fy archwiliad. Cadarnaf nad yw unrhyw faterion wedi dod i'm sylw mewn perthynas â'r archwiliad sy'n rhoi achos i mi gredu mewn unrhyw agwedd berthnasol:

1. nid yw cofnodion cyfrifyddu wedi cael eu cadw fel sy'n ofynnol gan adran 63 o Ddeddf 2006 ac adran 130 o Ddeddf 2011; neu
2. nid yw'r cyfrifon yn cyfateb â'r cofnodion hynny; neu
3. nid yw'r cyfrifon yn cydymffurfio â gofynion cyfrifyddu Deddf 2008 a Deddf 2011; neu
4. nid yw'r cyfrifon yn cydymffurfio â'r gofynion cymwys ynghylch ffurf a chynnwys y cyfrifon a amlinellir yn Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 heblaw unrhyw ofyniad bod y cyfrifon yn rhoi darlun 'gwir a theg' nad yw'n fater i'w ystyried fel rhan o archwiliad annibynnol.

Cadarnhaf nad oes unrhyw faterion eraill y dylid dwyn eich sylw atynt er mwyn gallu sicrhau dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon.

Arwyddwyd:

Enw:

Cymhwyster(cymwysterau) proffesiynol perthnasol neu aelodaeth o gyrff proffesiynol (os o gwbl):

Cyfeiriad:

Dyddiad:

Enghraifft 4.12: adroddiad diamod yr archwiliwr (ar gyfer grŵp elusen bach heb fod yn gwmni)

Adroddiad yr archwiliwr annibynnol i ymddiriedolwyr Grŵp ABZ ('y Grŵp')

Adroddaf i'r ymddiriedolwyr elusen ar fy archwiliad o gyfrifon cyfunol y Grŵp sy'n cynnwys Ymddiriedolaeth ABZ ('yr Ymddiriedolaeth') a'i is-gwmnïau am y flwyddyn a ddaeth i ben 30 Ebrill 2018.

Cyfrifoldebau a'r sail adrodd

Fel ymddiriedolwyr yr Ymddiriedolaeth rydych chi'n gyfrifol am baratoi cyfrifon cyfunol y Grŵp yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011 ('y Ddeddf') ac rydych wedi dewis paratoi cyfrifon cyfunol ar gyfer y Grŵp. Rydych yn fodlon nad yw'r gyfraith elusennau yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyfrifon yr Ymddiriedolaeth a'r Grŵp gael archwiliad ariannol ac rydych wedi dewis cael archwiliad annibynnol yn lle hynny.

Adroddaf mewn perthynas â'm harchwiliad o'r cyfrifon cyfunol. Cwblheais fy archwiliad o dan adran 145 o Ddeddf 2011. Wrth gynnal fy archwiliad, dilynais y Cyfarwyddiadau cyffredinol a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 145(5)(b) o Ddeddf 2011

Nid yw archwiliad annibynnol yn cynnwys dwyn ynghyd yr holl dystiolaeth a fyddai'n ofynnol mewn archwiliad ariannol, ac o ganlyniad nid yw'n cwmpasu'r holl faterion y bydd archwiliwr ariannol yn eu hystyried wrth roi ei farn ar y cyfrifon. Mae cynllunio a chynnal archwiliad ariannol yn mynd y tu hwnt i'r sicrwydd cyfyngedig y gall archwiliwr annibynnol ei roi. O ganlyniad, ni ddatganaf unrhyw farn ynghylch a yw'r cyfrifon cyfunol yn rhoi darlun 'gwir a theg' ac mae fy adroddiad wedi'i gyfyngu i'r materion penodol hynny a nodir yn natganiad yr archwiliwr annibynnol.

Datganiad yr archwiliwr annibynnol

Gan fod incwm gros yr Ymddiriedolaeth yn fwy na £250,000 rhaid i'ch archwiliwr fod yn aelod o gorff a restrir yn adran 145 o Ddeddf 2011. Cadarnhaf fy mod yn gymwys i gynnal yr archwiliad oherwydd fy mod yn aelod o [enw corff rhestredig cymwys], sy'n un o'r cyrff a restrir.

Cwblheais fy archwiliad. Cadarnaf nad yw unrhyw faterion perthnasol wedi dod i'm sylw mewn perthynas â'r archwiliad sy'n rhoi achos i mi gredu bod:

1. cofnodion cyfrifyddu mewn perthynas â'r Ymddiriedolaeth heb gael eu cadw fel sy'n ofynnol gan adran 130 o Ddeddf 2011 ac mewn perthynas â'i is-gwmnïau ni chawsant eu cadw fel y bo'n ofynnol gan adran 386 o Ddeddf Cwmnïau 2006; neu
2. nid yw'r cyfrifon yn cyfateb â'r cofnodion hynny; neu
3. nid yw'r cyfrifon yn cydymffurfio â'r gofynion cymwys ynghylch ffurf a chynnwys y cyfrifon a amlinellir yn Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 heblaw unrhyw ofyniad bod y cyfrifon yn rhoi darlun 'gwir a theg' nad yw'n fater i'w ystyried fel rhan o archwiliad annibynnol; neu
4. nid yw'r cyfrifon wedi cael eu paratoi yn unol â dulliau ac egwyddorion y Datganiad o Arferion Cymeradwy ar gyfer cyfrifon ac adroddiadau gan elusennau [yn gymwys i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102)]

Cadarnhaf nad oes unrhyw faterion eraill y dylid dwyn eich sylw atynt er mwyn gallu sicrhau dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon.

Arwyddwyd:

Archwiliad annibynnol o gyfrifon elusennau: cyfarwyddiadau a chanllawiau i archwiliwyr (CC32)

Enw:

[enw corf rhestredig cymwys]:

Cymhwyster(cymwysterau) proffesiynol perthnasol arall(eraill) neu aelodaeth o gyrff proffesiynol (os o gwbl):

Cyfeiriad:

Dyddiad:

Atodiad 5: Profiad/gwybodaeth berthnasol a gofynion cymhwyster proffesiynol

Mae'r atodiad hwn yn esbonio pwy all gynnal archwiliad annibynnol a'r wybodaeth a'r profiad y mae eu hangen arnoch ac a yw aelodaeth ffurfiol o gorff cyfrifyddu yn ofynnol.

Mae'r ymddiriedolwyr yn penodi archwiliwr annibynnol a rhaid iddynt gredu'n rhesymol bod gan y sawl a ddewiswyd y gallu gofynnol a'r profiad ymarferol i gynnal archwiliad cymwys o'r cyfrifon.

Cyn derbyn penodiad fel archwiliwr annibynnol elusen, dylai'r archwiliwr fodloni ei hun fod y gallu gofynnol a'r profiad ymarferol ganddo i gynnal archwiliad cymwys ac, os yw'n ofynnol, ei fod yn aelod o gorff proffesiynol rhestredig.

Bydd y sgiliau sy'n ofynnol gan archwiliwr yn dibynnu ar y cyfrifon ac a ydynt wedi'u paratoi ar sail derbyniadau a thaliadau neu ar sail croniadau, a maint a natur trafodion yr elusen. Dylai rhywun sydd ag ymwybyddiaeth ariannol a sgiliau rhifedd fod â'r gallu gofynnol i weithredu fel archwiliwr annibynnol ar gyfer cyfrifon derbyniadau a thaliadau. Ar gyfer cyfrifon croniadau dylai fod dealltwriaeth dda gan yr archwiliwr o egwyddorion cyfrifyddu, safonau cyfrifyddu a gwybodaeth o'r SORP cymwys.

Os yw cyfrifon derbyniadau a thaliadau neu gyfrifon croniadau yn cael eu paratoi, rhaid i'r archwiliwr fod rhywfaint yn gyfarwydd â rhai egwyddorion sylfaenol cyfrifon cronfeydd (gweler atodiad 7), cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr, a rôl dogfen lywodraethol yr elusen. I gael rhagor o wybodaeth am ddyletswyddau ymddiriedolwyr gweler: Yr ymddiriedolwr hanfodol: yr hyn y mae angen i chi wybod (CC3).

Mae gan y mwyafrif o elusennau incwm gros sy'n is na'r trothwy ar gyfer paratoi cyfrifon croniadau, ac oni bai eu bod wedi'u cyfansoddi fel cwmni o dan y gyfraith cwmnïau, gallant baratoi cyfrifon derbyniadau a thaliadau syml. Mae'r math hwn o gyfrifyddu yn syml iawn ac yn darparu dewis arall syml i gyfrifon croniadau sy'n ateb gofynion cyfreithiol elusennau llai yn llawn. Nid oes angen cael gwybodaeth o safonau cyfrifyddu a'r SORP cymwys er mwyn archwilio cyfrifon derbyniadau a thaliadau.

Yn dibynnu ar gymhlethdod yr elusen sydd i'w harchwilio, efallai y bydd angen profiad ymarferol ar ddarpar archwiliwr sy'n berthnasol i'r elusen dan sylw a allai gynnwys:

- ymwneud â gweinyddiad ariannol elusen debyg
- gweithredu'n llwyddiannus fel archwiliwr annibynnol yn flaenorol ar gyfer elusennau tebyg
- feddu ar brofiad ymarferol perthnasol ym maes cyfrifeg neu fasnach
- gwybodaeth weithiol o gyfrifon elusennau

Archwiliad annibynnol o gyfrifon croniadau

Mae meddu ar y gallu gofynnol yn bwysig er mwyn sicrhau bod yr archwiliwr yn cynnal archwiliad cymwys. Archwiliad cymwys yw un sy'n cael ei wneud gyda medr a gofal rhesymol yn unol â'r Cyfarwyddiadau ar gyfer archwiliad annibynnol. Dylai ymddiriedolwyr sydd wedi cael cyfrifon eu helusen wedi'u paratoi ar sail croniadau ddewis rhywun sy'n aelod o un o'r cyrff cyfrifyddu a restrir yn Neddf 2011 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn 2015.

Dylai archwiliwr fodloni ei hun fod y gallu gofynnol a'r sgiliau angenrheidiol ganddo cyn ymgymryd ag archwiliad o'r cyfrifon a baratowyd ar sail croniadau. Wrth archwilio cyfrifon wedi'u paratoi ar sail croniadau, dylai'r archwiliwr fod yn aelod o un o'r cyrff cyfrifyddu a restrir a rhaid i'r archwiliwr fod yn aelod o gorff rhestredig os yw incwm gros yr elusen yn fwy na £250,000.

Archwiliad annibynnol o gyfrifon elusennau: cyfarwyddiadau a chanllawiau i archwiliwr (CC32)

Yng Nghymru a Lloegr ar gyfer blynyddoedd ariannol yn diweddu ar neu ar ôl 31 Mawrth 2015, pan fydd incwm gros elusen yn fwy na £250,000, rhaid i'r archwiliwr fod yn rhywun sy'n aelod o un o'r cyrff canlynol a restrir yn Neddf 2011, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn 2015. Dylai'r archwiliwr hefyd sicrhau bod hawl ganddo yn ôl rheolau'r corff hwnnw i ymgymryd â rôl archwiliwr annibynnol. Y cyrff rhestredig yw:

- Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr
- Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig yr Alban
- Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Iwerddon
- Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig
- Cymdeithas y Cyfrifwyr Cyhoeddus Awdurdodedig
- Cymdeithas y Technegwyr Cyfrifyddu
- Cymdeithas y Cyfrifwyr Rhyngwladol
- Sefydliad Siartredig Cyfrifwyr Rheoli
- Sefydliad Ysgrifenyddion a Gweinyddwyr Siartredig
- Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg
- Cymrawd Cymdeithas yr Archwilwyr Annibynnol Elusennau
- Sefydliad y Cyfrifwyr Ariannol
- Cymdeithas y Cyfrifwyr Cyhoeddus Ardystiedig

Rhaid i archwilwyr sy'n cynnal archwiliadau annibynnol ar gyfer elusennau traws-ffiniol wirio i weld a yw'n ofynnol iddynt fod yn aelod o gorff a restrir yn yr awdurdodaeth honno ac os yw hyn yn cael ei gadarnhau eu bod nhw'n gymwys i gynnal yr archwiliad annibynnol hwnnw.

Dylai aelodau o gyrff proffesiynol wirio a yw'n ofynnol iddynt feddu ar dystysgrif weithredol i dderbyn y penodiad, boed yn codi ffi neu'n gweithredu fel gwirfoddolwr. Mae gofynion pob corff proffesiynol yn amrywio o ran ei ofynion ar gyfer tystysgrif weithredol ac yswiriant indemniad proffesiynol.

Mae hawl gan archwilwyr annibynnol gael tâl rhesymol am eu gwasanaethau er bod nifer o archwilwyr yn darparu eu gwasanaethau yn wirfoddol. Os ydynt yn codi ffi, dylai archwilwyr hefyd fod yn ymwybodol yr ystyrir eu bod yn darparu gwasanaethau cyfrifyddu ac felly rhaid iddynt fod yn gyfarwydd â Rheoliadau Gwyngalchu Arian a darpariaethau Deddf Elw Troseddau 2002, a chydymffurfio â nhw, os yw hynny'n ofynnol gan y gyfraith. Fel rheol mae'r darpariaethau hyn yn berthnasol i unrhyw un sy'n ymgymryd â gwasanaethau cyfrifyddu am ffi, boed yn aelod o gorff proffesiynol neu beidio. Nid yw'r Comisiwn yn rheoleiddiwr ar gyfer y maes hwn o'r gyfraith; am ffynonellau gwybodaeth pellach, cyfeiriwch at Atodiad 9.

Atodiad 6: Paratoi adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr a ffeilio gyda'r Comisiwn

Cyfrifoldeb ymddiriedolwyr elusennau cofrestredig yw paratoi adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr a chyfrifon. Fodd bynnag, gall yr archwiliwr annibynnol gynorthwyo'r ymddiriedolwyr i'w paratoi.

Yn amodol ar derfynau maint penodol, cyfrifoldeb ymddiriedolwyr elusennau cofrestredig yw ffeilio adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr a chyfrifon yr elusen a'r adroddiad craffu allanol gyda'r Comisiwn o fewn 10 mis o ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Mae cyhoeddiad y Comisiwn, Adroddiadau a chyfrifon elusennau: yr hanfodion (CC15d) yn esbonio'r gofynion ar gyfer adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr a'r dewisiadau ar gyfer paratoi cyfrifon.

Ac eithrio ar gyfer cwmnïau elusennol sydd wedi cofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau, gall ymddiriedolwyr elusennau llai ddewis paratoi cyfrifon derbyniadau a thaliadau ar yr amod nad yw eu hincwm gros yn fwy na'r trothwy incwm gros perthnasol ar gyfer eu paratoi. Mae cyfrifon derbyniadau a thaliadau yn cynnig dewis arall syml a hyblyg ar gyfer cyfrifon croniadau mwy cymhleth.

Yn syml mae cyfrifon derbyniadau a thaliadau yn gofnod wedi'i ddadansoddi o'r arian parod a dderbyniwyd ac a wariwyd yn y flwyddyn ariannol gan gysoni gweddillion arian parod a gweddillion banc a gedwir ar ddechrau ac ar ddiwedd y flwyddyn ynghyd ag atodlen o unrhyw asedau neu rwymedigaethau eraill ar ddiwedd y flwyddyn a elwir y 'Datganiad o Asedau a Rhwymedigaethau'. Mae pecyn cyfrifon derbyniadau a thaliadau'r Comisiwn (CC16) yn darparu cynllun safonol ar gyfer adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr, cyfrifon derbyniadau a thaliadau, y Datganiad o Asedau a Rhwymedigaethau ac adroddiad yr archwiliwr annibynnol.

Ar gyfer blynyddoedd ariannol sy'n diweddu ar neu ar ôl 1 Ebrill 2009, os yw incwm gros elusen yn fwy na £25,000 mae'n rhaid ffeilio'r adroddiad a'r cyfrifon gyda'r Comisiwn. Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am sicrhau bod adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr a chyfrifon, ynghyd ag adroddiad yr archwiliwr annibynnol yn cael eu cyflwyno i'r Comisiwn cyn pen 10 mis o ddiwedd y flwyddyn ariannol. Dylai ymddiriedolwyr cwmnïau elusennol nodi bod rhaid ffeilio gyda Thŷ'r Cwmnïau o fewn 9 mis o ddiwedd y flwyddyn ariannol. Dylai ymddiriedolwyr cwmnïau elusennol sy'n ffeilio gyda Thŷ'r Cwmnïau ffeilio gyda'r Comisiwn yr un pryd.

Dylai'r ymddiriedolwyr gytuno ar amserlen ar gyfer cwblhau'r archwiliad gyda'r archwiliwr. Dylai adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr, cyfrifon a chofnodion a gwybodaeth ategol gael eu darparu i'r archwiliwr yn ddigon cynnar i ganiatáu i'r archwiliad gael ei gwblhau ac i'r cyfrifon gael eu cymeradwyo gan yr ymddiriedolwyr cyn y dyddiad cau ar gyfer ffeilio.

Os yw'r ymddiriedolwyr yn awyddus i'r archwiliwr ddelio â'r ffeilio dylai hyn gael ei gytuno yn ysgrifenedig â'r archwiliwr fel rhan o'r ymrwymiad. Os yw'r ffeilio yn debygol o fod yn hwyr dylai'r ymddiriedolwyr roi gwybod i'r Comisiwn cyn y dyddiad cau ar gyfer ffeilio gan esbonio'r amgylchiadau, y camau y mae'r ymddiriedolwyr yn eu cymryd a'r dyddiad tebygol pan fyddant yn ffeilio.


Atodiad 7: Egwyddorion cyfrifyddu cronfeydd

Mae cyfrifyddu ar gyfer y cronfeydd elusennol arbennig a ddelir gan elusen yn nodwedd allweddol o gyfrifyddu elusennau. Mae nodweddion unigryw gan bob dosbarth o gronfa yn y gyfraith ymddiriedolaeth. Mae cyfrifyddu cronfeydd yn gwahaniaethu rhwng dau brif ddsbarth o gronfa: y rhai sy'n anghyfyngedig o ran eu defnydd, y gellir eu gwario ar gyfer unrhyw ddibenion elusennol elusen, a'r rhai sy'n gyfyngedig o ran y defnydd ohonynt, y mae'n gyfreithlon i'w defnyddio ar gyfer diben elusennol penodol yn unig.

Mae gweinyddiad priodol cronfeydd elusennol unigol yn hanfodol os nad yw ymddiriedolwyr elusen am gyflawni tor-ymddiriedaeth.

Mae cronfeydd cyfyngedig (a elwir hefyd yn ymddiriedolaethau arbennig yng Nghymru a Lloegr) yn cael eu dadansoddi ymhellach rhwng cronfeydd incwm cyfyngedig a chronfeydd gwaddol (a elwir hefyd yn gronfeydd cyfalaf). Mae ffigur 2 yn amlinellu'r dosbarthiadau hyn o gronfeydd ar ffurf diagram. Mae gwahaniaethu cronfeydd yn nodwedd hanfodol wrth gyflwyno datganiad o weithgareddau ariannol (SoFA) a mantolen elusen.

Ffigur 2: Y dosbarthiadau o gronfeydd elusennol



Ar gyfer cyfrifyddu cronfeydd rhaid cael dealltwriaeth o'r dosbarthiadau gwahanol o gronfeydd y gall elusen eu dal ar ymddiriedolaeth. Gall elusen ddal cronfeydd anghyfyngedig a chyfyngedig. Mae incwm a gynhyrchir trwy fuddsoddi asedau cronfa arbennig yn cronni i'r gronfa honno oni bai bod telerau'r rhodd gychwynnol yn darparu fel arall, er enghraifft yn achos gwaddol parhaol. Yn yr un modd, mae unrhyw swm Rhodd Cymorth a adenillir ar rodd yn ffurfio rhan o'r rhodd honno ac yn ychwanegol i'r un gronfa fel y rhodd gychwynnol oni bai bod y rhoddwr neu delerau'r apêl yn nodi'n benodol fel arall.

Cronfeydd anghyfyngedig

Mae cronfeydd anghyfyngedig yn cael eu gwario neu eu cymhwyso yn ôl disgrisiwn yr ymddiriedolwyr i hyrwyddo unrhyw ddibenion yr elusen. Gall cronfeydd anghyfyngedig gael eu defnyddio i ategu'r gwariant a wnaed o gronfeydd cyfyngedig. Er enghraifft, gall grant cyfyngedig fod wedi darparu rhan o'r cyllid sydd ei angen ar gyfer prosiect penodol. Yn yr achos hwn gall cronfeydd anghyfyngedig gael eu defnyddio i fodloni unrhyw ddiffyg cyllid ar gyfer y prosiect hwnnw.

Gall ymddiriedolwyr ddewis yn ystod y cyfnod adrodd i neilltuo rhan o'r cronfeydd anghyfyngedig i'w defnyddio ar gyfer prosiect neu ymrwymiad arbennig yn y dyfodol. Trwy glustnodi cronfeydd fel hyn, mae'r ymddiriedolwyr yn sefydlu cronfa ddynodedig sy'n parhau'n rhan o gronfeydd anghyfyngedig yr elusen. Y rheswm am hyn yw oherwydd bod pwrpas gweinyddol i'r dynodiad yn unig ac nid yw'n cyfyngu disgrisiwn yr ymddiriedolwyr yn gyfreithiol o ran sut i ddefnyddio'r cronfeydd anghyfyngedig y maent wedi'u neilltuo. Gall fod yn ddefnyddiol i nodi cronfeydd dynodedig wrth esbonio polisi cronfeydd wrth gefn yr elusen a lefel y cronfeydd wrth gefn sydd ganddi.

Cronfeydd cyfyngedig

Mae cronfeydd a ddelir ar ymddiriedolaethau penodol o dan y gyfraith elusennau yn cael eu dosbarthu fel cronfeydd cyfyngedig. Gall yr ymddiriedolaethau penodol gael eu datgan gan y rhoddwr wrth wneud y rhodd neu gallant ddeillio o delerau apêl am gronfeydd. Mae'r ymddiriedolaethau penodol yn sefydlu'r diben y mae'n gyfreithiol i elusen ddefnyddio'r cronfeydd cyfyngedig ar ei gyfer. Mae'n bosib bod sawl cronfa gyfyngedig unigol gan yr elusen, pob un ar gyfer diben arbennig yr elusen.

Mewn rhai amgylchiadau gall y rhoddwr fynegi ffurf o ddewis anghyfrwymol ynghylch defnyddio'r cronfeydd ond sydd ddim yn gosod cyfyngiad fel y cyfrwy yn y gyfraith ymddiriedolaeth. Mewn achos o'r fath bydd yr elusen yn cynnwys y cronfeydd fel rhan o'i chronfeydd anghyfyngedig. Er mwyn parhau dymuniadau anghyfrwymol y rhoddwr, gall yr ymddiriedolwyr benderfynu dynodi'r cronfeydd hynny er mwyn adlewyrchu'r dibenion a oedd gan y rhoddwr mewn golwg.

Mae gan rai ymddiriedolwyr y pŵer i ddatgan ymddiriedolaethau arbennig dros gronfeydd anghyfyngedig. Os yw pŵer o'r fath ar gael i'r ymddiriedolwyr ac maent yn ei ddefnyddio, bydd yr asedau a affeithir yn ffurfio rhan o'r cronfeydd cyfyngedig fel ymddiriedolaeth arbennig. Bydd disgrisiwn yr ymddiriedolwyr i gymhwyso'r gronfa honno wedi'i gyfyngu'n gyfreithiol.

Egwyddorion cyfrifyddu cronfeydd

Mae cronfeydd cyfyngedig wedi'u cynnwys mewn un o ddau is-ddosbarth: cronfeydd incwm cyfyngedig neu gronfeydd gwaddol. Mae cronfeydd incwm cyfyngedig yn cael eu gwario neu eu defnyddio o fewn cyfnod rhesymol o ddyddiad eu derbyn i hyrwyddo diben penodol yr elusen, sef hyrwyddo un neu ragor ond nid pob un o ddibenion elusennol yr elusen. Fel arall gall y gronfa gyfyngedig fod yn waddol. Mae'r gyfraith ymddiriedolaeth yn ei gwneud hi'n ofynnol i elusen

fuddsoddi asedau gwaddol, neu eu cadw at ddefnydd yr elusen i hyrwyddo ei dibenion elusennol, yn hytrach na'u cymhwyso neu eu gwario fel incwm (gweler 'Cronfeydd gwaddol' isod).

Wrth gynnal y cofnodion cyfrifyddu, rhaid i elusennau nodi pob cronfa gyfyngedig ar wahân a'r incwm a dderbyniwyd a'r gwariant a dderbyniwyd a wnaed o bob cronfa gyfyngedig.

Mae'r costau a godir i gronfa gyfyngedig yn ymwneud â'r gweithgareddau a wnaed i hyrwyddo'r dibenion elusennol penodol y cafodd y gronfa ei sefydlu i'w cefnogi. Mae'r costau hyn yn cynnwys costau uniongyrchol a chostau cymorth sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau a gwblhawyd gan y gronfa gyfyngedig (cronfeydd cyfyngedig). Yn ogystal â dyraniad rhesymol o gostau cymorth, dylai costau eraill cysylltiedig â chodi, buddsoddi a rheoli'r cronfeydd cyfyngedig gael eu codi fel rheol i'r gronfa y mae'r gost yn gysylltiedig â hi. Gall gwariant i'w briodoli i gronfa gyfyngedig gael ei godi iddi o hyd er bod gweddill annigonol ar y gronfa honno ar y pryd.

Fodd bynnag, dylai gwariant gael ei godi i gronfa gyfyngedig mewn diffyg dim ond os yw'n rhesymol i ddisgwyl y bydd incwm yn cael ei dderbyn yn y dyfodol i gwmpasu'r diffyg, er enghraifft pan fydd penderfyniad wedi cael ei wneud i wahodd rhoddion i'r gronfa gyfyngedig honno.

Cronfeydd gwaddol

Mae rhodd o waddol, lle nad oes pŵer i droi'r cyfalaf yn incwm, yn cael ei galw'n gronfa waddol parhaol. Fel rheol mae'n rhaid i gronfa waddol parhaol gael ei dal am gyfnod amhenodol. Os oes pŵer gan yr ymddiriedolwyr i droi cronfeydd gwaddol yn incwm; gelwir cronfeydd o'r fath yn waddolion treuliadwy. Bydd rhodd o waddol treuliadwy yn rhoi pŵer i'r ymddiriedolwyr droi'r cyfan neu ran ohoni yn incwm.

Cyfrifon ac adroddiadau elusennau

Mae gwaddol treuliadwy yn wahanol i gronfeydd incwm oherwydd nid oes unrhyw ofyniad gwirioneddol i'w gwario neu gymhwyso'r cyfalaf oni bai, neu hyd nes, bod yr ymddiriedolwyr yn penderfynu ei wario. Os yw'r ymddiriedolwyr yn arfer y pŵer i wario neu ddefnyddio cyfalaf y gwaddol treuliadwy, mae'r cronfeydd perthnasol yn troi'n gronfeydd anghyfyngedig neu'n gronfeydd incwm cyfyngedig yn dibynnu ar delerau'r rhodd ac a ydynt yn caniatáu gwariant ar gyfer unrhyw ddibenion yr elusen, neu dim ond ar gyfer dibenion penodol.

Rhaid i'r incwm a gynhyrchwyd o gronfeydd gwaddol a ddelir i'w buddsoddi gael ei wario ar hyrwyddo ei ddibenion elusennol oni bai bod yr elusen yn arfer pŵer cronni neu os yw elusen yng Nghymru a Lloegr wedi buddsoddi'r gwaddol ar sail cyfanswm enillion o dan ddarpariaethau adran 104A o Ddeddf Elusennau 2011 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Ymddiriedolaeth (Cyfalaf ac Incwm) 2013 neu Orchymyn y Comisiwn Elusennau a waned o dan adran 105 o Ddeddf Elusennau 2011. Os nad oes unrhyw gyfyngiad ynghylch defnyddio'r incwm, mae'r incwm yn ychwanegol i gronfeydd anghyfyngedig. Mae'n bosib bod sawl cronfa waddol gan elusen, ac mae'r incwm o bob gwaddol wedi'i gyfyngu ar gyfer diben arbennig.

Nid yw'r cysyniad o barhad yn golygu bod rhaid i elusen barhau i ddal yr asedau yn y cronfeydd gwaddol yn y ffurf y cawsant eu rhoi i gychwyn. Mae modd newid y buddsoddiadau neu'r eiddo a ddelir o fewn cronfa waddol. Er enghraifft, gallai elusen werthu buddsoddiad ecwiti arbennig ac ail-fuddsoddi'r enillion mewn ased ariannol gwahanol, neu gallai ddefnyddio'r enillion o werthu tir ac adeiladau rhydd-ddaliad gwaddoledig i brynu eiddo rhydd-ddaliad newydd a fydd yn ffurfio rhan o'r gwaddol.

Cyfrifyddu ar gyfer treuliau sy'n gysylltiedig â gwaddol

Ni all elusen ddefnyddio gwaddol parhaol fel pe bai'n incwm, er enghraifft i wneud taliadau neu grantiau i drydydd partïon. Mae'r gyfraith ymddiriedolaeth yn caniatáu i dreuliau gael eu codi i Archwiliad annibynnol o gyfrifon elusennau: cyfarwyddiadau a chanllawiau i archwilwyr (CC32)

waddol parhaol dim ond os yw wedi codi wrth weinyddu neu ddiogelu'r buddsoddiadau neu eiddo'r gwaddol, er enghraifft:

- y ffioedd a godir wrth reoli buddsoddiad y gwaddol;
- costau ffioedd prisio a'r treuliau a godir mewn cysylltiad â gwerthu
- tir gwaddoledig:
 - cost gwelliannau i'r tir a ddelir fel buddsoddiad gwaddol; neu
 - golli gwerth oherwydd dibrisio neu amharu ar eiddo gwaddoledig.

Os nad oes cronfeydd digonol gan y gwaddol i ddarparu ar gyfer y treuliau y gellir eu codi iddo, neu os yw telerau ymddiriedolaeth y rhodd waddoledig yn gwahardd codi treuliau, rhaid i'r treuliau gael eu codi i gronfeydd incwm. Fel rheol rhaid i dreuliau eraill gael eu codi i gronfeydd incwm.

Cyfrifyddu ar gyfer enillion buddsoddi ar gronfeydd incwm a gwaddol

Mae'r enillion ar fuddsoddiadau wedi'u ffurfio o'r incwm sy'n deillio o'r buddsoddiad (budd, difidendau, breindaliadau neu renti) ac unrhyw elw neu golled yng ngwerth y farchnad y buddsoddiad. Os yw'r elusen yn gwerthu buddsoddiad, mae elw neu golled ar y swm sy'n cario yr ased yn cael ei realeiddio pan gaiff ei waredu. Os yw'r elusen yn cadw buddsoddiad, gall elw neu golled heb eu realeiddio ar swm sy'n cario y buddsoddi godi ar ddyddiad y fantolen.

Ar gyfer cronfeydd anghyfyngedig a chronfeydd incwm cyfyngedig, mae'r gyfraith ymddiriedolaeth yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r incwm ac unrhyw elw a cholled buddsoddi gael eu dyrannu i'r gronfa sy'n dal y buddsoddiad.

Os oes gan yr elusen nifer o gronfeydd incwm cyfyngedig unigol, rhaid i unrhyw incwm buddsoddi ac enillion buddsoddi ar fuddsoddiadau gael eu dyrannu i'r cronfeydd cyfyngedig unigol sy'n dal y buddsoddiad.

Mae'r gyfraith ymddiriedolaeth yn cymhwyso rheolau gwahanol i gronfeydd gwaddol. Yn achos gwaddol, ni all ymddiriedolwyr ychwanegu'r incwm o fuddsoddiadau i'r cyfalaf gwaddol ac eithrio os oes pŵer ganddynt i fuddsoddi ar sail cyfanswm enillion (gweler modiwl SORP 'Cyfanswm enillion (buddsoddiadau)') neu arfer pŵer cronni. Yn hytrach, mae'r incwm o'r buddsoddiad yn cael ei dyrannu i naill ai'r cronfeydd anghyfyngedig neu gronfa incwm cyfyngedig yn dibynnu ar delerau'r rhodd. Fodd bynnag, gellir priodoli unrhyw elw neu golled ar fuddsoddi i'r cyfalaf gwaddol. Os oes sawl gwaddol wedi'i fuddsoddi gan yr elusen, rhaid i unrhyw elw neu golled ar fuddsoddiadau gael ei dyrannu'n gywir i bob gwaddol unigol.

Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd

Gall trosglwyddiad gael ei wneud am sawl rheswm, gan gynnwys:

- trosglwyddo asedau o gronfeydd anghyfyngedig i ariannu diffyg ar gronfa gyfyngedig;
- trosglwyddo gwerthu asedau sefydlog diriaethol o gronfeydd cyfyngedig i gronfeydd anghyfyngedig
- os yw'r ased wedi cael ei brynu o rodd cronfa gyfyngedig ond yn cael ei ddal at ddiben cyffredinol ac nid diben cyfyngedig;
 - os yw'r cronfeydd cyfyngedig wedi cael eu rhyddhau'n gyfreithlon a'u trosglwyddo i gronfeydd anghyfyngedig;
 - os yw'r ymddiriedolwyr wedi arfer pŵer i ddatgan ymddiriedolaeth arbennig dros roi a gafodd ei chydnabod fel un anghyfyngedig i gychwyn; neu
 - os yw'r gyfraith elusennau yn caniatáu i enillion cronfeydd cyfyngedig gael eu gwario ar gyfer diben arall (megis gweithdrefnau cy-près yng Nghymru a Lloegr), er

enghraifft y defnydd arall o enillion apêl sydd wedi methu, neu'r defnydd arall o ormodedd o arian yn cael ei godi mewn apêl.

Atodiad 8: Rhestr termau

Mae'r rhestr termau hon yn esbonio nifer o dermau technegol a ddefnyddir yn y canllawiau a'r atodiadau nad ydynt efallai'n gyfarwydd i bob archwiliwr.

(Cyfanswm) asedau gros: cyfanswm asedau'r elusen, cyn didynnu rhwymedigaethau, fel ar ddyddiad y fantolen, h.y. ar ddiwedd diwrnod olaf blwyddyn ariannol yr elusen.

Aelodau: aelodau'r elusen yw'r unigolion hynny neu ddsbarth o unigolion a ddiffinnir yn y ddogfen lywodraethol fel aelodau'r elusen. Mae'r ddogfen lywodraethol yn amlinellu'r broses ar gyfer penodi a diswyddo aelodau, rôl a chyfrifoldebau aelodau a'r lle sydd gan yr aelodaeth wrth lywodraethu'r elusen. O dan y gyfraith cwmnïau aelodau'r cwmni yw tanysgrifwyr cychwynnol cwmni adeg cofrestru a hefyd yr unigolion hynny sy'n dod yn aelodau ac mae eu henwau wedi'u cofnodi yng nghofrestr aelodau'r cwmni. Bydd y gyfraith cwmnïau ac erthyglau cymdeithasu'r cwmni yn pennu'r broses ar gyfer penodi a diswyddo aelodau, rôl a chyfrifoldebau aelodau a'r lle sydd gan yr aelodaeth wrth lywodraethu'r cwmni elusennol.

Archwiliad ariannol proffesiynol: mae archwiliad ariannol yn cael ei wneud gan unigolyn sy'n gymwys o dan Ddeddf 2011 ac sy'n archwiliwr cofrestredig fel rheol. Mae'n rhaid i'r archwiliwr ariannol fynegi ei farn broffesiynol ynghylch a yw'r cyfrifon yn rhoi darlun 'gwir a theg' yn unol â safonau archwilio'r DU.

Archwiliad statudol: os yw'r term archwiliad statudol yn cael ei ddefnyddio mae'n cyfeirio at y gofyniad yn ôl y gyfraith elusennau i gynnal archwiliad ariannol os yw incwm gros a/neu asedau'r elusen yn fwy na'r trothwy perthnasol gan unigolyn sy'n gymwys i'w benodi fel archwiliwr ariannol cwmni, neu unigolyn a gymeradwywyd gan y Comisiwn yn unol â Rheoliadau 2008.

Arwyddocâd perthnasol yw'r term a defnyddir i gyfeirio at fater sydd wedi'i gynnwys o fewn y diffiniad statudol o'r ddyletswydd i adrodd materion o arwyddocâd perthnasol i'r Comisiwn. Mae'r ddyletswydd hon a'r materion y mae'r Comisiwn yn ystyried eu bod o arwyddocâd perthnasol i'w swyddogaethau rheoleiddio wedi'u rhestru yn adran 5 o'r canllaw hwn.

Arwyddocaol: mae'n golygu'r pryder y mae'r archwiliwr wedi'i nodi ynghylch y cofnodion cyfrifyddu, eitemau anarferol, neu gasgliadau sydd angen esboniad neu adrodd pellach. Gellir asesu arwyddocâd orau yn aml ar ôl i'r archwiliwr gynnal yr adolygiad dadansoddol ac ar ôl i'r archwiliwr orffen ei waith ac wrthi'n myfyrio ar yr hyn y mae wedi'i ganfod. Gall mater gael ei ystyried yn un arwyddocaol hyd yn oed os nad yw'n berthnasol o ran ei swm.

Busnes byw: mae'r cysyniad hwn yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r elusen baratoi cyfrifon ar y sail y bydd yn parhau mewn bodolaeth weithredol yn y dyfodol agos. Mae'r sail busnes byw yn gymwys i gyfrifon sy'n cael eu paratoi ar sail cronïadau oni bai ei fod yn angenrheidiol, neu os yw'r ymddiriedolwyr yn bwriadu, roi terfyn ar weithgareddau gweithredol, dirwyn i ben neu ddiddymu'r elusen.

Cangen (neu ganghennau): defnyddir y term 'cangen' i ddisgrifio trefniadau gweinyddol yr elusen lle mae ei strwythur gweithredu mewnol wedi'i drefnu yn ôl swyddogaeth, lleoliad neu ffactor arall sy'n ceisio hwyluso ei gweinyddiad. Gall canghennau gynnwys grwpiau cefnogwyr, grwpiau aelodau a swyddogion mewn siroedd, cymunedau neu blwyfi gwahanol sy'n rhan o elusen. Defnyddir canghennau yn gyffredinol i drefnu codi arian, cynrychioli'r elusen mewn ardal leol neu gyflawni gwaith yr elusen mewn ardal leol.

Camddatgan: mae'n golygu a yw'r cyfrifon mewn unrhyw ffordd wedi'u camddatgan yn sylweddol drwy gynnwys eitem neu agwedd ar y cyfrifon sy'n anghywir yn ffeithiol, ar gam, neu drwy wall, neu drwy hepgor eitem y dylid fod wedi'i chynnwys yn briodol yn y cyfrifon.

Camddefnyddio: mae'n golygu cymhwyso neu ddefnyddio arian neu asedau y mae'r elusen yn berchen arnynt mewn modd anonest at ddefnydd rhywun arall.

Camreoli: mae camreoli yn golygu bod yr ymddiriedolwyr wedi methu â rheoli materion yr elusen a diogelu ei hasedau. Am fwy o wybodaeth ar ddyletswyddau ymddiriedolwyr cyfeiriwch at ganllaw'r comisiwn [yr ymddiriedolwr hanfodol: yr hyn y mae angen i chi wybod \(CC3\)](#).

Camymddwyn: mae camymddwyn yng nghyd-destun adrodd am faterion o arwyddocâd perthnasol yn cyfeirio at dystiolaeth, neu amheuaeth resymol o dwyll, lladrad, ymddygiad troseddol, tor-ymddiriedaeth ailadroddus neu sylweddol neu gamgymeriadau gweinyddol (camreoli), neu gael budd preifat anawdurdodedig.

Cronfeydd anghyfyngedig: cronfeydd y gall yr ymddiriedolwyr eu gwario yn ôl eu disgrisiwn ar gyfer unrhyw ddibenion yr elusen. Gall cronfeydd anghyfyngedig hefyd gynnwys rhan o'r cronfeydd anghyfyngedig y mae'r ymddiriedolwyr wedi'u clustnodi ar gyfer diben arbennig; mae'r cronfeydd hyn a glustnodwyd yn cael eu galw'n gronfeydd dynodedig. Mae cronfeydd dynodedig o'r fath yn rhan gyfreithiol o'r cronfeydd anghyfyngedig, er gellir eu hadrodd ar wahân yn y fantolen neu'r nodiadau, os yw cyfrifon croniadau yn cael eu paratoi, neu fel rhan o'r cronfeydd anghyfyngedig, os yw cyfrifon derbyniadau a thaliadau'n cael eu paratoi.

Cronfeydd incwm cyfyngedig: cronfeydd y gall yr ymddiriedolwyr eu gwario ar ddibenion arbennig yr elusen. Mae cronfeydd incwm cyfyngedig yn ddarostyngedig i ymddiriedolaethau penodol a all gael eu datgan gan y rhoddwr(wyr), neu gyda'i awdurdod (e.e. mewn apêl gyhoeddus), neu gael eu creu trwy broses gyfreithiol, ond sy'n parhau i fod o fewn amcanion ehangach yr elusen.

Crynodebau cyflogres: cofnodion cyfrifiadurol neu gofnodion llaw sy'n nodi yn ôl gweithiwr a enwir, y cyflog gros a dalwyd, treth cyflogwyr ac yswiriant gwladol cyflogwyr a chostau cysylltiedig eraill gweithwyr (er enghraifft, costau cynllun gofal iechyd neu gyfraniadau cyflogwyr at bensiynau cyfraniadau diffiniedig neu fudd diffiniedig), lle y bo'n berthnasol.

Cyfarwyddwyr: un neu ragor o unigolion sy'n hŷn nag 18 oed ac yn gyfrifol yn ôl y gyfraith am weithrediadau'r cwmni. Mae'r cyfarwyddwyr yn ffurfio bwrdd cyfarwyddwyr sy'n creu'r corff gwneud penderfyniadau ac mae'r bwrdd yn gyfrifol am reoli materion y cwmni. Mae dyletswyddau penodol gan gyfarwyddwyr o dan y gyfraith cwmniâu ac maent yn atebol yn gyfreithiol am eu gweithrediadau. Ymddiriedolwyr elusen cwmni elusennol yw ei gyfarwyddwyr.

Cyfriflyfr nominal: mae cyfriflyfr nominal, neu gyfriflyfr cyffredinol, yn derm cyfrifyddu ar gyfer y cofnod llaw neu gyfrifiadurol sy'n cynnwys y trafodion cyfrifyddu ar gyfer y cyfnod. Mae'r cyfriflyfr yn cynnwys cofnod manwl o'r holl drafodion sydd wedi cael eu prosesu dros gyfnod penodol o amser ac mae modd tynnu prawfweddill a pharatoi cyfrifon ariannol o'r cyfriflyfr hwn. Mae'n bosibl na fydd elusennau llai yn cadw cyfriflyfr nominal ond yn lle hynny byddant yn cadw llyfr arian parod wedi'i ddadansoddi fel rheol ar ffurf golofnol gydag incwm wedi'i ddangos ar wahân i wariant.

Cyfrifon anstatudol: mae cyfrifon anstatudol yn gyfrifon sydd wedi'u paratoi gan yr ymddiriedolwyr sydd heb eu paratoi o dan neu sydd heb fod yn ofynnol gan Ran 8 o Ddeddf Elusennau 2011 a'r Rheoliadau 2008 cymwys, neu os yw'r elusen yn gwmni, Rhan 15 o Ddeddf Cwmnïau 2006. Mae cyfrifon o'r fath yn cynnwys cyfrifon rheoli wedi'u paratoi yn ystod y flwyddyn i hysbysu ymddiriedolwyr ynghylch cyllid yr elusen, a chyfrifon grŵp sy'n cael eu paratoi yn wirfoddol.

Cyfrifon grŵp: mae'r term hwn yn disgrifio'r sefyllfa pan fydd elusen yn rheoli un neu ragor o is-gwmnïau. Er mwyn rhoi trosolwg o'r holl asedau a rhwymedigaethau a reolir gan yr ymddiriedolwyr mae set o gyfrifon yn cael eu paratoi sy'n cyfuno materion yr elusen a materion ei his-gwmnïau a gelwir y rhain yn gyfrifon grŵp. Dylid paratoi cyfrifon grŵp trwy ddilyn y canllawiau a nodir yn y SORP ac mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith dim ond os yw incwm y grŵp (yn glir o drafodion o fewn grŵp) yn fwy na'r trothwy statudol.

Cyfrifon rheoli: mae'r cyfrifon hyn yn ffurfio rhan o'r cyfriflyfr nominal mewn systemau cyfrifyddu llaw neu gyfrifiadurol ac fe'u defnyddir fel swyddogaeth reoli ar gyfer gwerthiannau, pryniannau, cyflogres ac weithiau ar gyfer arian parod. Yn achos rheoli cyfriflyfr gwerthiannau neu bryniannau mae'r cyfansymiau a anfonebwyd a'r arian parod a dderbyniwyd neu a dalwyd yn erbyn anfonebau wedi'u postio i gyfrifon o'r fath. Gall y gweddill ar gyfrifon o'r fath gael eu cysoni i bryniannau a anfonebwyd ond sydd heb eu talu neu anfonebau gwerthiannau nad yw taliad wedi cael ei dderbyn ar eu cyfer.

Cyfrifon statudol: cyfrifon statudol yw'r cyfrifon sydd wedi'u paratoi gan yr ymddiriedolwyr sy'n ofynnol ac yn bodloni ffurf a gofynion cynnwys Rhan 8 o Ddeddf Elusennau 2011 a'r Rheoliadau 2008 cymwys, neu os yw'r elusen yn gwmni, Rhan 15 o Ddeddf Cwmnïau 2006, y mae adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr gofynnol wedi'i atodi iddo, yr adroddiad craffu allanol sydd wedi'i baratoi gan yr archwiliwr ariannol neu'r archwiliwr annibynnol.

Cysoniad banc: mae'r datganiad hwn yn cysoni'r gweddill yn y banc, fel ar ddyddiad y gyfriflen, gyda'r gweddill a ddangosir yn y cyfrifon drwy addasu'r gweddill banc wrth gau ar gyfer trafodion, er enghraifft, sieciau sydd wedi cael eu hysgrifennu ond sydd heb eu cyflwyno a bancio sydd wedi cael ei wneud ond heb ei gredydu, a weithredwyd ar neu cyn dyddiad y gweddill banc wrth gau.

Deddf 2011: Deddf Elusennau 2011

Dogfen lywodraethol: unrhyw ddogfen sy'n pennu dibenion yr elusen ac, fel arfer, sut y caiff ei gweinyddu. Gall fod yn weithred ymddiriedolaeth, cyfansoddiad, memorandwm ac erthyglau cymdeithasu, ewyllys, trawsgludiad, Siarter Frenhinol, cynllun y comisiwn, neu ddogfen ffurfiol arall. Ymddiriedolaethau elusen yw'r darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn nogfen lywodraethol/dogfennau llywodraethol yr elusen.

Gorchymyn 2009: Gorchymyn (Dirprwyo Symiau) 2009 Deddfau Elusennau 1992 a 1993 Rhif 508

Gorchymyn 2015: Gorchymyn (Cyfrifon ac Archwilio) 2015 Deddf Elusennau 2011 Rhif 321

Gwaddol: math o gronfa gyfyngedig lle mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwyr yn ôl y gyfraith i fuddsoddi neu gadw'r cyfalaf. Dylai'r incwm a gynhyrchir o'r cyfalaf gael ei wario. Fel rheol bydd y cronfeydd hyn yn fuddsoddiadau ond gallant hefyd fod yn eiddo a ddelir fel gwaddol at ddefnydd yr elusen. Mae dau fath o waddol. Mae gwaddol parhaol yn gronfa Archwiliad annibynnol o gyfrifon elusennau: cyfarwyddiadau a chanllawiau i archwiliwyr (CC32)

Ile nad oes gan yr ymddiriedolwyr y pŵer i wario'r cyfalaf. Gwaddol treuliadwy yw cronfa lle mae dewis gan yr ymddiriedolwyr i wario'r cyfalaf, o dan rai amgylchiadau, yn yr un ffordd â gwario cronfeydd incwm.

Ffurf a chynnwys: y gofynion statudol ynghylch datgeliadau, dadansoddi a gwybodaeth y dylid eu cynnwys yn y cyfrifon.

Llythyr ymrwymiad: llythyr wedi'i gyfeirio at yr ymddiriedolwyr elusen gan yr archwiliwr annibynnol yn rhoi manylion am gyfrifoldebau cyfrifyddu'r ymddiriedolwyr elusen a chyfrifoldebau statudol yr archwiliwr annibynnol. Gall hefyd gynnwys materion megis trefniadau ffioedd, amserlen arfaethedig ar gyfer yr archwiliad a manylion unrhyw waith anstatudol sydd i'w wneud gan yr archwiliwr. Pwrpas y llythyr yw cytuno ar delerau a lleihau camddealltwriaeth a dylai cynnwys unrhyw lythyr o'r fath gael ei gytuno yn ysgrifenedig gyda'r ymddiriedolwyr elusen.

Papurau gweithio: cofnodion ysgrifenedig neu gyfrifiadurol, megis nodiadau o'r esboniadau a dderbyniwyd ac atodlenni gwaith a wnaed, a gedwir gan yr archwiliwr i gofnodi'r hyn a wnaeth, yr hyn y mae wedi'i ganfod, y cwestiynau a ofynnwyd a'r atebion a gafwyd i'r cwestiynau hynny. Bydd papurau gweithio yn cynnwys adolygiad dadansoddol yr archwiliwr, a chopïau o unrhyw gofnodion a all fod yn berthnasol i'r archwiliad. Yn gyffredinol bydd yr archwiliwr yn cadw gyda'i bapurau gweithio gopi o unrhyw brawfweddill, atodlenni a baratowyd i gefnogi'r cyfrifon, y cyfrifon a archwiliwyd, adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr ac os yw'n gymwys gopi o'r llythyr ymrwymiad.

Perthnasol/perthnasedd yw barn yr archwiliwr annibynnol ynghylch a fyddai unrhyw wybodaeth sydd wedi'i hepgor neu ei chamddatgan yn effeithio ar ddealltwriaeth y darlennydd o'r cyfrifon. Mae perthnasedd yn dibynnu ar faint, swm neu bwysigrwydd yr eitem, y gwall neu'r camddatganiad. Gall eitemau fod yn berthnasol yn ôl eu natur hefyd, er enghraifft taliadau i ymddiriedolwyr.

Polisiâu cyfrifyddu: yr egwyddorion, sylfeini, confensiynau, rheolau ac arferion hynny sy'n pennu sut mae effeithiau trafodion a digwyddiadau eraill yn cael eu hadlewyrchu yn y cyfrifon trwy gydnabod, mesur a chyflwyno asedau, rhwymedigaethau, enillion, colledion a newidiadau neu symudiadau mewn cronfeydd. Fe'u hategir gan dechnegau amcangyfrif lle mae angen llunio barn wrth gofnodi gwerth adnoddau a dderbyniwyd ac a ddefnyddiwyd, asedau a rhwymedigaethau. Dylai polisiâu cyfrifyddu fod yn berthnasol ac yn ddibynadwy a chynnig modd cymharu a deall yr wybodaeth ariannol a gyflwynir yn y cyfrifon.

Prawfweddill: rhestr o weddillion wrth gau ar bob cyfrif unigol ar wahân a gedwir o fewn cofnodion llaw neu gofnodion cyfrifiadurol yr elusen.

Rheoliadau 2008: Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 Rhif 629

Safonau cyfrifyddu: dylai cyfrifon sy'n bwriadu rhoi darlun gwir a theg gydymffurfio â rhai safonau a gyhoeddwyd neu a fabwysiadwyd gan y Cyngor Adrodd Ariannol.

Sail croniadau: mae'r cysyniad hwn yn ei gwneud hi'n ofynnol i effeithiau trafodion a digwyddiadau eraill gael eu hadlewyrchu, cyn belled â phosibl, yn y cyfrifon ar gyfer y cyfnod pan fyddant yn digwydd, ac nid, er enghraifft, yn y cyfnod pan fydd unrhyw daliad arian parod yn cael ei wneud. Mae'r cysyniad hwn yn ganolog i gydnabod asedau a rhwymedigaethau'r fantolen.

Defnyddiwyd y term hwn i ddisgrifio cyfrifon a baratowyd yn unol â gofynion adran 132 o Ddeddf 2011. Dylai cyfrifon o'r fath gael eu paratoi gan yr ymddiriedolwyr i roi darlun 'gwir a theg'. Mae'r cyfrifon yn cynnwys:

- datganiad o weithgareddau ariannol (SoFA)
- mantolen
- nodiadau ar y cyfrifon

Dylai cyfrifon o'r fath gael eu paratoi ar sail polisiau cyfrifyddu sy'n cynnig modd i'r cyfrifon roi darlun gwir a theg ac sy'n gyson â safonau cyfrifyddu a chysyniadau cyfrifyddu busnes byw a chroniadau.

Sail derbyniadau a thaliadau: Cyfrifon wedi'u paratoi o dan adran 133 o Ddeddf 2011. Mae'r cyfrifon yn cynnwys:

- cyfrif derbyniadau a thaliadau
- Datganiad o Asedau a Rhwymedigaethau

Nid yw cyfrifon o'r fath yn ceisio rhoi 'darlun gwir a theg'; yn lle hynny dylent roi crynodeb ffeithiol o'r arian a dderbyniwyd ac a dalwyd yn ystod y flwyddyn a datganiad sy'n darparu gwybodaeth ynghylch asedau a rhwymedigaethau'r elusen ar ddiwedd y flwyddyn.

SORP: mae'r Datganiad o Arferion Cymeradwy: Cyfrifon ac Adroddiadau Elusennau yn amlinellu'r arferion cymeradwy at ddiben paratoi adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr a pharatoi cyfrifon elusen ar ddull cronïadau. Nid yw argymhellion cyfrifyddu'r SORP yn gymwys i elusennau sy'n paratoi cyfrifon derbyniadau a thaliadau. Ar gyfer cyfnodau adrodd (blynyddoedd ariannol) yn dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2015 mae dewis rhwng y SORP Elusennau (FRSSE) a'r SORP Elusennau (FRS 102), ond ar gyfer y cyfnodau adrodd (blynyddoedd ariannol) yn dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2016 dim ond un SORP sydd: SORP Elusennau (FRS 102) sy'n rhaid cael ei ddefnyddio ynghyd â'r Diweddariad Bwletin 1 cyhoeddedig.

SORP cymwys: y Datganiad o Arferion Cymeradwy (SORP) cymwys yw'r SORP sy'n gymwys ar gyfer cyfnod adrodd (blwyddyn ariannol) yr elusen sydd wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor Adrodd Ariannol fel un sy'n gyson â'r safonau cyfrifyddu cymwys ac arferion cyfrifyddu cymeradwy cyffredinol. Ar gyfer cyfnodau adrodd (blynyddoedd ariannol) sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2016 dim ond un SORP sydd: SORP Elusennau (FRS 102) sy'n rhaid cael ei ddefnyddio ynghyd â Diweddariad Bwletin 1.

Terfysgaeth: o dan Ran II o Ddeddf Terfysgaeth 2000, mae pŵer gan yr Ysgrifennydd Gwladol i wahardd unrhyw sefydliad y cred sy'n 'gysylltiedig â therfysgaeth'. Mae sefydliad yn 'gysylltiedig â therfysgaeth' os yw'n cyflawni neu'n cymryd rhan mewn gweithrediadau terfysgol, yn paratoi ar gyfer terfysgaeth, yn hybu neu'n annog terfysgaeth, neu fel arall yn ymwneud â therfysgaeth naill ai yn y DU neu dramor.

Twyll: roedd Deddf Twyll 2006 wedi sefydlu diffiniad o dwyll. Gall twyll gael ei gyflawni drwy gyfrwng dweud anwiredd, methu â datgelu gwybodaeth, neu gamddefnyddio swydd os mai'r bwriad yw bod y sawl sy'n cyflawni'r twyll yn gweithredu'n anonest ac yn ceisio elwa ar y twyll neu achosi colled i barti o ganlyniad i'r twyll.

Tystiolaeth: defnyddir y term hwn yn adran 5 wrth bennu a yw mater o arwyddocâd perthnasol i'r comisiwn ac a ddylid ei adrodd. Tystiolaeth yw'r wybodaeth neu'r ffeithiau a gasglwyd gan yr archwiliwr yn ystod yr archwiliad. Mae'r ffynonellau tystiolaeth sydd ar gael yn cynnwys y cyfrifon, y cofnodion cyfrifyddu, adolygiad dadansoddol yr archwiliwr, yr

esboniadau a roddwyd yn yr atebion i'r cwestiynau, materion a sefydlwyd trwy unrhyw weithdrefnau gwirio sy'n angenrheidiol a chofnodion eraill yr elusen, er enghraifft cofnodion cyfarfodydd ymddiriedolwyr.

Ymddiriedolaethau: darpariaethau yw'r rhain sydd ar unrhyw adeg yn rheoleiddio dibenion a gweinyddiaeth yr elusen neu gronfeydd sy'n ddarostyngedig i ymddiriedolaethau penodol a all gael eu datgan gan y rhoddwr(wyr), neu gyda'i awdurdod (e.e. mewn apêl gyhoeddus), neu gael eu creu trwy broses gyfreithiol, ond sy'n parhau i fod o fewn amcanion ehangach yr elusen (cronfeydd cyfyngedig).

Ymddiriedolwr: mae'n golygu ymddiriedolwr elusen. Ymddiriedolwyr elusen yw'r bobl sy'n gyfrifol am lywodraethu elusen a chyfeirio sut y caiff ei rheoli a'i rhedeg. Gall dogfen lywodraethol elusen eu galw nhw'n ymddiriedolwyr, y bwrdd, y pwyllgor rheoli, llywodraethwyr, cyfarwyddwyr, neu enw arall. Mae'r Ddeddf Elusennau yn diffinio'r bobl sydd â'r rheolaeth derfynol am yr elusen fel yr ymddiriedolwyr elusen, beth bynnag y cânt eu galw yn nogfen lywodraethol yr elusen.

Ymddiriedolwyr elusen: diffinnir ymddiriedolwyr elusen gan adran 177 o Ddeddf 2011 a dyma'r bobl sydd, o dan ddogfen lywodraethol elusen, yn gyfrifol am reoli gweinyddiad yr elusen yn gyffredinol. Yn nogfen lywodraethol yr elusen gallan nhw gael eu galw'n ymddiriedolwyr, yn ymddiriedolwyr rheoli, yn aelodau pwyllgor, yn llywodraethwyr neu'n gyfarwyddwyr, neu gall fod enw arall arnynt.

Atodiad 9: Ffynonellau gwybodaeth bellach

Mae rhai o gyhoeddiadau'r Comisiwn Elusennau sy'n debygol o fod yn fwyaf perthnasol i archwiliwr annibynnol wedi'u rhestru isod:

CC3 Yr ymddiriedolwr hanfodol: yr hyn y mae angen i chi wybod
CC7 Taliadau ex gratia gan elusennau
CC8 Rheolaethau ariannol mewnol elusennau
CC11 Treuliau a thaliadau ymddiriedolwyr
CC12 Rheoli cyllid elusen: cynllunio, rheoli anawsterau ac ansolfedd
CC14 Elusennau a materion buddsoddi: canllaw i ymddiriedolwyr
CC15b Cyfrifon ac adroddiadau elusennau: yr hanfodion (Tachwedd 2016)
CC16 Pecyn cyfrifon derbyniadau a thaliadau
CC17 Pecyn cyfrifon croniadau - SORP Elusennau FRS 102
CC17 Pecyn cyfrifon croniadau - cwmnïau elusennol llai
CC18 Defnyddio neuaddau eglwysi ar gyfer neuadd bentref a dibenion elusennol eraill
CC19 Cronfeydd wrth gefn elusennau: meithrin gwydnwch
CC20 Elusennau a chodi arian
CC25 Rheoli asedau ac adnoddau elusennau: trosolwg i ymddiriedolwyr
CC26 Elusennau a rheoli risg
CC27 Penderfynwch chi: ymddiriedolwyr elusen a gwneud penderfyniadau
CC28 Gwerthiannau, prydlesi, trosglwyddiadau neu forgeisiau: yr hyn y mae angen i ymddiriedolwyr wybod am waredu tir elusennau
CC29 Gwrthdaro buddiannau: canllaw i ymddiriedolwyr elusen
CC31 Archwiliad annibynnol o gyfrifon elusennau: ymddiriedolwyr
CC32a Archwiliad annibynnol o gyfrifon elusennau: rhestr wirio a argymhellir
CC35 Ymddiriedolwyr, masnachu a threth: sut gall elusennau fasnachu'n gyfreithiol
CC40 Apêl adeg Trychineb: Canllaw'r Comisiwn Elusennau ar ddechrau, rhedeg a chefnogi apeliadau trychineb elusennol
CC46 Ymchwiliadau statudol i elusennau: canllawiau i elusennau a'u cynghorwyr
CC47 Cwynion am elusennau
CC49 Elusennau ac yswiriant
PB1 Budd cyhoeddus: y gofyniad budd cyhoeddus
PB2 Budd cyhoeddus: rhedeg elusen
PB3 Budd cyhoeddus: adrodd

Canllawiau 'Sut i' y Comisiwn Elusennau

- Rheoli eich elusen
- Arian, treth a chyfrifon elusennau
- Codi arian
- Sefydlu elusen
- Staff a gwirfoddolwyr
- Rôl a bwrdd yr ymddiriedolwyr
- Gwaith eich elusen

Mae rhestr lawn o [gyhoeddiadau a chanllawiau'r Comisiwn](#) ar gael ar y wefan.

Mae'r SORP a'r enghreifftiau, taflenni cymorth a gwybodaeth arall ar y SORP i'w cael yma: www.charitycorp.org

Y Rheoliadau: mae Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 (SI 2008 Rhif.629) a Gorchymyn (Dirprwyo Symiau) 2009 Deddfau Elusennau 1992 a 1993 (SI 2009 Rhif **508**) ar gael ar wefan Legislation.GOV.UK.

Archwiliad annibynnol o gyfrifon elusennau: cyfarwyddiadau a chanllawiau i archwiliwyr (CC32)

Canllawiau ar ofynion y gyfraith cwmnïau: mae'r [Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau](#) yn cyhoeddi nifer o daflenni defnyddiol sy'n esbonio gofynion y gyfraith cwmnïau.

Canllawiau Trysorlys EM ar Ddeddf Elw Troseddau 2000 a Rheoliadau Gwyngalchu Arian cysylltiedig. Mae'r Rheoliadau yn ddeunydd darllen hanfodol i unrhyw archwiliwr sy'n codi ffi neu'n derbyn taliad oherwydd ei fod yn darparu gwasanaethau cyfrifyddu sydd wedi'u cynnwys o fewn busnesau a effeithir gan y rheoliadau hyn. Os ydych hefyd yn aelod o gorff proffesiynol, mae'n bosibl bod eich corff proffesiynol yn cynhyrchu gwybodaeth am wyngalchu arian a fydd yn eich helpu.